

CYNGOR BRO MORGANNWG

Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair



ADRODDIAD BLYNYDDOL
CYFARWYDDWRY
GWASANAETHAU
CYMDEITHASOL

2015-2016

www.bromorgannwg.gov.uk

CYNNWYS	TUDALEN
1. Cyflwyniad	
2. Crynodeb a Throsolwg	5
3. Darparu Rhagoriaeth	9
a. Sicrhau Cymorth (Canlyniad y Gwasanaeth 1): Gall y bobl ym Mro Morgannwg wneud cais am gefnogaeth a chymorth mewn ffordd amserol.	9
b. Darparu Gwasanaethau (Canlyniad y Gwasanaeth 2): Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol ym Mro Morgannwg yn adolygu, cynllunio, dylunio a datblygu gwasanaethau o safon sy'n darparu'r gwerth gorau am arian i wella'r canlyniadau i unigolion a theuluoedd.	17
c. Canlyniadau (Canlyniad y Gwasanaeth 3): Mae Cyngor Bro Morgannwg yn amddiffyn pobl fregus ac yn hybu eu hannibyniaeth a'u cynhwysiad cymdeithasol.	25
4. Cynnal a Gwella	31
a. Siapio Gwasanaethau: Sefydlogrwydd Ariannol ac Adnoddau, Comisiynu, Cynllunio, Partneriaethau ac Ymgysylltu Pobl	31
b. Trefnu: Y Gweithlu, Rheoli Perfformiad	41
c. Darparu Cyfarwyddyd: Cefnogaeth a Goruchwyliaeth Gorfforaethol a Gwleidyddol, Diwylliant ac Arweinyddiaeth y Gyfarwyddiaeth	45
Atodiad 1 Y cynnydd o ran ymateb i ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	48

Gallwch ofyn am gopi o'r Adroddiad Blynyddol hwn mewn ieithoedd a fformatau eraill, Cysylltwch â Jeanette Winter, Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Bro Morgannwg, Swyddfa'r Doc, Heol yr Isffordd, Y Barri, CF63 4RT neu'n electronig jwinter@valeofglamorgan.gov.uk.

Mae pob un o'r Penaethiaid Gwasanaeth sy'n rheoli'r tair adran yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynhyrchu eu hadroddiad eu hunain. Cyhoeddir y rhain ar wahân ac maent yn ymdrin yn fanylach gyda'n holl flaenoriaethau allweddol, yn enwedig yn y meysydd a ganlyn.

Y gwasanaethau plant a phobl ifanc: gwasanaethau i blant mewn angen, plant dan ofal y Cyngor, anabledd a phroblemau iechyd plant, a materion diogelu.



HOS CYPS Report
2015 16.docx

Gwasanaethau oedolion: gwasanaethau i bobl gydag anabledd dysgu, problemau iechyd meddwl, sy'n fregus oherwydd henaint, anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrâu neu awtistiaeth a materion diogelu.



HOS AS Report 2015
16.docx

Rheoli busnes ac arloesi: cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol, arweiniad a diwylliant, adnoddau a sefydlogrwydd ariannol, cynllunio a phartneriaethau, comisiynu a chontractio, datblygiad y gweithlu, rheolaeth a'r strwythur rheoli, systemau gwybodaeth/ansawdd perfformiad a rheolaeth, cydraddoldeb ac amrywiaeth, gwasanaethau amddiffyn gweithdrefnol i bobl fregus.



HOS BMI Report -
2015 16.docx

Ar gael hefyd mae'r Adroddiad ar Berfformiad Diwedd Blwyddyn y Gwasanaethau Cymdeithasol 2015-16 a Gosod Targedau ar gyfer 2016-17.



Social Services
Performance Quarterly

Cyflwyniad

Mae'n bleser mawr gen i eich croesawu i'm hadroddiad blynyddol ar gyfer 2015/16. Ei ddiben yw esbonio i bobl Bro Morgannwg sut mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn diwallu anghenion gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth, sut rydym wedi cyflawni ein blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a beth fydd ein ffocws ar gyfer y deuddeg mis nesaf.

Mae'n destun balchder gen i ein bod wedi gallu cyflawni ein cyd-ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd uchel i'n dinasyddion. Mae'r adroddiad yma'n cynnwys tystiolaeth sylweddol i ddangos bod y mwyafrif o bobl yn derbyn gofal a chefnogaeth dda iawn gan wasanaethau gofal cymdeithasol y Cyngor oherwydd ein ffocws ar sicrhau canlyniadau positif i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, rhai sy'n gwella eu llesiant ac ansawdd eu bywydau.

Cyflawnir hyn yn bennaf drwy'r ymdrechion parhaus gan yr holl weithwyr proffesiynol hynny mewn gofal cymdeithasol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd ac unigolion sydd angen cymorth ar draws Bro Morgannwg ac hefyd drwy gefnogaeth gan ein partneriaid pwysicaf. Fy niolch unwaith eto i bawb sy'n cyfrannu cyfoeth o brofiad, sgiliau ac ymrwymiad i'r fenter hon. Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith a wneir gan staff yn fawr iawn, yn aml mewn amgylchiadau anodd iawn, a'r ffordd y gall weddnewid bywydau pobl. Gallwn weld cyfres o hanesion ar fideo i dystio i hyn drwy'r ddogfen gyfan hon. Tu hwnt i'r gwasanaethau penodol sydd wedi'u hamlygu yn yr adroddiad ac yn y fideos, rydym yn cofio hefyd bod nifer o dimau a gwasanaethau eraill wedi dangos cynnydd sylweddol a pharhaus y llynedd.

Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, ac yn unol â'n cyfeiriad strategol, rydym yn parhau i ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau ac i'r pwysau ariannol drwy gymryd camau i foderneiddio gwasanaethau ac i'w gwneud nhw'n fwy effeithiol. Mae hyn yn golygu gweithio'n galed i gydweithredu a chynllunio gwelliannau gydag adrannau eraill o'r Cyngor megis tai ac addysg a gyda'n partneriaid yn y GIG, sefydliadau trydydd sector a darparwyr gofal annibynnol. Mae mentrau Llywodraeth Cymru, megis y Gronfa Gydweithredu Rhanbarthol a'r Gronfa Gofal Canolraddol, wedi rhoi cyfleoedd da i ni i ddarparu gwaith mwy cydgysylltiedig ar draws y gwasanaethau gofal cymdeithasol, tai ac iechyd. Yn y ffordd yma, gallwn edrych ar ddatblygu'r math o wasanaethau y mae pobl yn dweud wrthym eu bod eu heisiau a'u hangen.

Treuliwyd llawer o'n hamser y llynedd yn paratoi i weithredu ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, y mae ei gweithrediad wedi'i gynllunio ar gyfer mis Ebrill 2016. Mae'r gwaith yma wedi'i ddisgrifio'n fanylach yn hwyrach ymlaen yn fy adroddiad. Mae gennym resymau cadarn dros gredu ein bod wedi paratoi hyd eithaf ein gallu. Mae'r adroddiad yma ei hun wedi'i gyflwyno mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r ddeddf newydd a'i gofynion ac hefyd ein cynllun gwasanaethau ar gyfer 2015-2019.

Philip Evans
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

Crynodeb

- A. Cafwyd gwaith sylweddol i ddatblygu a gwella gwasanaethau, gan sicrhau effeithiau da a manteision eglur i'r gofalwyr a'r defnyddwyr gwasanaeth. Roedd sialensiau mawr i'w wynebu wrth geisio cynnal a gwella lefelau perfformiad ond roedd dealltwriaeth dda gennym o'r sialensiau yma a llwyddwyd i gyflawni llawer.
- B. Rydym yn adeiladu ar sylfeini cadarn ac mae gennym gynlluniau clir ar gyfer arloesi pellach. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yng nghynllun gwasanaeth y Gyfarwyddiaeth, ei rhaglen gyllideb a'i hagenda gweithio cydweithredol a rhaglen Ail-siapiro Gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r gwaith o ailfodelu rhai o'r gwasanaethau'n dod yn ei flaen yn dda ac mae hyn wedi ei seilio ar gynlluniau realistig, uchelgais mawr a sylw i'r manylion.
- C. Mae gwaith cydweithredol parhaol gyda phartneriaid allweddol, ar y lefelau gweithredol a strategol yn helpu gyda'r rhaglen hon. Nid yw'r gwaith yma wedi'i gyfyngu i integreiddio na chydweithrediad rhwng y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, er bod y rhain yn digwydd ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen. Mae'n amlwg hefyd yn y cydweithredu rhagorol rhwng y gwasanaethau oedolion a phlant, rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill y Cyngor, ac ar draws ffiniau daearyddol gydag awdurdodau lleol, asiantaethau a darparwyr gwasanaethau eraill.
- D. O ganlyniad i'r rhaglenni yma, mae defnyddwyr a gofalwyr yn gweld gwelliannau yn eu profiadau o ofal a chefnogaeth ac o ran eu llesiant hefyd. Maent yn cyfranogi fwy a mwy mewn adolygu ac ailgynllunio gwasanaethau, er bod yn rhaid gwneud rhagor i sicrhau cyfranogaeth gyson ar draws y grwpiau cleient.
- E. Mae gwerthusiad mewnol ac allanol yn cadarnhau bod y mwyafrif o'r ffactorau sefydliadol sy'n cefnogi darpariaeth effeithiol y gwasanaethau yng ngwasanaethau'r oedolion a'r gwasanaethau plant yn drefnus iawn ar y cyfan. Mae hyn yn cynnwys arweiniad cyfunol cryf, cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol dda i'r gwasanaethau cymdeithasol, rheolaeth effeithiol ar adnoddau, rheolaeth dda ar berfformiad a sylw cynyddol i gynllunio, comisiynu a chontractio gwasanaethau.
- F. Mae'r galw cynyddol a'r gostyngiad mewn adnoddau'n golygu bod nifer o wasanaethau o dan bwysau. Mae hyn yn wir am wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu'n uniongyrchol (gan gynnwys cymorth i deuluoedd), rheiny a ddarparwn drwy ddarparwyr allanol (gan gynnwys lleoliadau mewn cartrefi nyrsio arbenigol), a gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau partner (gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc). Mae cynlluniau ar waith i ymdrin â'r bylchau yma yn y gwasanaethau a chafwyd cynnydd da, ond bydd y sialensiau'n parhau.
- G. Er gwaethaf ein sylfeini cadarn a'n gwydnwch, mae'r flwyddyn o'n blaenau'n debygol o fod yn eithriadol heriol. Mae pwysau cynyddol ar ein cymunedau, ein gofalwyr a defnyddwyr ein gwasanaethau. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid allweddol yn wynebu heriau ariannol dwys a gostyngiad mewn capasiti. Mae'n rhaid i ni ganfod yr amser a'r adnoddau i fewnosod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ein harferion, i wneud arbedion effeithlonrwydd newydd ac i ailfodelu gwasanaethau ymhellach.
- H. Mae rhai cyfnodau caled o'n blaenau. Credaf y byddai'n amhriodol i'r adroddiad yma ddarparu sicrwydd afrealistig ond gallwn gymryd hyder o'n cyflawniadau hyd yn hyn a thystiolaeth o'n capasiti i ymdrin yn bositif gydag amrywiaeth o broblemau anodd.

TROSOLWG

1. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, un flaenoriaeth oedd gennym oedd paratoi i weithredu dyletswyddau a disgwyliadau newydd y Cyngor o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a fyddai'n dod yn gwbl weithredol o Ebrill 2016. Mae graddfa'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf, y rheoliadau a'r canllawiau newydd yn sylweddol. Mewn cydweithrediad â'n partneriaid rhanbarthol, cyflawnwyd llawer o waith i sicrhau bod y staff yn gallu cydymffurfio gyda chynifer o ofynion y Ddeddf ag sy'n bosibl o'r diwrnod cyntaf.
2. Rydym yn cydnabod y bydd y newidiadau a ddaeth yn ofynnol oherwydd y Ddeddf, yn cymryd amser i ymsefydlu'n llawn. Un o'n prif flaenoriaethau yn ystod y camau paratoi a gweddnewid oedd sicrhau parhad y gwasanaeth fel ein bod yn gallu darparu, heb ormod o amhariad, y cymorth y mae pobl yn dibynnu arno – yn ddyddiol yn aml iawn.
3. Wrth wneud newidiadau, rydym wedi ceisio adeiladu ar y gwaith rhanbarthol a gychwynwyd yn barod drwy'r Bwrdd Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig, prosiectau wedi eu cyllido gan grantiau, yr agenda Integreiddiad Llwybr Carlam i'r gwasanaethau pobl hŷn a'r rhaglen integreiddio gwasanaethau plant a noddir gan Grŵp Gweithredol y Bwrdd Lleol Diogelu Plant (LSCB). Mae partneriaid allweddol ledled Caerdydd a Bro Morgannwg wedi dangos ymrwymiad cynyddol i gydweithio er mwyn gwella'r ffordd y mae ein dinasyddion yn derbyn gofal a chefnogaeth, gan sicrhau dull mwy cydgysylltiedig - un sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posib i bobl ac sy'n cwrdd â disgwyliadau a gofynion y Ddeddf.
4. Ein nod yw sicrhau bod ffocws cyson yn y gwasanaethau cyhoeddus ar bobl fregus a'r rheiny sydd angen cymorth. Mae'n hanfodol eu bod yn derbyn y gefnogaeth gywir ar yr amser cywir, p'un a ydynt yn byw yn eu cartrefi eu hunain neu mewn lleoliadau megis cartrefi gofal a gwasanaethau maethu. Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yn ein gwaith i newid patrymau'r gwasanaethau yn unol â modelau newydd o ofal, datblygu ein strategaethau comisiynu, darparu gwasanaethau cydgysylltiedig a rheoli adnoddau'n fwy effeithiol.
5. Yn ystod 2015/16, rydym ni yn y gwasanaethau plant wedi:
 - parhau i weithredu Strategaeth Gomisiynu'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc 2013-18 yn llwyddiannus, ochr yn ochr â gwaith i ddatblygu Strategaeth Gorfforaethol i'r Cyngor cyfan;
 - comisiynu ail gartref gofal preswyl annibynnol i blant ym Mro Morgannwg;
 - gweithredu fel prif awdurdod i reoli'r Rhaglen Fabwysiadu Ranbarthol Gydweithredol newydd;
 - gostwng y nifer o blant a roddwyd mewn gofal preswyl;
 - cynyddu'r nifer o blant a roddwyd i fyw gydag aelodau o'u teulu ehangach mewn lleoliadau gyda pherthnasau;
 - cyflwyno trefniadau newydd drwy Fwrdd Lleol Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro i ymdrin â phob agwedd o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, gan gynnwys atal, diogelu a mynd ar ôl troseddwr;
 - cytuno ar welliannau sylweddol gyda sefydliadau partner mewn darparu gofal a chefnogaeth cydgysylltiedig i blant sydd ag anghenion cymhleth oherwydd anableddau.

6. Mae tystiolaeth sylweddol i ddangos bod plant a phobl ifanc mewn gofal ym Mro Morgannwg yn derbyn cefnogaeth amserol a gwasanaethau o safon. Mae gan bob plentyn sy'n derbyn gofal Weithiwr Cymdeithasol penodedig. Yn unol â'n strategaeth, rydym wedi gallu sicrhau bod mwy o blant yn aros o fewn eu teuluoedd pan fo hynny'n ddiogel. Rydym hefyd wedi bod yn llwyddiannus yn ein hymdrechion i ddychwelyd plant a oedd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal yn y gorffennol.
7. Mae'r blaenoriaethau i'r Gwasanaethau Plant yn 2016/17 yn cynnwys datblygu a gweithredu polisi corfforaethol ar arferion diogelu, er mwyn darparu llinellau atebolrwydd a chyfeiriad strategol clir ar draws y Cyngor. Trwy Fwrdd Lleol Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu strategaeth gynhwysfawr i ddelio â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, yn cynnwys ataliad. Mae hon yn elfen benodol hefyd yng Nghynllun Corfforaethol 2016/20 y Cyngor.
8. Yn ystod 2015/16, yn y gwasanaethau oedolion, rydym wedi:
 - cefnogi 1,692 o oedolion i fyw gartref (o'i gymharu â 1,665 yn 2014/15);
 - darparu cymorth Teleofal wedi'i bersoni i 332 o bobl (o'i gymharu â 309 yn 2014/15);
 - helpu 1,062 o bobl hŷn i fyw gartref (o'i gymharu â 1,027 yn 2014/15);
 - helpu mwy o bobl i aros yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain drwy gefnogi 374 o bobl hŷn fregus mewn gofal cartref nyrsio/preswyl (o'i gymharu â 392 yn 2014/15);
 - gweld cynnydd yng nghyfradd y trosglwyddiadau gofal a ohiriwyd am resymau gofal cymdeithasol i bob 1000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed ac yn hŷn – o 4.55 i 4.70.
9. I'r oedolion hynny sydd angen gofal a chefnogaeth, rydym wedi gweld cynnydd da yn y gwaith o roi modelau gwasanaeth yn eu lle, gan sicrhau bod modd i bobl gael gafael ar yr wybodaeth a'r cyngor y maent eu hangen drwy gyfrwng un pwynt a bod staff y ganolfan gysylltu'n gallu cyfeirio achosion yn hawdd pan fo oedolyn angen gofal a chefnogaeth. Mae Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid y Cyngor yn C1V yn gweithredu fwy a mwy fel prif bwynt mynediad ar gyfer y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae staff o'r gwasanaethau cymdeithasol, y GIG a'r trydydd sector wedi eu seilio yma, i'n helpu i gyfeirio pobl at y math cywir o gymorth ac i helpu pobl i gysylltu â'r gwasanaethau hynny.
10. Mae'r model ardal a ddatblygwyd ym Mro Morgannwg yn dileu llawer o'r ffiniau traddodiadol rhwng y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym wedi rhoi cynllun ardal uchelgeisiol ar waith i uno ac ailstrwythuro'r cymorth a gynigir i oedolion hŷn a phobl sydd ag anabledd corfforol. Mae datblygiad y clystyrau lle mae meddygon teulu a'u meddygfeydd yn cydweithio wedi darparu ysgogiad newydd ar gyfer y ffordd yma o weithio. Mae'r gwasanaethau cymunedol yn gweithredu'n fwy effeithiol erbyn hyn drwy brosesu gwaith achos drwy naill ai wasanaeth derbyn integredig neu drwy wasanaeth gofal tymor hwy. Defnyddiwyd Cronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad y strwythur ardaloedd ac i gefnogi'r gwelliannau i waith y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid.
11. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion yn 2016/17 yn cynnwys opsiynau adolygu i ddarparu 'llety gyda gofal' i bobl hŷn, yn unol â Chynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2016/20. Byddwn hefyd yn datblygu ein strategaethau comisiynu ar gyfer gwahanol gategoriâu o ddefnyddwyr gwasanaeth ond gan ganolbwyntio'n arbennig ar archwilio ystod o opsiynau i bobl hŷn sydd â gwahanol anghenion cymorth a gofal.
12. Mae'r heriau parhaus i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau:
 - darparu cefnogaeth effeithiol i gyfran gynyddol o bobl hen iawn ym mhoblogaeth y Fro gyda lefelau cynyddol o angen, i blant a phobl eraill sydd â chyflyrau iechyd

cynyddol gymhleth ac i deuluoedd sy'n mynd trwy gyfnod o anawsterau ac o fod yn agored i niwed;

- datblygu gwaith partneriaeth agosach er mwyn darparu modelau gofal newydd a gwasanaethau cymorth ar draws yr ystod gyfan o anghenion;
- rheoli gostyngiadau mewn cyllido gan hefyd leihau lle bo'n bosibl yr effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau rheng flaen;
- cwrdd â'r gofynion newydd i wasanaethau a hynny gyda'r adnoddau sector cyhoeddus cyfyngedig sydd ar gael i weithredu'r newidiadau, yn cynnwys y rheiny sy'n codi o'r goblygiadau statudol cynyddol a fydd yn cael eu cyflwyno gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ym mis Ebrill 2016;
- sicrhau gofal o ansawdd, rheoli unrhyw elfennau a allai achosi i'r gwasanaethau fethu a chynyddu cyfrifoldebau diogelu; a
- gostwng biwrocratiaeth ddianghenraid fel ein bod yn gallu dod â chymorth i bobl yn gyflymach a rhoi mwy o amser i staff wneud gwaith uniongyrchol.

13. Gan edrych i'r dyfodol, rwy'n hyderus ein bod mewn sefyllfa dda i ymdrin â'r heriau allweddol yma a darparu'r meysydd o welliant yr ydym wedi eu pennu. Rydym wedi dod i'r casgliad yma am ein bod yn perfformio'n effeithiol mewn perthynas â'n dangosyddion perfformiad allweddol. Mae ein canlyniadau o ran profiad y cwsmeriaid, ein hymatebolrwydd a'n parodrwydd i ddysgu o ostwng nifer y cwynion, yn dangos ein bod yn cwrdd â'n hymrwymiad i ddarparu cymorth a gofal da iawn. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn cydnabod ein bod mewn sefyllfa gref i barhau i ddarparu ein rhaglen wella.
14. Byddwn yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol. Fel awdurdod lleol, nid yw Bro Morgannwg yn unigryw yn y ffaith ei fod yn gorfod darparu gwasanaethau o safon uchel o fewn y rhwystrau parhaol ar wariant cyhoeddus. Yn ogystal â delio gyda galw cynyddol am wasanaethau, roedd angen i'r Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wneud arbedion costau o bron i £1.5m. Yn rhan o'r Rhaglen Gyllideb Gwasanaethau Cyhoeddus, roeddem wedi llwyddo i daro ein targed arbedion a gorffen y flwyddyn gyda chyllideb gytbwys. Gwnaethpwyd hyn er gwaethaf pwysau'r newidiadau demograffig mewn perthynas â phobl hŷn a'r angen i gynyddu'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol i'r rheiny oedd yn mynd yn fregus iawn. Canlyniad hyn oedd amrywiant anffafriol o £412k ar becynnau gofal cymunedol, oedd hefyd yn cynnwys methiant i adennill yn gyflawn yr incwm a dderbyniwyd o dan y Cynllun Taliadau Gohiriedig.
15. Er bod y Gyfarwyddiaeth mewn sefyllfa ariannol ffafriol pan ddaeth 2015/16 i ben, roedd rheoli'r gwariant yn her enfawr ac nid oes llawer o obaith am unrhyw seibiant yn y flwyddyn sy'n dod. Bydd yn rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol wneud arbedion pellach drwy gydol cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor, er gwaethaf y costau cynyddol a'r galw cynyddol am ofal a chefnogaeth. Mae gofyn i'r Gyfarwyddiaeth ganfod arbedion o £2.257m erbyn diwedd 2019/20 a'r arbedion targed ar gyfer 2016/17 ei hun yw £1.002m.
16. Er gwaethaf y cynnydd yn y galw am wasanaethau, rydym wedi ymroddi i ymateb yn bositif wrth reoli'r pwysau ar ein cyllideb a rheoli'r galw cynyddol am wasanaethau, drwy gymryd camau effeithiol i ailsiapiau ein gwasanaethau. I gefnogi'r rhaglen yma, bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn gwneud ymarfer mawr i asesu'r anghenion sydd gan bobl ar draws Bro Morgannwg am ofal a chefnogaeth. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol yn y gwasanaethau oedolion a phlant i ddarparu cyfleoedd i bobl gael bywyd lle maent mor annibynnol ag sy'n bosibl. Mae pobl yn dweud wrthym fod hyn yn hynod o bwysig iddynt a dyma'r unig ffordd hefyd o ymdrin yn effeithiol â'r galw cynyddol am ein gwasanaethau a gostwng cyllidebau.

Darparu Rhagoriaeth

17. Mae'r rhan hwn o'm hadroddiad yn ystyried sut yr ydym yn sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth y maent ei angen mewn ffordd amserol ac effeithiol. Mae hefyd yn esbonio sut y gallwn ddarparu'r ystod o wasanaethau, a'r rheiny'n wasanaethau o ansawdd da, sy'n ofynnol i gyflawni canlyniadau positif sy'n hybu annibyniaeth a chynhwysiad cymdeithasol ac yn amddiffyn pobl fregus rhag camdriniaeth ac ecsbloetiaeth.

3a) Sicrhau Cymorth

Canlyniad y Gwasanaeth 1: Gall y bobl ym Mro Morgannwg wneud cais am gefnogaeth a chymorth mewn ffordd amserol

Amcan y gwasanaeth fel y mae wedi ei nodi yn ein Cynllun Gwasanaethau Cymdeithasol 2015-2019:

- Sicrhau bod gwybodaeth gynhwysfawr ar gael i bobl am y Gwasanaethau Cymdeithasol a mathau eraill o gymorth a chefnogaeth, a bod pobl yn cael eu cyfeirio'n briodol at gymorth a chefnogaeth drwy asesiadau cymesur, cynlluniau cynnal a gofal, a gwasanaethau sy'n ateb eu hanghenion unigol a aseswyd.*

Beth oedd ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2015-2016?	Beth wnaethom ni yn 2015-2016 i gyflawni'r blaenoriaethau yma?
Cydweithio gyda phartneriaid i sefydlu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth effeithiol yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).	Mae gweithgor Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) rhanbarthol wedi helpu i ddiffinio'r model a fydd yn cael ei ddefnyddio ym Mro Morgannwg a Chaerdydd. Aethent ati i bennu a mapio'r ystod o wybodaeth a gwasanaethau gwybodaeth a chyngor sydd ar waith ar draws y rhanbarth. Ar y sylfaen yma, rydym yn adeiladu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth cydlynol yn cynnwys yr Un Pwynt Mynediad i Oedolion a phwyntiau Cyswllt Cychwynnol Cyntaf Teuluoedd yn Gyntaf. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen drwy'r amser i roi'r holl wybodaeth ranbarthol gynhwysfawr am sefydliadau perthnasol ar Dewis Cymru (y cyfeiriadur adnoddau cenedlaethol newydd a'r porth gwybodaeth ar-lein i ddinasyddion sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, sefydliadau Trydydd Sector a sefydliadau Sector Annibynnol sy'n gweithio yn y maes gofal a chymorth).
Cwblhau'r adolygiad o fodolau gwasanaeth cyfredol yng Ngwasanaethau'r Plant yng nghydestun gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Bydd hyn yn cynnwys ystyried rôl y Panel	Rydym wedi adolygu'r Panel Adnoddau a rhoi llinell gyngor ar waith sy'n ein galluogi i ymateb yn fwy effeithiol i angen ac i gyfeirio teuluoedd at y gwasanaethau cywir ar yr amser cywir. Cafodd hyn ei dreialu'n llwyddiannus yn ystod 2015/16, a'r bwriad yw parhau â'r dull yma yn y flwyddyn sydd o'n blaenau.

<p>Adnoddau a'i argymhellion, gyda'r bwriad o ganfod dull mwy effeithiol o ymateb i angen a chyfeirio teuluoedd yn effeithiol at y gwasanaethau cywir ar yr amser cywir.</p>	
<p>Parhau i ddatblygu prosesau i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei gyfnewid yn gyflawn ac yn brydlon rhwng y Tîm Anabledd ac Iechyd Plant ac Asiantaethau Partner.</p>	<p>Rydym wedi parhau i weithio gyda Chyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar flaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar y cyd, gan gynnwys offer arbenigol a phrotocolau gofal iechyd parhaus.</p> <p>Cafwyd Adolygiad o'r Protocol Pontio mewn cydweithrediad â Chyngor Caerdydd, partneriaid iechyd ac addysg er mwyn hybu dull rhanbarthol cyson o gefnogi pobl ifanc wrth bontio. Mae penodi Rheolwr Newid Gweithredol wedi ein galluogi i rannu arferion da ar draws y ddau Gyngor a pharatoi cynllun darparu rhanbarthol i blant sydd ag anghenion cymhleth sy'n symud i mewn i'r gwasanaethau oedolion.</p>
<p>Mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, cyfuno'r timau rheoli gofal ac asesu gofal cymdeithasol ac iechyd integredig ar gyfer Anableddau Dysgu er mwyn gwella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth.</p>	<p>Rydym wedi sefydlu prosesau cyfeirio a sgrinio ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol (ABMU), gan sicrhau bod modd defnyddio dull symlach gyda'r cyhoedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. O fewn y sefydliad staff presennol, rydym wedi sefydlu tîm adolygu sy'n cynnwys staff gofal cymdeithasol ac iechyd. O ganlyniad i hyn mae adolygiadau holistig yn cael eu cwblhau'n brydlon. Cafwyd hyfforddiant ar y cyd mewn perthynas â gofal iechyd Parhaus, gyda chytundeb i ddatblygu mwy o gyfleoedd i integreiddio drwy gydol 2016/17.</p>
<p>Darparu ar gynllun gweithredu'r Gwasanaethau Teleofal a ddatblygwyd gan grŵp Tasg a Gorffen y Pwyllgor Craffu.</p>	<p>Mae'r cynllun gweithredu wedi ei gwblhau bron yn gyfan gwbl ac mae'r nifer o bobl sy'n derbyn cefnogaeth gan Teleofal wedi cynyddu yn ystod 2016/17. Mae rhai meysydd sydd angen rhagor o ddatblygiad, a hynny ar sail ranbarthol mae'n debyg.</p>
<p>Parhau i ddatblygu'r gwasanaeth gwybodaeth a chyngor i gefnogi unigolion sydd ag Anhwylder ar y Sbectwm Awtistig (ASD).</p>	<p>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau cymdeithasol i oedolion sydd ag awtistiaeth. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i weithio gyda grŵp o oedolion a gasglwyd ynghyd yn wreiddiol ar gyfer cwrs sgiliau cyflogaeth. Mae'r grŵp yn cwrdd fel fforwm rheolaidd yn ystod y dydd erbyn hyn yng Nghanolfan YMCA y Barri.</p>
<p>Datblygu ymhellach yr adnodd gwybodaeth am gyflogaeth a sgiliau, <i>Working with Autism</i>.</p>	<p>Mae <i>Working with Autism</i> wedi dod yn adnodd cenedlaethol gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae mwy na 600 o staff Gyrfa Cymru wedi cwblhau'r cwrs.</p>
<p>Trwy newidiadau yn strwythur a</p>	<p>Mae'r strwythur ardaloedd wedi ei sefydlu'n gadarn</p>


<p>phrosesau ardal y Fro, datblygu ymhellach y model iechyd a gofal cymdeithasol integredig fel nad yw taith defnyddwyr y gwasanaeth drwy'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei rwystro gan ffiniau sefydliadol a phroffesiynol.</p>	<p>erbyn hyn yn rhan o fusnes pob dydd, gyda systemau cadarn ar waith i drosglwyddo gofal yn ddiogel o'r Ganolfan Gyswllt, drwy'r Tîm Derbyn ac Asesu neu'r Gwasanaeth Rhyddhau Integredig ac ymlaen i'r Gwasanaeth Gofal Tymor Hir pan fydd angen ymyrraeth fwy cyson ar bobl. Mae'r prosesau wedi eu symleiddio ac rydym yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau a sgiliau proffesiynol.</p>
--	---

Pa effaith gafodd hyn?

Plant

- 18. Y canlyniad bwriadedig i blant a phobl ifanc yw eu bod yn ymgysylltu ac yn derbyn cefnogaeth ac yn cymryd mantais lawn o gyfleoedd bywyd sydd ar gael yn eu cymunedau lleol a thu hwnt. Mae galw uchel a chynyddol am wasanaethau plant a theuluoedd ym Mro Morgannwg ac rydym yn ymdrechu i ddarparu cefnogaeth mewn ffordd sy'n ateb gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd ac yn sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar gyngor, cefnogaeth a gwybodaeth glir a bod eu llais wrth galon y penderfyniadau am eu gofal a'u cefnogaeth.
- 19. Yn ystod 2015/16, rydym wedi gallu cynnal lefelau staffio ar y rheng flaen, gyda lefel dda o sefydlogrwydd ymysg y gweithlu yn cynnwys rheolwyr profiadol sy'n darparu arweinyddiaeth glir i'r timau staff. Er ein bod wedi cael rhai anawsterau wrth geisio penodi'n barhaol i swyddi yn y Tîm Derbyn a Chymorth y Teulu, rydym wedi parhau'n ymrwymedig i sicrhau ein bod yn cynnal y lefelau staffio, a hynny drwy benodi staff dros dro lle bo raid. Rydym hefyd yn adolygu ein strwythurau i ganfod y ffordd fwyaf priodol o ddyrannu a threfnu adnoddau wrth y 'drws ffrynt' neu'r pwynt cysylltu cyntaf gyda'r gwasanaethau cymdeithasol.
- 20. Fel y gwelwn yn Nhabl 1 isod, mae ein staff yn parhau i berfformio i lefel uchel yn ystod y cysylltiad cychwynnol gyda theuluoedd. Rydym yn parhau i berfformio ar lefel uwch na'r ffigur cyfartalog i Gymru Gyfan o ran y penderfyniadau a wneir am atgyfeirio o fewn un diwrnod gwaith; yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, cyflawnwyd ffigur o fwy na 99%.


Tabl 1: y % o'r penderfyniadau a wnaed o fewn un diwrnod gwaith



- 21. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd yn darparu'r amseriadau statudol ar gyfer gwneud gwaith gyda theuluoedd yn

ogystal â sicrhau cyfranogaeth gan asiantaethau eraill megis y sector iechyd addysg a gwirfoddol lle bo hynny'n briodol. Mae'n hanfodol hefyd bod yr Aseidiadau Cychwynnol a Chraidd fel ei gilydd yn cael eu cwblhau'n brydlon er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a chefnogaeth priodol ar gael i blant a theuluoedd 'mewn angen'. Dylid cwblhau Aseidiadau Cychwynnol o fewn saith diwrnod gwaith ac mae ein perfformiad wedi cynyddu i 90% yn 2015/16. Mae Tabl 2 isod yn dangos hefyd ein bod yn parhau i berfformio'n dda mewn perthynas â chwblhau'r Aseidiadau Craidd o fewn y 35 diwrnod gwaith a argymhellir a'n cyfartaledd yn ystod y flwyddyn oedd 92%.

Tabl 2: y % o'r aseidiadau craidd gofynnol a gwblhawyd o fewn 35 diwrnod gwaith




22. O dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) newydd, bydd y ffyrdd o fesur perfformiad yn y maes yma o waith yn newid yn y flwyddyn sy'n dod ac mae Bro Morgannwg yn cymryd rhan yn llawn mewn rhaglenni cenedlaethol i symleiddio prosesau asesu, cynllunio ac adolygu ar gyfer achosion unigol. Rhagwelir y bydd hyn yn helpu i ostwng biwrocratiaeth a'r amser anghymesur y mae staff yn ei dreulio'n rhoi gwybodaeth ar systemau rheoli achosion.

Oedolion

23. Yn y Gwasanaethau Oedolion, mae ein hymdrechion i integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd y gymuned wedi cael eu hatgyfnerthu eleni yn dilyn gweithredu cynllun ardal uchelgeisiol i uno'r cymorth a gynigir i oedolion hŷn a phobl gydag anabledd corfforol. Mae datblygu clystyrau meddygon teulu wedi darparu ysgogiad newydd i'r ffordd yma o weithio.
24. Rydym wedi parhau i dderbyn cyllid gan Gronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad yr ailstrwythuro ardal yma. Mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio i wella'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid (CCC) yn C1V, er mwyn sicrhau bod gan bobl well cyfle i gael gafael ar wasanaethau cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol. Yn y Ganolfan, mae staff o'r gwasanaethau cymdeithasol, y GIG a'r trydydd sector yn gweithio ynghyd i ymdrin â cheisiadau am gymorth. Mae hyn wedi caniatáu i ni gyfeirio pobl at y gwasanaethau cywir y tro cyntaf. Dechreuodd y newidiadau yn y ffordd mae'r ardal yn gweithredu ym mis Medi 2014 a chafwyd effaith gynyddol ers yr amser hwnnw, fel y gwelwn yn y ffordd mae wedi effeithio ar aseidiadau rhyddhau o'r ysbyty yn Nhabl 3.

Tabl 3



25. Mae'r Tabl yn dangos bod y nifer o atgyfeiriadau at y gwasanaeth gofal cymdeithasol a gafodd sylw yn y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid (CCC) wedi cynyddu'n sylweddol, i fwy na 70% o'r llwyth gwaith cyfan. Mae'r cyfeiriadau hynny oedd angen ymyrraeth dymor hwy gan dimau rheoli gofal wedi gostwng. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwerth ychwanegol a geir drwy gyd-leoli staff o wahanol broffesiynau ar y pwynt cysylltu cychwynol a rhoi mwy o le i'r gweithiwr cymdeithasol yn y canol. Fodd bynnag, mae'r nifer gyfan o alwadau am wasanaeth dyddiol wedi parhau i dyfu, gan gyrraedd ei uchafbwynt, sef 36, ym mis Ionawr 2016. Rhagwelir y bydd y patrwm yma o gynyddu'n parhau, er na wyddys beth yw effaith y Ddeddf ar y galw am wasanaethau.
26. Cafwyd gostyngiad yn y nifer a'r canran o achosion sy'n cael eu cyfeirio ymlaen i'r tîm gwaith cymdeithasol tymor hwy. Yn ystod 2015/16, dim ond oddeutu 5% o faint cyfan y gwaith, neu gyfartaledd o 38 o ymholiadau bob mis, sydd wedi cael eu haseinio i'r tîm yma.
27. Mae'r agwedd integredig a fabwysiadwyd gan y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid sy'n datblygu wedi gwneud gwahaniaeth amlwg go iawn i'r ffordd yr ydym yn cyfranogi at fywydau pobl. Isod mae Achos Enghreifftiol diweddar sy'n dangos sut mae'r newidiadau wedi gwella'r canlyniadau i ddefnyddiwr gwasanaeth a'i theulu.

Achosion Enghreifftiol

1) Hanesion Digidol – stori Karen

Derbyniodd Karen alwad ffôn i ddweud bod ei thad yn sâl. Ef yw prif ofalwr ei mham, Loris. Cysylltodd Karen â C1V a oedd yn gallu asesu sefyllfa ei mam yn gyflym a threfnu cymorth gofal yn y cartref iddi. Roedd gwirfoddolwyr ar gael i Loris hefyd i'w helpu gyda'i siopa, i ymgyfeillio ac ati, drwy'r brocer trydydd sector yn C1V. Diolch i asesiad a chymorth gan therapydd galwedigaethol, roedd modd i Loris aros yn ei chartref ei hun yn ddiogel. Hefyd, defnyddiodd y gwasanaeth Teleofal, gyda larwm crog i'w diogelu os byddai angen cymorth pan oedd ar ei phen ei hun. Cynigiwyd asesiad gofalwr i Karen ac fe gytunodd. Diolch i'r gefnogaeth a gynigiwyd i'r teulu gallai Karen barhau yn ei rôl ofalu a dal ymlaen i weithio.

I weld y fideo yma, cliciwch isod

<https://www.youtube.com/watch?v=e6j-yCIBpik&feature=youtu.be>

2) Ymatebion niferus

Mae C yn fenyw 83 oed sy'n byw gyda'i gŵr. Mae ganddi broblemau meddygol niferus sy'n cael eu rheoli gan y tîm nyrsys ardal (DN) a'i meddyg teulu. Cafodd ei gŵr ei gymryd i'r ysbyty wedi iddo gael strôc ac roedd hi'n cael trafferth gofalu amdani ei hun gartref. Darparodd y gwasanaethau cymdeithasol becyn gofal iddi a galwodd y nyrs ardal bob dydd.

Derbyniwyd atgyfeiriad gan y meddyg teulu'n gofyn i'r nyrs ailalluogi ymweld oherwydd pryderon am ddiogelwch y claf tra'i bod yn byw ar ei phen ei hun. Roedd hi'n gadael y tŷ mewn dillad amhriodol ac yn cario cylllell gerfio yn ei bag. Ymysg y sefyllfaoedd a gododd oedd achos o fwyta bag o siwgr a rhoi lliain sychu llestri ar dân yn y gegin. Cafodd yr atgyfeiriad ei frysbennu gan y nyrsys sydd wedi eu seilio yn y ganolfan gyswllt a phenderfynwyd na fyddai angen y nyrs ailalluogi. Y rheswm am hynny oedd bod y nyrsys yn y ganolfan yn gweithio ochr yn ochr â'r holl asiantaethau cymunedol eraill oedd yn cyfranogi ac y gallent gydlynur ymateb o'r fan honno.

Cysylltwyd â'r meddyg teulu a gwnaethpwyd atgyfeiriad i REACT i ymdrin â'r problemau gallu ac iechyd meddwl. Gwnaethpwyd cyfeiriad mewnol i'r gwasanaeth Teleofal sydd wedi ei seilio yn y ganolfan, i sicrhau'r offer larwm cymunedol mwyaf priodol. Roedd y berthynas o fewn y teulu wedi mynd yn anodd felly trefnwyd cyfarfod gan y nyrs brysbennu gyda'r gweithiwr cymdeithasol, y Nyrs Ardal, REACT, y ferch a'r claf i drafod y sefyllfa ac i drefnu dull amlddisgyblaethol o ddarparu gofal diogel a phriodol.

Ymysg y gwelliannau i'n gwasanaethau i bobl gydag Anabledd Corfforol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yr oedd cyflwyno proses symlach o asesu pobl sydd angen gwasanaeth oherwydd nam ar y synhwyrâu. Mae hyn wedi gwella'r amseroedd ymateb yn sylweddol. Ond, mae angen mwy o waith i sicrhau y gallwn ateb y galw am gymorth gan nifer gynyddol o bobl sydd â nam ar y golwg. Mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Tai, rydym wedi parhau i ostwng yr amser mae'n ei gymryd i oedolion a phlant fel ei gilydd gael Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

Gofalwyr

28. Mae ein perfformiad o ran cwblhau asesiadau gofalwyr wedi parhau ar lefel uchel yn ystod 2015/16. Mae'r Cyngor yn parhau i dderbyn sylwadau positif iawn gan ofalwyr mewn perthynas â'r gefnogaeth a gynigir iddynt.
29. Parhaodd Gweithgor y Mesur i Ofalwyr gwrdd yn ystod 2015 a bu'n helpu i baratoi'r sefydliadau ar gyfer y newidiadau a ddisgwyllir er mwyn gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gan ein rhoi mewn sefyllfa dda i ymateb yn briodol. Adolygwyd rolau ein Swyddogion Cymorth i Ofalwyr er mwyn sicrhau y bydd y gwasanaeth yn gallu cwrdd â'r gofynion newydd yma. Ystyrir y swyddi'n hanfodol o ran sicrhau bod gofalwyr yn derbyn cyngor, cefnogaeth ac asesiad i'w galluogi i barhau yn eu rolau gofalu. Yn ystod 2015/16, penodwyd Swyddogion Cymorth i Ofalwyr ychwanegol yn llwyddiannus ac, ar hyn o bryd,

mae gan bob tîm rheoli gofal adnoddau penodedig y gallent eu defnyddio i gefnogi eu grŵp cleientiaid.

30. Cafwyd perfformiad o 100% eto o ran y gofalwyr ifanc sy'n hysbys i'r Cyngor a aseswyd ac sy'n derbyn gwasanaeth. Defnyddiwyd cyllid gan y Gwasanaethau Gofalwyr a Theuluoedd yn Gyntaf i ddarparu Prosiect Gofalwyr Ifanc y Fro sy'n cynnig cyfleoedd iddynt i gymryd egwyl o'u rolau gofalu ac i gwrdd â phobl ifainc eraill sydd mewn sefyllfaoedd tebyg. Yn ystod 2015-16, defnyddiodd 50 o ofalwyr ifanc y prosiect a derbyniodd 15 ohonynt gefnogaeth un-i-un yn eu cartrefi. Roedd yr adborth yn bositif gan bawb.

Achos Enghreifftiol: Y Prosiect Gofalwyr Ifanc

Mae M wedi bod yn derbyn cymorth un-i-un gan Brosiect Gofalwyr Ifanc y Fro unwaith yr wythnos yn yr ysgol. Mae gan ei fam anhwylder personoliaeth ac mae hi'n cael trafferthion gyda chamddefnyddio sylweddau. Mae angen cefnogaeth emosiynol arno oherwydd mae ei anawsterau wrth geisio delio gyda'i fywyd gartref a'i rôl fel gofalwr ifanc yn golygu ei fod yn amharod i ymgysylltu â'r bobl hynny a allai ei helpu. Mae M yn ei chael hi'n anodd symud ymlaen o brofiadau negyddol yn y gorffennol sy'n dal i beri gofid iddo.

Penderfynodd y Gweithiwr Prosiect Gofalwyr Ifanc lunio map 'taith bywyd' i fapio'r holl brofiadau ac atgofion negyddol a phositif a gafodd M yn ei fywyd a'u gosod ar hyd ffordd i ddangos sut maen nhw wedi digwydd. Cafodd y rhain eu defnyddio ar ddechrau pob sesiwn i drafod unrhyw brofiadau newydd yr oedd M eisiau eu hychwanegu. Mae hyn wedi ei alluogi i sylweddoli bod rhai o'r profiadau negyddol wedi eu cyfyngu i'r gorffennol. Mae'r ysgol wedi gweld gwelliannau yn ei ymddygiad ac mae'n edrych i'r dyfodol mewn ffordd fwy positif. Mae gwelliant amlwg yn natblygiad emosiynol M. Erbyn hyn mae'n dod allan ar weithgareddau seibiant y grŵp ac yn gallu mwynhau cwmni gofalwyr ifainc eraill.

Beth yw'r prif sialensiau erbyn hyn?

- Defnyddio ffyrdd newydd o weithio sy'n cyfateb â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd, gyda ffocws arbennig ar y ffyrddiau gwaith hyn sy'n derbyn blaenoriaeth:
 - Darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth (IAA)
 - Rhoi mwy o ffocws ar ganlyniadau pan fyddwn yn asesu angen a chymhwysedd a gwneud cynlluniau i gyfateb anghenion gyda gwasanaethau
 - Cynllunio a hybu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar.
- Cynnal a gwella lefelau perfformiad a darpariaeth y gwasanaethau gan reoli disgwyliadau'r cwsmer mewn cyd-destun o ostyngiad mewn adnoddau.
- Cynnal digon o gapasiti ymysg staff gweithredol i sicrhau bod asesiadau a chynlluniau gofal yn cael eu cwblhau'n brydlon.
- Ateb y gofynion cyfreithiol sylweddol newydd gyda chapasiti sy'n gostwng y gofyniad i wneud rhagor o arbedion cyllidebol.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2016-2017?

Byddwn yn:

- Datblygu'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) drwy:
 - gyfnerthu ein gwaith o roi'r porth gwybodaeth DEWIS Cymru yn ei le er mwyn sicrhau bod ganddo'r holl gynnwys ar gyfer y rhanbarth yma, yn enwedig yr wybodaeth yn ymwneud â gwasanaethau ataliol i oedolion a phlant;
 - adolygu ac addasu prosesau yn y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid i gefnogi darpariaeth cyngor a chymorth;
 - cydlynu agweddau o'r gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar wasanaethau plant a phobl ifanc (gan gynnwys Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a Llinell Gyngori Teuluoedd yn Gyntaf);
 - gweithio tuag at well integreiddiad y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor i bobl gydag Awtistiaeth gyda gwaith y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.
- sicrhau bod nifer ddigonol o staff wedi eu hyfforddi'n briodol er mwyn darparu'r agweddau hynny o'r Ddeddf sy'n delio gyda gwella'r ffyrdd y mae pobl yn gallu gofyn am gymorth a derbyn cymorth mewn ffordd amserol.
- gwneud newidiadau i'n fframwaith ar gyfer asesu a chynllunio mewn achosion unigol (gan gynnwys prosesau, arferion a rheoli achosion y seilwaith TG) i sicrhau cydymffurfiaid â gofynion y Ddeddf ac i ganolbwyntio fwy ar ganlyniadau a chyfateb anghenion a gwasanaethau.
- datblygu'r Un Pwynt Mynediad ar gyfer y gwasanaeth iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol ardal integredig drwy wneud gwelliannau i'r seilwaith technegol a chysylltu gydag ystod gynyddol o swyddogaethau (megis Gwasanaeth Asesu Gofal yr Henoed Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (ECAS), ysbytai diwrnod a Gwasanaeth Rhyddhau Integredig Caerdydd a'r Fro).
- gwella'r gefnogaeth i bobl hŷn a bregus drwy gydlynu gofal yn well rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai a'r trydydd sector a'r sector annibynnol drwy'r system gyfan a chryfhau gwydnwch y system gyfan (yn cynnwys gofal heb ei drefnu).
- datblygu ymhellach fodelau o wasanaeth sy'n pwysleisio gwella mynediad i wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, gan gynnwys mabwysiadu arferion comisiynu sy'n hybu gwydnwch cymunedol.
- datblygu Tîm Adolygu Gofal Tymor Hir i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn adolygiad blynyddol a chyswllt a enwir ar gyfer datrys unrhyw broblemau'n gyflym.

3b) Darparu Gwasanaethau

Canlyniad y Gwasanaeth 2: Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol ym Mro Morgannwg yn adolygu, cynllunio, dylunio a datblygu gwasanaethau o safon sy'n darparu'r gwerth gorau am arian i wella'r canlyniadau i unigolion

Amcan y gwasanaeth fel y mae wedi ei nodi yn ein Cynllun Gwasanaethau Cymdeithasol 2015-2019:

- Bod â phrosesau rheoli rhaglen a chynllunio clir ar waith, sydd wedi eu pennu mewn strategaethau comisiynu a chynlluniau comisiynu blynyddol, a helpu i sicrhau ystod briodol o wasanaethau sy'n darparu mynediad cyfartal, gwasanaethau cydgysylltiedig a gwerth gorau gan amrywiaeth o ddarparwyr gyda chyllidebau cymesur a diffiniedig sydd wedi eu cyfeirio tuag at gwrdd â blaenoriaethau'r gwasanaeth.*

Beth oedd ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2015-2016?	Beth wnaethom ni yn 2015-2016 i gyflawni'r blaenoriaethau yma?
Darparu camau gweithredu a bennwyd yn y cynllun rhanbarthol i weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	Datblygwyd naw o ffrydiau gwaith i weithredu'r camau gweithredu a nodwyd yn y cynllun gweithredu rhanbarthol. Pennwyd uwch swyddogion o Gaerdydd a Bro Morgannwg i arwain y ffrydiau gwaith a sefydlwyd Grŵp Llywio Rhanbarthol i oruchwylio'r rhaglen. Roedd adroddiadau diweddarau rheolaidd yn dangos y cynnydd sylweddol a wnaed.
Integreiddio'r gwasanaethau ar garlam, yn enwedig gyda'r GIG ac ym maes gwasanaethau pobl hŷn, er mwyn cael gwell canlyniadau i ofalwyr a'r defnyddwyr gwasanaeth	Mae Rhaglen Integreiddio'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei lle i gynyddu graddfa a chyflymder y gwaith o uno gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled rhanbarth Caerdydd a'r Fro. Cafwyd adolygiad annibynnol o'r trefniadau integreiddio presennol ar draws y rhanbarth. Bydd yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu defnyddio i gynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer rhagor o ddatblygiadau arwyddocaol ym mhatrwm y gwasanaethau integredig.
Ystyried yn llawn oblygiadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel y maent yn berthnasol i blant sy'n derbyn gofal a dangos ein gallu i ymateb i'r newidiadau yma	Rydym wedi gweithio ochr yn ochr â phartneriaid statudol a thrydydd sector i baratoi ar gyfer yr heriau a wynebwn wrth sicrhau bod modd cwrdd â'r gofynion newydd ac rydym wedi ystyried goblygiadau'r rheoliadau a'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu ac wedi gwneud newidiadau sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau canlyniadau da i blant sy'n derbyn gofal yng nghyd-destun lleoliadau sefydlog, cynaliadwy ac uchel eu hansawdd. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi parhau'n sefydlog (193 ar

	Fawrth 31ain 2016) a dim ond tri o blant gafodd eu lleoli y tu allan i Gymru.
Cydlynu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar i deuluoedd sydd â'r angen mwyaf yn cynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Gwasanaethau Cymorth Dwys i Deuluoedd	Mae'r ffocws ar ataliaeth ac ymyrraeth gynharach yn rhan allweddol o ymdrechion y Cyngor a'i bartneriaid i newid y ffordd y mae gwasanaethau'n ateb yr angen yn unol â disgwyliadau'r Ddeddf. Gan weithio gyda'r dair bartneriaeth, mae'r Grŵp Aliniad Tlodi wedi helpu i secondio staff Cymunedau yn Gyntaf i helpu i ddarparu'r un modelau cymorth i deuluoedd â Theuluoedd yn Gyntaf. Mae Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf wedi ariannu swydd Gweithiwr Cymdeithasol Llesiant ac Iechyd ar y cyd. Mae'r model gweithio yma, sy'n uno'r tair prif raglen grant sy'n ymwneud â thlodi a'u harloesi ym Mro Morgannwg yn cael ei hybu yn awr ar lefel genedlaethol.
Cwblhau'r adolygiad o'r Strategaeth Comisiynu Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc 2013-2018	Rydym wedi adolygu'r Strategaeth Comisiynu i sicrhau ei bod yn parhau i ddarparu ffocws priodol ar anghenion y plant a'u teuluoedd ac yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau i gwrdd â'r anghenion hynny. Mae'r Strategaeth yn cael ei datblygu fel Strategaeth Gorfforaethol, gan ymgysylltu â holl gyfarwyddiaethau'r Cyngor.
Cyfrannu at weithredu'r Rhaglen Integreiddio Bwrdd Lleol Diogelu Plant fel y mae'n ymwneud â'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt mewn perthynas â phlant gydag anableddau, darpariaeth CAMHS a modelau mynediad i'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.	Rydym wedi bod yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu cynigion wedi'u costio ar gyfer ystod eang o ddiwygiadau i'r gwasanaeth, sydd i gael eu gwneud ar sail ranbarthol. Mae'r rhain yn cynnwys: gwell trefniadau pontio; gwasanaeth anghenion cymhleth integredig i blant a phobl ifanc; gwasanaeth cydlyniad a chefnogaeth i bobl ifanc sydd â chyflyrau niwroddatblygiadol. Mae'r bartneriaeth yn bwriadu sefydlu ffyrdd o ariannu'r cynigion yma. Mae newidiadau mawrion ar waith i'r gwasanaethau i blant sydd ag anghenion iechyd meddwl ac emosiynol.
Adolygu'r defnydd o ariannu Teuluoedd yn Gyntaf, yng nghyd-destun gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), i sicrhau bod ein blaenoriaethau'n cael eu targedu'n briodol a bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol i deuluoedd.	Rydym wedi adolygu'r defnydd a wneir o arian Teuluoedd yn Gyntaf, yn cynnwys yr angen i ymateb i ostyngiad o 12% yng nghyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17. Mae nifer o newidiadau wedi cael eu cyflwyno o ganlyniad i hyn, gan gynnwys lansio Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf i gynnig gwybodaeth, cefnogaeth a chynghor cyn cyfeirio pobl broffesiynol a theuluoedd at y gwasanaethau sydd ar gael neu gadarnhau'r angen am asesiad.
Gweithio gyda'n partneriaid statudol i adolygu'r gefnogaeth TGCh sy'n ofynnol a chynllunio	Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid statudol yn y rhanbarth i ddechrau'r gwaith sydd ei angen ar gyfer mabwysiadu'r system newydd, System

<p>ar gyfer gweithredu'r system newydd i Gymru Gyfan</p>	<p>Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Mae'n cael ei lunio i ganiatáu rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol Fyrddau Iechyd a'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol ar unwaith. Bydd y system newydd yn galluogi'r gwasanaethau cymdeithasol (oedolion a phlant) ac ystod o wasanaethau iechyd cymunedol (gan gynnwys iechyd meddwl, therapi a nyrsio cymunedol) i gynllunio, cydlynu a darparu'n fwy effeithiol wasanaethau a chefnogaeth i unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae'r system Cyfarwyddwr Gofal yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Mae cynlluniau ar y gweill i'w gweithredu yn rhanbarth Caerdydd a'r Fro ym mis Hydref 2017 ac mae gwaith paratoi'n digwydd ar hyn o bryd.</p>
<p>Adolygu ein trefniadau comisiynu ar gyfer gofal cartref er mwyn sicrhau gwerth am arian a darpariaeth gwasanaethau o ansawdd</p>	<p>Ataliwyd y gwaith yma am gyfnod yn ystod y flwyddyn oherwydd bod angen ymateb ar frys i'r effaith debygol ar lefelau ffioedd gan y newidiadau polisi mewn meysydd megis y Cyflog Byw Cenedlaethol. Bydd y gwaith yma'n ailgychwyn yn y flwyddyn ariannol nesaf ac mae'r angen wedi mynd yn fwy brys gyda'r dystiolaeth bod y sector masnachol yn cael trafferth ateb y galw cynyddol am wasanaethau gofal cartref a newid yn y disgwyliadau am y math o ofal sydd ei angen.</p>
<p>Parhau i weithio gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru i ddatblygu gwasanaethau llety i bobl hŷn.</p>	<p>Cafwyd gweithdy pellach ym mis Ionawr 2016. Mae newidiadau yn y sector tai sy'n gysylltiedig â'r Diwygiadau Lles wedi ei gwneud hi'n anoddach i sefydliadau trydydd sector a mentrau cymdeithasol ymrwymo i gynigion penodol. Mae Bro Morgannwg yn parhau i ymgysylltu gyda phartneriaid posibl ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Bydd y cam gweithredu yma wedi ei gynnwys ym mlaenoriaethau gwella'r flwyddyn nesaf.</p>

Pa effaith gafodd hyn?

Plant

31. Mae ein ffocws yn 2015/16 wedi bod ar sicrhau ein bod yn parhau i gwrdd â'r galw cynyddol am wasanaethau plant a theuluoedd drwy gynnig ystod o wasanaethau sy'n darparu cymorth a chefnogaeth effeithiol i'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd bregus hynny a aseswyd fel rhai "mewn angen".
32. Er ein bod yn parhau i gwrdd â'r amcanion strategol allweddol sydd wedi eu nodi yn Strategaeth Comisiynu Plant a Phobl Ifanc 2013-18, rydym wedi cychwyn adolygiad o'r Strategaeth gyda'r bwriad o weithredu strategaeth gorfforaethol drwy'r Cyngor cyfan yn 2016/7. Ymysg y newidiadau arwyddocaol eraill y llynedd

roedd:

- agor ein hail ddarpariaeth breswyl wedi'i chomisiynu ym Mro Morgannwg
- gweithredu fel prif awdurdod ar gyfer gweithredu'r Rhaglen Fabwysiadu Ranbarthol Gydweithredol
- gostwng ymhellach y nifer o blant a roddwyd mewn gofal preswyl
- cynyddu'r nifer o blant sy'n cael eu lleoli gyda'u teulu ehangach drwy leoliadau gyda pherthnasau.

33. Mae tystiolaeth sylweddol i ddangos bod anghenion plant sy'n derbyn gofal yn cael eu hateb. Yn hollol wahanol i nifer o awdurdodau lleol eraill, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi parhau'n weddol sefydlog dros y flwyddyn: 184 ar ddiwedd mis Mawrth 2014 a 193 erbyn diwedd Mawrth 2015. Mae hyn yn cynnwys plant sy'n atebol i Orchmynion Llys ond a roddwyd naill ai gyda'u rhieni neu o fewn eu teulu ehangach drwy leoliadau gyda pherthnasau.
34. Rydym wedi bod yn llwyddiannus yn ein hymdrechion i ddychwelyd i leoliadau yng Nghymru blant a leolwyd y tu allan i'r ardal. Ym mis Mawrth 2016, o'r 153 o blant a osodwyd mewn gofal maethu neu ofal preswyl, dim ond tri oedd mewn lleoliadau (arbenigol iawn) y tu allan i Gymru. Mae ein strategaeth recriwtio ar gyfer cynyddu nifer gofalcwyr maethu'r awdurdod lleol wedi parhau i ddarparu yn erbyn y targedau a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Dros gyfnod o ddwy flynedd, mae'r gwasanaeth wedi penodi 15 o ofalcwyr maethu ychwanegol. Dylai hyn helpu i ostwng ein dibyniaeth ar asiantaethau maethu annibynnol a hybu ein gallu i leoli'n lleol. Hefyd, rydym yn rhoi cynnig ar swyddogaeth therapiwtig o fewn y Gwasanaeth Maethu, i hybu sefydlogrwydd lleoliadau.
35. Mae'r Strategaeth Comisiynu i'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc 2013-2018 yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cwrdd ag anghenion gofal cymdeithasol a llesiant plant, pobl ifanc a'u teuluoedd o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Cafodd ei adolygu'n ddiweddar ac mae'n cynnwys dadansoddiad o'r angen am wasanaethau. Mae'r strategaeth yn disgrifio'r model haenau o wasanaethau sydd ar waith i reoli sut mae'r adnoddau'n cael eu dyrannu ac i helpu i wneud penderfyniadau mewn achosion unigol. Mae'r model haenau wedi ei atgyfnerthu yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sy'n amcannu i hybu darpariaeth y gwasanaethau cywir ar yr amser cywir, gan weithio mewn partneriaeth â theuluoedd i'w helpu i gyflawni'r hyn sydd o'r pwys mwyaf iddynt.
36. Mae'r gwaith i weithredu'r model yn y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ac mewn partneriaeth â'r cyfarwyddiaethau eraill ar draws y Cyngor, y GIG, y trydydd sector a'r sector annibynnol wedi cynhyrchu canlyniadau arwyddocaol. Trwy sicrhau ffocws ar ymyrraeth a gweithredu ataliol cynnar ar draws yr holl ddarpariaeth gwasanaethau i blant, rydym wedi gallu cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd ac i ostwng yr angen i blant dderbyn gofal y tu allan i'w teuluoedd. Mae hyn wedi ein helpu i reoli'r galw am ofal a chymorth ar y dwysedd neu ymyrraeth lefel is.
37. Adolygwyd y defnydd a wneir o'r Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf yng nghyd-destun y Ddeddf newydd a grant is gan Lywodraeth Cymru. Yn ganolog i hyn oedd ein gallu i sicrhau gwerth gorau ac amddiffyn darpariaeth rheng flaen. Mae'r rhaglen yn parhau i ddarparu deg prosiect sydd wedi profi eu heffeithiolrwydd. Cafwyd cynnydd yn y nifer o deuluoedd a elwodd (270%) ac yn y nifer o blant a phobl ifanc a gafodd fudd hefyd (500%). Mae'r niferoedd sy'n defnyddio'r cynlluniau yn gyffredinol yn dangos cynnydd.

38. Mae'r elfennau allweddol yn y sbectrwm cyffredinol o wasanaethau'n cynnwys:
- **Y Tîm Teuluoedd yn Cyflawni Newidiadau Ynghyd (FACT)** sy'n chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gefnogi plant a phobl ifanc i barhau i fyw gyda'u rhwydweithiau teuluoedd gan leihau'r angen am ymyrraeth fwy costus ac ymwithiol. Derbyniwyd 258 o atgyfeiriadau ar draws Bro Morgannwg yn 2015/6 gan arwain at 82 o asesiadau, cafodd 92 o deuluoedd eu cyfeirio at wasanaethau eraill a daeth y prosiect i ben yn llwyddiannus gyda 64 o deuluoedd.
 - **Y Rhaglen Dechrau'n Deg** sy'n amcannu i ganfod yr angen ac ymyrryd yn gynnar drwy dîm amlddisgyblaethol sy'n ymdrin â phroblemau sy'n cael effaith negyddol ar iechyd a lles teuluoedd. Yn 2015/16 roedd y ddarpariaeth yn cynnwys: 278 o becynnau o well Cymorth i Rien; 312 o becynnau Cefnogaeth Chwarae/Iaith Gynnar; 280 o leoedd gofal plant a ddarperir i blant 2-3 oed; ac oddeutu 15 o gyfleoedd wythnosol i deuluoedd fynd i grwpiau, clinigau a sesiynau chwarae mynediad agored.
39. Cafodd Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf ei lansio ym mis Gorffennaf 2015, ac mae'n cymryd ceisiadau cyntaf am atgyfeiriadau i FACT ac hefyd yn cynnig gwybodaeth, cefnogaeth a chynghor – gan atgyfeirio pobl broffesiynol a theuluoedd at wasanaethau sydd ar gael neu'n cadarnhau'r angen am asesiad gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r defnydd a wneir o'r Llinell Gyngor wedi bod yn tyfu'n raddol ac mae 114 o alwadau wedi derbyn ymateb. Mae trafodaethau ar waith am sefyllfa'r Llinell Gyngori yn y dyfodol, sy'n archwilio'r cysylltiadau rhwng y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) sy'n datblygu sy'n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
40. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (YOS) wedi darparu ystod o weithgareddau a bennwyd yn ei Gynllun Gweithredu Gostwng Aildroseddu. Cafwyd gostyngiad yng nghyfradd ddeuaidd ac amledd yr aildroseddu. Mae'r mwyafrif o'r camau gweithredu a bennwyd yn y Cynllun Gweithredu Gwarchodaeth wedi eu gweithredu hefyd. O ganlyniad, gwelodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ostyngiad yn y defnydd o warchodaeth, o 0.49 ymhob 1000 o bobl ifanc 10-17 oed i 0.25.

Achosion Enghreifftiol

1) Hanesion Digidol – Stori Claire a Malachi

Roedd Claire a'i mab, Malachi'n ofnus ac yn bryderus ynglŷn â'u sefyllfa gartref. Doedd yr un ohonynt eisiau estyn allan am gefnogaeth am fod y ddau'n teimlo bod stigma yn gysylltiedig â hynny. Fodd bynnag, aeth Claire at ei meddyg teulu a chafodd ei hatgyfeirio i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Golygodd hynny bod modd i Claire a Malachi ddefnyddio'r gwasanaeth FACT (Teuluoedd yn Cyflawni Newid Ynghyd). Roedd modd iddynt ddefnyddio ystod o wasanaethau oedd yn eu helpu i adnabod y cryfderau oedd ganddynt fel teulu a sut i ddefnyddio'r gefnogaeth sydd ar gael. Aeth Claire ar gwrs rhianta a chafodd hwnnw'n fuddiol iawn a defnyddiodd Malachi'r rhaglen 'Emojis' a redir gan Wasanaeth Ieuenctid Bro Morgannwg. Mae'r cyrsiau hyn, law yn llaw â chymorth ymarferol a dyfeisio strategaethau i'w helpu i ymdopi, wedi galluogi'r fam a'i mab i ddatblygu bondiau cryfach ac i deimlo rhyddhad eu bod wedi estyn allan am gefnogaeth.

I weld y fideo yma, cliciwch isod

<https://www.youtube.com/watch?v=pJlrac93gz8&feature=youtu.be>

2) Hanesion Digidol - Stori Romeo

Aeth Romeo yn sâl gyda chyflwr prin iawn a barodd iddo gael llawdriniaeth a newidiodd ei fywyd, yn cynnwys colli ei ddwy goes. I alluogi Romeo i barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'i deulu a'i gyfeillion, mae ein gwasanaeth therapi galwedigaethol wedi ei gefnogi gydag offer ac addasiadau i'r cartref.

I weld y fideo yma, cliciwch isod

https://www.youtube.com/watch?v=OLnX_RTbyDc&feature=youtu.be

3) Hanesion Digidol –Dechrau'n Deg

Mae rhiant ifanc, A, yn byw gyda'i dau o blant a'i phartner ac mae hi'n gweithio'n rhan amser. Yn ystod ymweliad cyflwyniadol, gwelodd y gweithiwr rhianta bod A yn cael trafferth rheoli ymddygiad ei mab dwyflwydd. Roedd y bachgen yn dangos problemau ymddygiad sy'n nodweddiadol o blentyn o'i oed a'i gam datblygu, gan gynnwys colli ei dymer a chipio pethau. Rhannodd A deimladau anodd gan ddweud ei bod yn teimlo ei bod yn fethiant fel mam a bod ganddi ofn bod hyn yn effeithio ar ei pherthynas gyda'i phartner a'i theimladau tuag at ei mab. Er ei bod yn awyddus i fynd ar y rhaglen fagu, roedd A yn amau y gallai unrhyw beth newid ond aeth i bob un o'r deg rhaglen fagu wythnosol. Gyda'i phartner, rhoddodd gynnig ar bob un o'r tasgau ymarfer y teulu. Cymerodd A y rhaglen at ei chalon a defnyddio pob gallu oedd ganddi i weithredu'r syniadau newydd. Heddiw, mae'r rhieni'n fwy hyderus ac yn gweithio fel tîm. Gan ddefnyddio'r strategaethau newydd, mae hi wedi bod yn bosibl iddynt reoli ymddygiad eu plant mewn ffordd dawel a phositif.

Oedolion

41. Yn y Gwasanaethau Oedolion, mae strwythur rheoli, y gwasanaeth a'r staffio ar gyfer yr ardal wedi cael eu hailstrwythuro'n fawr, gan greu rhagor o rolau rheoli sy'n gweithredu ar draws y ffiniau iechyd a gofal cymdeithasol traddodiadol. Mae hyn wedi galluogi i ni greu dull hollol unedig lle darparwn wasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol oedolion i bobl hŷn. Mae ataliad, ymyrraeth gynnar, ailalluogi, gofal tymor hir a chanolig oll yn cael eu trin yn rhan o system unigol, gydlynol wedi ei seilio yn y gymuned. Mae'r gwasanaethau gofal cymunedol yn gweithredu erbyn hyn gyda thîm derbyn integredig a thîm gofal tymor hwy.
42. Mae'r cynnydd yn y galw am wasanaethau wedi parhau yn ystod 2015/16. Rydym yn disgwyl i'r duedd yma o gynnydd barhau, er na wyddys eto beth fydd effaith y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'r nifer o bobl a gefnogwyd i fyw gartref wedi cynyddu ers y llynedd (o 1665 i 1692). Hefyd, mae maint y pecynnau gofal unigol wedi cynyddu, gan ddangos ein bod yn cwrdd ag anghenion pobl sydd ag anawsterau mwy cymhleth a lefelau uwch o aciwtedd pan maent yn mynd yn sâl. Mae'r newid yma i gefnogi mwy o bobl i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain i'w weld hefyd yn y gostyngiad yn y nifer o bobl hŷn sy'n byw mewn gofal nyrso a phreswyl (o 392 i 274). Ym Mro Morgannwg, mae'r gyfradd o ofal preswyl

a ddefnyddir yn ôl y pen o'r bobl hŷn yn y boblogaeth yn parhau'n llawer is na chyfartaledd Cymru,

43. Parhaodd ein gwasanaethau i bobl gydag Anabledd Dysgu i gael eu newid yn sylweddol, yn arbennig mewn perthynas â'r Gwasanaethau Dydd. Trwy symud i ffwrdd oddi wrth fodel o ddarpariaeth oedd wedi ei seilio i raddau mawr mewn canolfannau sefydlog, rydym yn ceisio ffyrdd o ddarparu cefnogaeth sydd wedi'i gwreiddio i raddau mawr mewn cwrdd ag anghenion a aseswyd y defnyddwyr gwasanaeth unigol a'u targedau mewn bywyd. Mae hyn wedi cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys mentrau cymdeithasol a chydweithfeydd rhanddeiliaid. Mae prosiectau peilot yn dangos yn barod fuddion y dull hwn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd datblygiad pellach gwasanaethau dydd y Cyngor ei hun, i gefnogi'r rheiny sydd ag anghenion gofal cymdeithasol ac iechyd arbennig o gymhleth, yn parhau i 2016/17.
44. Rydym wedi parhau i wneud gwelliannau yn y gwasanaethau llety gyda chefnogaeth. Mae hyn wedi cynnwys ehangu'r Gwasanaeth Lleoliad Oedolion sy'n cynnig lleoliadau tymor hir a thymor byr i bobl o fewn amgylchedd teuluol cefnogol. Yn ogystal, mae ein darpariaeth gofal seibiant yn cael ei adolygu. Rydym yn bwriadu rhoi model o ddarpariaeth gwasanaethau yn ei le sy'n sicrhau fod pobl sydd â'r anghenion mwyaf heriol a chymhleth yn gallu cael gafael ar y gofal a'r gefnogaeth fwyaf priodol.
45. Mae'r Cyngor wedi gweithio ochr yn ochr â'r Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl i wneud adolygiad cynhwysfawr o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol. Gyda'r GIG, rydym yn edrych ar ffyrdd o rannu maint cynyddol o waith mewn ffordd fwy effeithiol. Ein bwriad yw parhau i chwarae rôl allweddol mewn helpu i benderfynu ar strwythur gofal iechyd meddwl oedolion yn y dyfodol ar draws Bro Morgannwg a Chaerdydd, gan sicrhau bod ymyraethau gwaith cymdeithasol yn cael eu darparu'n effeithiol. Yn y deuddeg mis nesaf byddwn yn penderfynu'n derfynol ar fanylion y model newydd.
46. Mae newidiadau sylweddol yn strwythur a gweithrediad y Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol wedi dod yn weithredol yn ystod 2015/16. Mae newid y cydbwysedd rhwng y sector statudol a'r ddarpariaeth drydydd sector wedi arwain at agwedd sy'n canolbwyntio fwy ar adferiad wrth gefnogi pobl sydd â phroblemau gyda chamddefnyddio sylweddau.
47. Gan gymryd gwersi o Strategaeth Cyfleoedd y Diwrnod Anableddau Dysgu, mae New Horizons yn datblygu ystod ehangach o weithgareddau y gall pobl gydag Anabledd Corfforol neu Nam ar y Synhwyrâu eu defnyddio'n sesiynol. Bydd y dull yma'n cael ei ddatblygu ymhellach yn 2016/17.

Achosion Enghreifftiol

1) Cydgynhyrchiad ar waith

Mae Mrs G yn fenyw 58 oed sy'n dioddef o sgoliosis, sef cyflwr ar yr asgwrn cefn sy'n mynd yn waeth gydag oedran. Er ei bod wedi cael nifer o lawdriniaethau, mae ei chyflwr wedi dirywio'n gyflym dros y blynyddoedd diwethaf gan arwain at iselder, colli hunan-hyder a hunan barch isel. Mae Mrs G yn derbyn cymorth sylweddol o amrywiol ffynonellau, gan gynnwys Staff y GIG (Meddygon Ymgynghorol, Nyrsys,

Therapyddion Galwedigaethol a Ffisiotherapyddion), y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Brocer Trydydd Sector a Gwasanaeth Cymorth Cymunedol y Groes Goch Brydeinig. Fodd bynnag, roedd hi'n dechrau teimlo bod maint a chwmpas y rhaglen gymorth yn ormod iddi ymdopi ag o.

Yn ystod nifer o ymweliadau, cymerodd gweithiwr cymorth y Groes Goch Brydeinig amser i esbonio i Mrs G amrywiol rolau bob gweithiwr, yn ogystal â llunio diagram i'w helpu hi i ddeall y darlun cyfan. Cafodd Mrs G bod hyn o gymorth a rhyddhad mawr iddi. Yn ogystal, gweithiodd y Groes Goch Brydeinig gyda Mrs G i sicrhau ei bod yn derbyn y budd-daliadau cywir i'w helpu i gael Bathodyn Glas a fydd yn ei helpu gyda'i phroblemau symudedd ac i roi cefnogaeth emosïynol iddi yn ystod argyfwng iechyd.

Mae hon yn esiampl dda o gyd-gynhyrchu lle mae pob asiantaeth yn gweithio o fewn eu ffiniau proffesiynol ond mewn ffordd gydlynol ac yn un sy'n cael ei drafod gyda'r defnyddiwr gwasanaeth. Mae hefyd yn dangos sut y gall sefydliad trydydd sector ychwanegu elfen ychwanegol....a'r cwbl yw'r elfen honno weithiau ydyw amser!

Beth yw'r prif sialensiau yn awr?

- Gweithredu gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yng nghyd-destun gostwng cyllidebau.
- Cadw cyflymder a graddfa'r newidiadau i'r gwasanaeth sy'n ofynnol, gan barhau ar yr un pryd i bennu a gwneud arbedion ariannol.
- Parhau i gwrdd â'r galw cynyddol ar draws yr holl grwpiau gwasanaethau.
- Gwneud defnydd o agenda "Ailsiapio Gwasanaethau" y Cyngor i gefnogi ein hymdrechion sydd wedi eu cyfeirio at gyflwyno ffyrdd newydd o ddarparu gofal a chefnogaeth.
- Archwilio ffyrdd o ostwng yn ddiogel y nifer o blant sy'n derbyn gofal.
- Rheoli gyda llai o gapasiti a gallu i gwrdd ag anghenion ein cleientiaid mwyaf agored i niwed o ystyried y gallai'r gweithlu leihau mewn rhai meysydd gan olygu y bydd profiad a gwybodaeth yn cael ei golli.
- Pennu beth fydd y canlyniadau i TG ac AD o integreiddio mwy o wasanaethau ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol ac ymdrin â hwy.
- Addasu'r ffordd y mae rhai agweddau o'r gwasanaethau (megis maethu, eiriolaeth, lleoliadau gofal preswyl oedolion ac awtistiaeth) yn cael eu darparu'n gynyddol ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal ag o fewn ardaloedd awdurdod lleol.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2016 - 2017?

Byddwn yn:

- Gwneud Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i'n helpu i ganfod yr ystod o wasanaethau ataliol a llesiant sydd ar gael ac i weld a ydynt yn diwallu anghenion y bobl sydd angen gofal a chefnogaeth, gan bennu unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.
- Parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau cymorth y teulu ac ailalluogi, i hybu annibyniaeth.
- Gyda'n partneriaid lleol a rhanbarthol, darparu'r rhaglen o ddiwygio gwasanaethau sy'n cael ei rheoli o dan y Gronfa Gofal Canolradd.
- Adolygu'r llety gydag opsiynau gofal i bobl hŷn ac ailgynllunio ein Strategaeth Comisiynu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd y Brifysgol a Thai

- Parhau i gynyddu'r ddarpariaeth daliadau uniongyrchol.
- Datblygu gwasanaethau a fydd yn ein galluogi i ostwng yn ddiogel y nifer o Blant sy'n derbyn Gofal.
- Gweithredu Strategaeth Gorfforaethol i blant sydd angen gofal a chefnogaeth, gan gynnwys gwaith i sicrhau'r cyfleoedd gorau i weithio ar y cyd rhwng gwasanaethau a ddarperir gan y rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymorth Dwys i Deuluoedd a Chymunedau yn Gyntaf.
- Pennu ffyrdd o gomisiynu'n fwy effeithiol wasanaethau lle mae pryderon am ansawdd y gofal neu gynaliadwyedd yn enwedig darpariaeth seibiant a gofal cartref.

3c) Canlyniadau

Canlyniad y Gwasanaeth 3: Mae Cyngor Bro Morgannwg yn amddiffyn pobl fregus ac yn hybu eu hannibyniaeth a'u cynhwysiad cymdeithasol.

Amcanion y gwasanaeth fel y maent wedi eu nodi yn y Cynllun Gwasanaethau Cymdeithasol 2015-2019:

- *Trwy waith y Cyngor mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill, sicrhau bod pobl yn derbyn cymorth i gyflawni eu canlyniad gorau posibl a bod pobl sydd dan risg arbennig yn cael hwb i'w llesiant ac yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac ecsbloetiaeth.*

Beth oedd ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2015-2016?	Beth wnaethom ni yn 2015-2016 i gyflawni'r blaenoriaethau yma?
Ymateb mewn ffordd amserol i ofynion cynyddol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) fel y maent yn berthnasol i blant ac oedolion, gan sicrhau bod ein cyfrifoldebau i bobl fregus ym Mro Morgannwg yn cael eu blaenoriaethu.	Rydym wedi sefydlu Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion rhanbarthol yn barod, sydd wedi'u cadeirio gan Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda chynrychiolaeth gan ystod o asiantaethau statudol, yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Iechyd, Profiannaeth, yr Heddlu a'r Trydydd Sector. Mae aelodau'r Bwrdd yn hollol ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn y rôl newydd yma. Mae'r gwaith o friffio swyddogion pwynt cyswllt cyntaf ar faterion diogelu allweddol yn broses barhaus fel nad oes unrhyw oedi mewn ymateb i unrhyw bryderon wrth i ni ddechrau gweithredu o dan y Ddeddf.
Archwilio gydag asiantaethau partner ffyrdd o gynyddu'r adnoddau sydd ar gael i'r byrddau diogelu rhanbarthol i blant ac oedolion.	Mae gwaith wedi parhau ar ddatblygu byrddau diogelu rhanbarthol i blant ac oedolion. Cynigiwyd cael Uned Cymorth Busnes ar y cyd. Ar yr amod bod yr holl bartneriaid yn cytuno ar y fformiwlâu cyllido a'r cynllun gweithio at y dyfodol, bydd yr Uned yn weithredol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
Penderfynu'n derfynol ar y	Mae'r Ddeddf yn cyflwyno gorchmynion diogelu a

<p>strwythur diwygiedig ar gyfer sicrhau bod pryderon am oedolion bregus yn derbyn sylw mewn ffordd amserol a phriodol, a gweithredu'r strwythur honno.</p>	<p>chefnogi oedolion (APSOs). Rhaid defnyddio'r rhain mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Mae staff allweddol yn cael eu hyfforddi i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r holl gyfrifoldebau newydd mewn perthynas ag oedolion bregus sydd dan risg.</p>
<p>Gweithio gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill i wella ein ymwybyddiaeth o gyfraddau camdrin plant drwy ddatblygu data gwaelodlin a fydd yn hysbysu strategaeth ar gyfer ymyrraeth gynnar ac hefyd yn ymdrin yn effeithiol gydag achosion lle drwgdybir achosion niferus o gamdriniaeth.</p>	<p>Rydym wedi dechrau casglu data mwy cadarn mewn perthynas â phlant y mae pryderon amdanynt sy'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, i hysbysu asesiad a darpariaeth y gwasanaethau. Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant wedi bod, ac yn parhau i fod, yn faes sy'n derbyn blaenoriaeth allweddol i Fwrdd Lleol Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro. Cwblhawyd strategaeth newydd i helpu i atgyfnerthu arferion gorau sy'n ymddangos. Mae'r heddlu wedi datblygu cronfa ddata soffistigedig i helpu asiantaethau gasglu gwybodaeth am droseddwy'r a dioddefwyr potensial. Rydym yn cymryd rhan mewn cynllun peilot i gasglu data am achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru a'r ymatebion a geir.</p>
<p>Arwain ar ddatblygu polisi diogelu corfforaethol i'r Cyngor.</p>	<p>Mae polisi a gweithdrefn diogelu corfforaethol wedi cael eu datblygu, eu dilysu a'u lansio i helpu'r staff i gyd gyda'u cyfrifoldebau i ddiogelu a hybu llesiant pobl fregus. Mae'r polisi wedi ei lansio ac mae copi ar StaffNet, ochr yn ochr â chanllawiau i gefnogi staff. Mae Aelodau Etholedig wedi derbyn hyfforddiant.</p>
<p>Ystyried argymhellion terfynol yr adolygiad strategol o wasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd, a datblygu cynllun gweithredu ar y cyd gyda'n partneriaid strategol, yn enwedig ym maes pontio i'r gwasanaethau oedolion.</p>	<p>Rydym wedi cwblhau adolygiad estynedig o'r polisi pontio i sicrhau bod plant sy'n symud ymlaen o dderbyn cefnogaeth gan y Tîm Anabledd ac Iechyd Plant yn 18 oed yn cael gwell parhad yn eu cefnogaeth a'u gwasanaethau yn unol â'u hanghenion gan y Gwasanaethau Oedolion.</p>
<p>Datblygu Gwasanaeth Adnoddau Dementia i ofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth</p>	<p>Mae Gwasanaethau Dydd Rondel House wedi derbyn buddsoddiad sylweddol i ddatblygu adnodd arbenigol yn ystod y dydd, i gynnig cyswllt cymdeithasol a gweithgareddau ystyrlon i bobl sydd â dementia. Mae hyn hefyd yn darparu seibiant i deuluoedd a gofalwyr. Mae staff yn derbyn hyfforddiant arbenigol i gefnogi pobl gydag anghenion mwy aciwt.</p>
<p>Sicrhau bod trosglwyddiad y Gronfa Byw'n Annibynnol i Lywodraeth Cymru ac i ddefnyddwyr gwasanaeth ym</p>	<p>Rheolwyd y trosglwyddiad yn esmwyth gyda'r holl ddefnyddwyr yn parhau i dderbyn arian heb oedi. Dychwelwyd gwybodaeth fonitro i Lywodraeth Cymru fel oedd yn ofynnol.</p>

Mro Morgannwg wedi'i hyrwyddo ddiwedd mis Mehefin 2015.	
---	--

Pa effaith gafodd hyn?

Plant

48. Mae amddiffyn plant agored i niwed wrth graidd yr hyn a wnawn yn y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i berfformio ar lefel uchel o ran y penderfyniadau a wna o fewn un diwrnod gwaith, gan gyflawni cyfradd o fwy na 99% ar gyfer y flwyddyn. Pan mae pryderon yn codi bod plentyn neu berson ifanc dan risg posibl o gael eu niweidio neu eu hesgeuluso, mae'r asesiad yn cychwyn ar unwaith. Er bod y nifer o blant ar y Gofrestr Diogelu Plant wedi parhau i amrywio rydym yn gwybod bod asesiadau, penderfyniadau a chynllunio gan asiantaethau niferus yn helpu i sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc mwyaf bregus yn cael eu canfod a'u cefnogi'n briodol. Rydym wedi sicrhau hefyd y cynigir eiriolwr i'r plant sy'n cymryd rhan mewn prosesau amddiffyn plant.
49. Mae'r nifer o blant a phobl ifanc y mae eu henwau wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (CPR) wedi codi i 101 ar Fawrth 31 2016 yn dilyn cynnydd cynaliadwy o 73 yn 2011, 114 yn 2012, 124 yn 2013 a chwymp i 86 yn 2014, yna gynnydd bach i 90 yn 2014. Yn ystod 2015/16 cafwyd 1055 o atgyfeiriadau at y Tîm Derbyn a Chefnogaeth y Teulu, ac o'r rheiny symudodd 229 i drafodaeth strategol, a chynhaliwyd 167 o gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol (o'i gymharu gyda 178 yn ystod 2014/15). Mae ein gwaith mewn asesiad amlasiantaeth, gwneud penderfyniadau a chynllunio'n parhau i sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn cael eu canfod a'u cefnogi'n briodol.
50. Cynhaliwyd cyfran uchel (95%) o gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol ac adolygol o fewn yr amseriadau statudol. Mae cynllun amddiffyn plant gan yr holl blant ar y gofrestr.
51. Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn parhau i fod yn faes allweddol sy'n derbyn blaenoriaeth; mae Bro Morgannwg wedi'i chynrychioli'n dda yn y grwpiau ymarfer a chynllunio cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol. Mae'r rhaglen SERAF yn cael ei defnyddio erbyn hyn yn genedlaethol i ganfod lefelau risg i blant unigol mewn ffordd gyson ac i sicrhau ymateb priodol. Rydym yn cynnal gwaith peilot i ddefnyddio'r cofnodion unigol yma i ddeall graddfa'r achosion o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn yr ardal. Cefnogir y gwaith yma gyda phrosesau rhannu gwybodaeth sylweddol a chynyddol gyda Heddlu De Cymru ac asiantaethau eraill i ganfod ardaloedd penodol lle mae risgiau'n uwch a lle mae unigolion yn achosi risg i blant, fel bod modd atal neu ddiddymu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Adroddir bob gweithgaredd i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant sy'n cydlynu'r gwaith cynyddol a wneir yn y rhanbarth. Rydym wedi cyflwyno system o gyfeirio pryderon lefel is am gamfanteisio'n rhywiol ar blant i'r uned ddiogelu i weld a ddylid cynnal trafodaethau am strategaeth ac rydym yn ymdrin â'r angen am broses gasglu data mwy cadarn am blant a phobl ifanc lle mae camfanteisio'n rhywiol yn bryder. Rydym yn cynnal cyfarfodydd wythnosol gydag asiantaethau perthnasol i rannu gwybodaeth.
52. Mae'r Tîm Anabledd ac Iechyd Plant yn canolbwyntio ar gefnogi cynhwysiad

cymdeithasol a galluogi plant i ddysgu sgiliau a fydd yn gwella eu hannibyniaeth. Dosberthir y daflen newyddion Indecs Anabledd bob chwarter i bob teulu. Mae'n cael ei chynhyrchu i safon uchel iawn ac mae'n orlawn ag erthyglau am ddiwyddiadau, cynlluniau chwarae a chyfleoedd newydd. Mae gwefan sy'n agored i'r cyhoedd yn cynnwys newyddion am yr holl ddatblygiadau diweddaraf mewn gwasanaethau a chefnogaeth. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i rymuso pobl drwy ddarparu gwybodaeth a'u cyfeirio lle bo'n bosib at gymorth sy'n gwella ansawdd eu bywydau ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i fod yn annibynnol.

53. Mae tystiolaeth hefyd o gynnydd yn y galw am gefnogaeth ddwys i blant a phobl ifanc a phlant anabl hŷn. Mae nifer fechan o'r bobl ifanc yma angen cymorth a gofal 24 awr, anghenion na ellir ond eu diwallu mewn sefyllfa breswyl. Mae hyn yn rhoi pwysau tymor hir sylweddol ar adnoddau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol yn y blynyddoedd sy'n dod, am fod cost darpariaeth o'r fath yn uchel iawn (£113,000 y flwyddyn ar gyfartaledd). Ar ddiwedd 2015/16, roedd pump o blant yn y lleoliadau yma, a phedwar o dan ddeg oed ar y pryd sy'n debygol o fod angen y ddarpariaeth yma yn y dyfodol.
54. O ran y plant hynny sy'n derbyn gofal gan y Cyngor, rydym yn canolbwyntio ar hyrwyddo eu lles a'u cyfleoedd mewn bywyd yn rhannol drwy leihau'r nifer o newid lleoliadau y gall plentyn fynd trwyddynt. Er bod ein perfformiad mewn perthynas â phlant sy'n cael tri neu fwy o leoliadau mewn blwyddyn wedi gostwng ychydig, o 7% i 9%, y rheswm yn rhannol am hyn yw'r ymdrechion i ddychwelyd plant i'r ardal leol neu gyda'u teulu ehangach. Mae'r mwyafrif o blant sy'n derbyn gofal ym Mro Morgannwg mewn gofal maethu a ddarperir gan ofalwyr mewnol a gan deulu a ffrindiau (gofalwyr sy'n berthnasau). Dyma'r lleoliadau mwyaf sefydlog yn aml iawn. Wrth ymdrin ag anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal, gwnaethpwyd gwaith sylweddol i wella'r broses Cynllun Addysg Personol (PEP), sy'n edrych ar gyrhaeddiad y plant sy'n derbyn gofal ac yn canfod a oes angen unrhyw gefnogaeth ychwanegol. Mae'r perfformiad yn 2015/16 wedi gwella'n sylweddol, gyda 98% o gynlluniau addysg personol yn cael eu cwblhau o fewn y 20 diwrnod gofynnol.

Achos Enghreifftiol

1) Hanes digidol – stori Shannon

Mae Shannon yn disgrifio'r gefnogaeth a gafodd gan y Gwasanaeth Cyngori Pobl Ifanc a beth yr oedd yn ei olygu iddi hi. Mae Shannon yn disgrifio'r daith yr aeth arni ar ôl gadael gofal a llwyddo i ddod yn oedolyn ifanc annibynnol. Cafodd ei chefnogi i ddysgu sgiliau rheoli cyllideb a chymryd y cyfrifoldeb am reoli ei chartref ei hun. Ers hynny mae hi wedi dod yn fam sy'n gallu gofalu am ei theulu'n dda ac mae'r dyfodol yn edrych yn bositif. Mae Shannon wedi gwneud defnydd da o wasanaethau Dechrau'n Deg i wella ei chyflawniadau addysgol ac felly, yn ddiweddar, cyflawnodd un o'i phrif dargedau pan ddechreuodd weithio fel gofalwr rhan amser. Mae hi'n cydnabod pwysigrwydd y gefnogaeth a gafodd gan ei Chynghorwr Personol.

I weld y fideo yma, cliciwch isod.

<https://youtu.be/zxXNSDoUw8k>

Oedolion

55. O ran diogelu oedolion, gallwn ddangos bod y risg wedi ei reoli mewn 100% o'r atgyfeiriadau diogelu oedolion a bod yr oedolion bregus yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gwasanaeth diogelu a gawsent.
56. Mae'r cydweithrediad rhwng y staff sy'n cymryd rhan yn y trefniadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA), cwynion a chontractio yn parhau i weithredu'n dda. Ceir esiamplau da o gydweithio i ymdrin â pherfformiad y darparwyr gofal cartref, preswyl a nyrsio. Rhennir gwybodaeth yn amserol mewn grŵp sicrhau ansawdd sydd wedi bod yn weithredol ers misoedd olaf 2014.
57. Mae'r uned ddiogelu ganolog yn y Gyfarwyddiaeth wedi'i sefydlu'n dda erbyn hyn. Daethpwyd â gweithwyr ychwanegol i mewn i'r tîm canolog i leihau'r baich ar y timau rheoli achos yn y gwasanaethau oedolion. Mae'r uned yn darparu cyngor, arweiniad ac ymgynghoriad ar draws y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol ac i gyfarwyddiaethau eraill y Cyngor. Rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu i ddangos ein rheolaeth strategol a gweithredol effeithiol ar ymatebion amlasiantaethol i gyhuddiadau o gamdriniaeth ac esgeuluso, ein gweithgareddau monitro a chynlluniau i wella systemau diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion.
58. Mae pwyntiau cyfeirio un mynediad wedi eu sefydlu yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc. Lle mae atgyfeiriadau'n cynnwys pryderon am risg, mae'r rhain yn cael eu gwthio ymlaen fel blaenoriaeth. Yn y gwasanaethau oedolion, hwyluswyd y mynediad at y gwasanaethau trwy gyflwyno un rhif ffôn. Mae'r holl gysylltiadau a chyfeiriadau at y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn cael eu rheoli drwy'r Tîm Derbyn a Chefnogaeth y Teulu.
59. Datblygwyd, dilyswyd a lansiodd polisi a gweithdrefn diogelu corfforaethol i helpu'r holl staff gyda'u cyfrifoldebau i ddiogelu a hybu lles pobl fregus. Er bod gan yr holl staff gyfrifoldeb i ddiogelu a hybu lles pobl fregus, cydnabyddir bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn uwch swyddog o fewn y Cyngor sydd ag atebolrwydd terfynol am y maes yma o waith.
60. Mae pobl yn parhau i elwa o'r model ailalluogi sy'n hybu annibyniaeth, gan ostwng yr angen am becynnau dwys tymor hir o ofal cartref a'r pwysau i roi llety i berson hŷn yn amhriodol mewn lleoliadau gofal preswyl. Mae'r gwasanaeth adnoddau cymunedol gwell sydd wedi ei seilio yn Ysbyty y Barri wedi gweld buddsoddiadau sylweddol drwy'r Gronfa Gofal Sylfaenol, y Gronfa Gofal Canolraddol a'r Gronfa Cydweithredol Rhanbarthol. Mae wedi ein galluogi i ddod â gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol at ei gilydd i wneud adolygiadau ar y cyd o becynnau gofal. Trwy'r dull yma o gydweithio gall nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth ostwng yr angen am gael gofaluwr yn eu cartrefi mor aml; diwallwyd eu hanghenion a aseswyd drwy ddulliau eraill Yr adborth gan y defnyddwyr gwasanaeth oedd bod yr adolygiad yn ystyrlon ac yn ymgysylltu, gyda chanlyniadau positif. Mae'r dull yma'n cael ei ymwreiddio erbyn hyn ar draws y Gwasanaethau Oedolion.
61. Rydym wedi sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau sy'n byw mewn llety gyda chymorth a mathau eraill o lety yn gallu gwneud defnydd llawn o offer Teleofal, i fyw'n fwy annibynnol. Yn 2015/16, mae'r nifer o bobl sy'n cael eu cefnogi gan

Teleofal wedi tyfu. Mae'r gwasanaeth yn dal i gael trafferth gyda phroblemau gwydnwch, er bod y staffio wedi cynyddu mewn rhai meysydd. Mae'r Gwasanaeth Rhyddhau Integredig yn parhau i ryddhau cleifion yn ddiogel o Ysbyty Prifysgol Cymru ac Ysbyty Prifysgol Llandochau. Mae'n sefydlu gwell systemau gweithio gyda wardiau ysbyty, gwasanaethau cymunedol a gweithwyr cyswllt rhyddhau proffesiynol. Mae ein ffigurau oedi wrth drosglwyddo gofal (DTC) yn dangos yn glir y gwelliannau a wnaethpwyd.

Achosion Enghreifftiol

1) Hanesion Digidol – Stori Catherine

Mae Catherine yn derbyn cefnogaeth drwy Direct Payments. Mae hi angen cymorth gyda nifer o weithgareddau sy'n rhan o fywyd pob dydd. Roedd y gefnogaeth a gawsai gynt gan asiantaeth ofal a nyrsys ardal yn golygu bod yn rhaid iddi aros adref drwy'r amser am na fyddai hi'n siŵr pryd y bydden nhw'n galw. Mae hi'n disgrifio'r problemau sy'n ymwneud ag urddas ac ymddiriedaeth pan fydd pobl newydd yn cyrraedd i wneud tasgau yn eich cartref chi'ch hun. Penderfynodd Catherine ofyn i Direct Payment ddarparu ei gofal iddi, gan roi mwy o reolaeth iddi a galluogi iddi gael gofalwyr sy'n gyson. Mae hi'n myfyrio ar y ffaith ei bod hi'n gallu cymryd ei pum plentyn i'r sinema a'i bod eisiau gwisgo'n iawn i fynd allan. Mae Catherine yn teimlo ei bod yn gallu mwynhau ei chymuned yn iawn erbyn hyn a chyfrannu'n effeithiol, gan gefnogi dysgwyr sy'n oedolion ifanc a phlant.

I weld y fideo yma, cliciwch isod.

https://www.youtube.com/watch?v=6357Dz_bOEw&feature=youtu.be

Beth yw'r prif heriau yn awr?

- Mewn cyfnod o heriau ariannol a heriau i'r gweithlu, mae angen i'r Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion Rhanbarthol sicrhau bod yr holl bartneriaid ac asiantaethau cysylltiedig yn ymrwmo digon o adnoddau i ddarparu rhaglenni effeithiol.
- O dan y Protocol Pryderon Cynyddol ac hefyd fel mesur ataliol, rydym yn cynyddu'r gefnogaeth i nifer gynyddol o ddarparwyr gwasanaeth sy'n cael trafferth cynnal gwasanaethau diogel ac effeithiol.
- Mae'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod – Cynllunio'r Trosglwyddiad i Fyd yr Oedolyn i'r Rheiny sy'n Gadael Gofal' yn ceisio hybu gwell cefnogaeth drwy ymestyn trosglwyddiad y person ifanc i'r cyfnod o fod yn oedolyn mewn amgylchedd cefnogol yn y cartref a gyda theulu. Bydd hyn yn cynyddu'r galw cyffredinol am leoliadau gofal maethu ac yn gofyn am ystod gynyddol o sgiliau arbenigol.
- Mae Llywodraeth Cymru'n debygol o gyflwyno safonau uwch i awdurdodau lleol yn eu rôl fel rhieni corfforaethol i blant sy'n derbyn gofal a chynyddu'r cylch gwaith drwy gynnwys grwpiau megis plant sydd wedi cael eu mabwysiadu.
- I blant gydag anabledau, rydym angen bod yn ymwybodol o'r pwysau tymor hir sylweddol a fydd ar adnoddau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol dros y blynyddoedd sy'n dod oherwydd cynnydd yn y nifer fydd angen lleoliadau preswyl.
- I ymwreiddio gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd mewn rhai meysydd o'r gwasanaethau oedolion bydd angen gwneud symudiad sylfaenol i ffwrdd oddi wrth ddulliau cynllunio gofal tasg ac amser i gynllunio gofal

ac asesiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2016-2017?

Byddwn yn:

- datblygu a darparu strategaeth camdriniaeth rhywiol ar blant i Fro Morgannwg sy'n ymgysylltu'n briodol â'r holl bartïon perthnasol.
- gweithredu'r fframwaith statudol newydd i amddiffyn oedolion rhag camdriniaeth, gan gynnwys y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion.
- adolygu'r protocol perfformiad y darparwydd 'Pryderon Cynyddol' gyda phartneriaid a sicrhau bod y camau gweithredu a amlinellir yn yr ymateb i Operation Jasmine ac Adroddiad Flynn wedi eu cyflawni.
- datblygu ymhellach Ganolfan Adnoddau Dementia Rondel House drwy fwy o integreiddio gyda gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol.
- parhau i gynyddu'r defnydd a wneir o Direct Payments.
- Gweithredu'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod – Cynllunio'r Trosglwyddiad i Fyd yr Oedolyn i'r Rheiny sy'n Gadael Gofal'.
- adolygu ein hagwedd tuag at rôl Rhianta Corfforaethol y Cyngor i sicrhau ein bod yn hybu'n effeithiol gyfleoedd bywyd y grwpiau mwyaf bregus o blant a phobl ifanc.

Cynnal a Gwella

62. Mae'r adran hon o'm hadroddiad yn edrych ar ba mor effeithiol yw dull y cyngor o siapio gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ac yn darparu gwerth am arian ac mae'n esbonio ein trefniadau ariannol, comisiynu, cynllunio a phartneriaeth sydd wedi'u llunio i gyflawni hyn. Mae hefyd yn ystyried ein trefniadau ar gyfer arweiniad a'r cyd-destun corfforaethol a gwleidyddol ar gyfer cefnogi a chraffu ar amcanion y cyngor ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol.

4a) Siapio Gwasanaethau

Sefydlogrwydd Ariannol ac Adnoddau

63. Mae rheoli adnoddau'n flaenoriaeth allweddol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydym wedi gweithio'n agos gyda staff corfforaethol i lunio a gweithredu rhaglen gyllideb gynhwysfawr, gyda goruchwyliaeth gan fwrdd corfforaethol. Mae rhaglen y gyllideb wedi ei seilio ar y ddealltwriaeth fod angen i ni ostwng ein dibyniaeth lle bo modd a chanolbwyntio gwasanaethau ar ataliaeth, gan ddefnyddio'r cryfderau o fewn teuluoedd a chymunedau fel adnoddau allweddol. Mae'r cynllun ategol yn pennu'n drwyadl y camau gweithredu hynny sydd eu hangen i daro'r targedau cyllidebol ar gyfer y flwyddyn. Mae cyfarfodydd misol Bwrdd Rhaglen y Gyllideb wedi sicrhau bod y sefyllfa ariannol o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i gael ei monitro a'i rheoli ar lefel uwch ar draws y Cyngor. Rhoddwyd adroddiadau rheolaidd parhaus i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, Craffu a'r Cabinet drwy gydol y flwyddyn.
64. Bu 2015/16 yn flwyddyn ariannol heriol iawn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ogystal â delio gyda'r galw cynyddol am wasanaethau, roedd gofyn i'r Gyfarwyddiaeth wneud arbedion costau o bron i £1.5m yn rhan o Raglen Cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyflawnwyd yr holl dargedau arbedion y cytunwyd arnynt heb danseilio ein gallu i gyflawni cyfrifoldebau statudol y Cyngor i ddarparu gofal a chefnogaeth. I bob pwrpas ymarferol, llwyddodd y Gyfarwyddiaeth i gael cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn. Cymerwyd camau effeithiol ac amserol i ymdrin â'r ffactorau sy'n gallu creu gorwario sylweddol ac i sicrhau rheolaeth dynn ar wariant, er gwaethaf yr heriau sy'n codi oherwydd galw sylweddol uchel am becynnau gofal gwasanaethau oedolion. Gwnaethpwyd defnydd da o grantiau sydd â chyfyngiad amser arnynt megis Teuluoedd yn Gyntaf ac ICF (a reolir gan y Bwrdd Iechyd Lleol erbyn hyn) lle'r ydym wedi gweithio'n agos iawn gydag Adrannau eraill y Cyngor. Rydym wedi gweithredu strategaethau comisiynu mewn gwasanaethau i bobl hŷn, plant a phobl gydag anabledd dysgu. Mae'r gyllideb ar gyfer 2016/17 wedi cael ei chytuno, yn cynnwys y targed arbedion o £1 miliwn ac mae cynllun ar waith i ddarparu'r arbedion pellach yma.
65. Mae manylion y gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16 yn erbyn gwariant i'w gweld yn y Tabl isod

Y Gwasanaeth	Y Gyllideb (£'000)	Gwariant (£'000)	Amrywedd (£'000)
Plant a Phobl Ifanc	14,631	14,626	+5
Gwasanaethau Oedolion	37,874	37,875	(1)

Arloesi a Rheoli Busnes	361	364	(3)
Cyfanswm y Gyfarwyddiaeth	52,866	52,865	+1

66. Yn y Gwasanaethau Plant, sicrhawyd arbedion ychwanegol drwy amryweddau ffafriol i'r Gyllideb ar y Cyd i Leoliadau Preswyl ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a'r gyllideb staffio. Yn y Gwasanaethau Oedolion, y pwysau allweddol oedd y newidiadau demograffig mewn perthynas â phobl hŷn a'r angen i gynyddu'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol i'r rheiny oedd yn mynd yn fregus iawn. Canlyniad hyn oedd amrywedd anffafriol o £412k ar becynnau gofal cymunedol, sydd hefyd yn cynnwys methiant i adfer yr incwm a dderbyniwyd o dan y Cynllun Taliadau a Ohiriwyd. Hawliodd y Gyfarwyddiaeth gyllid ychwanegol o'r Gronfa Gofal Canolraddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel hawliad unwaith yn unig. O fewn yr Adran Rheoli Busnes ac Arloesi, roedd amrywedd ffafriol o £72k, gyda chyfraniad mawr o'r gyllideb staffio lle cadwyd swyddi gwag yn ystod y flwyddyn i aros am adolygiad o'r gwasanaethau. Fodd bynnag, o ganlyniad i gyfraniad i'r cronfeydd wrth gefn i ganiatáu ar gyfer goblygiadau costau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, cafwyd amrywedd anffafriol o £3,000.
67. Er bod 2015/16 wedi gorffen gyda'r Gyfarwyddiaeth mewn sefyllfa ariannol ffafriol, roedd rheoli gwariant yn her enfawr ac ychydig iawn o seibiant sydd i'w weld ar y gorwel yn y flwyddyn sydd o'n blaenau. Bydd raid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol wneud rhagor o arbedion drwy gydol cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor, heb ystyried y costau uwch a'r galw uwch am ofal a chefnogaeth. Ar hyn o bryd mae gofyn i'r Gyfarwyddiaeth ganfod arbedion o £2.257m erbyn diwedd 2019/20 a'r arbedion targed ar gyfer 2016/17 ei hun yw £1.002m. Bydd pwysau cynyddol o ran costau mewn blynyddoedd i ddod mewn perthynas â:
- gweithredu gofynion y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant;
 - cyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol o Ebrill 1 2016 a fydd yn cael effaith sylweddol ar y gwasanaethau gofal cymdeithasol, yn enwedig y rheiny a gomisiynwyd gan ddarparwyr allanol.
68. Yn 2016/17, bydd rhagor o waith yn digwydd i asesu effaith llawn yr heriau hyn a heriau eraill i ganfod ffyrdd o leihau'r pwysau yma, a phwysau arall ar gostau. Byddwn yn bwriadu datblygu cynllun peilot i gomisiynu gwasanaethau gofal cartref ar sail y canlyniadau. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a phartneriaid allweddol eraill i sicrhau y gellir defnyddio'r Gronfa Gofal Canolraddol er budd trigolion Bro Morgannwg ac i'n helpu i ail siapio patrwm y gwasanaethau cymorth a gofal.

Comisiynu, Cynllunio a Phartneriaethau

69. Mae ein strategaethau comisiynu'n nodi sut y mae'r Cyngor yn bwriadu sicrhau'r gwasanaethau y bydd pobl eu hangen (yn awr ac yn y dyfodol), p'un a yw'r rhain yn cael eu darparu gan y gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol gan y trydydd sector, gan y sector preifat neu gan sefydliadau megis mentrau cymdeithasol. Mae comisiynu'n flaenoriaeth allweddol i'r gwasanaethau cymdeithasol ac mae nifer o gamau gweithredu yn y Cynllun Corfforaethol ac yn y Cynllun Gwasanaethau'n ymwneud â datblygu'r maes yma o waith. Mae pontydd cryfion rhwng gwasanaethau a chynllunio ariannol. O ganlyniad, gallwn ddarparu tystiolaeth dda am ein gwaith o ran adolygu, cynllunio a datblygu

gwasanaethau sy'n darparu'r gwerth gorau am arian a gwella'r canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofaluwr.

70. Mae ein gwaith i ddatblygu strategaethau comisiynu mewn meysydd megis gwasanaethau pobl hŷn a gwasanaethau plant wedi eu hystyried yn esiampl i eraill. Rydym wedi gweithredu strategaeth gomisiynu ar y cyd i'r gwasanaethau anabledd dysgu gyda Chyngor Caerdydd. Mae'r berthynas gyda darparwyr gwasanaethau yn y sector annibynnol a'r trydydd sector yn bositif, er gwaethaf y ffaith fod angen gostwng costau dianghenraid. Rydym yn cydweithio'n dda wrth gomisiynu ar raddfa ehangach, yn rhannol drwy Gydweithrediaeth Wella De Ddwyrain Cymru.
71. Rydym yn defnyddio Strategaethau Comisiynu y cytunwyd arnynt i helpu i ail siapio ein gwasanaethau a monitro ein cynnydd yn rheolaidd yn erbyn y bwriadau y cytunwyd arnynt yn y Strategaethau. Datblygwyd Datganiad o Safle yn y Farchnad i'r Gwasanaethau Pobl Hŷn, gan ein galluogi i rannu ein bwriadau gyda'n darparwyr a'r ffordd y dymunwn weithio gyda nhw yn y dyfodol. Cynhaliwyd gweithdy yn ystod y flwyddyn a chafwyd ymateb da a rhai awgrymiadau defnyddiol. Ond, nid ydym wedi gallu symud hyn ymlaen ymhellach oherwydd cystadlu rhwng blaenoriaethau a newid cyfeiriad gan Lywodraeth Cymru o ran ei pholisi ynglŷn â thai.
72. Un o'n blaenoriaethau gwella ar gyfer 2015/16 oedd datrys problemau parhaus gyda'r contract â Hafod Homes er mwyn sicrhau gwell canlyniadau ariannol a gwasanaethau. Penderfynodd y Cyngor ddod â'r contractau i ben cyn y dyddiad swyddogol. Cytunodd y ddau barti ar y telerau a dychwelwyd y cyfrifoldeb am reoli'r ddau gartref yn gyfan gwbl i'r Cyngor ac ildwyd y prydles. O ganlyniad i hynny, sicrhawyd arbedion. Trwy weithredu'r cynllun gweithredu sicrhawyd trosglwyddiad y cartrefi o fewn yr amseriadau gofynnol a gyda chyn lleied o amhariad i'r preswylwyr ag oedd yn bosib. Mae gwaith wedi cychwyn ar adolygiad o'r llety gydag opsiynau gofal i bobl hŷn.
73. Rydym hefyd wedi cychwyn adolygu ein trefniadau comisiynu ar gyfer gofal cartref er mwyn sicrhau gwerth am arian ac i ddarparu gwasanaethau o safon. Fodd bynnag, gohiriwyd y gwaith yma yn ystod y flwyddyn oherwydd newidiadau polisi mewn meysydd megis y Cyflog Byw Cenedlaethol oedd yn golygu bod blaenoriaeth wedi ei roi i ddatrys y materion hyn cyn y gallai'r sector annibynnol ymrwymo i gymryd rhan yn y broses. Mae'r sector annibynnol yn awyddus i gyfranogi ac mae cynlluniau i'r gwaith yma barhau i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf. Parhaodd ein gwaith gyda Chanolfan Gydweithredol Cymru i ddatblygu gwasanaethau 'llety gyda gofal' i bobl hŷn. Cafwyd gweithdy pellach ym mis Ionawr 2016. O ganlyniad i'r diwygio lles o fewn y sector tai, mae'r prosiect yma wedi cael ei atal dros dro. Fodd bynnag, mae llawer o waith yn digwydd yn genedlaethol y mae Bro Morgannwg wedi'i chysylltu ag o. Bydd y cam gweithredu yma'n cael ei basio ymlaen i flaenoriaethau gwella'r flwyddyn nesaf.
74. Rydym wedi bod yn cydweithio gyda Bwrdd Iechyd y Brifysgol a Chyngor Sir Caerdydd i ddatblygu dull o gomisiynu gwasanaethau ar y cyd fel y bo'n briodol. Mae hyn yn waith tymor hir o anghenraid ond mae cynnydd i'w weld a, gyda'n partneriaid rhanbarthol, rydym wedi penodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol rhanbarthol dros Integreiddiad, sydd â'r cyfrifoldeb am ganfod cyfleoedd i gronni cyllidebau neu ddatblygu bwriadau comisiynu ar y cyd yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
75. Defnyddiwyd Protocol Perfformiad y Darparwr nifer o weithiau yn ystod y flwyddyn am fod darparwyr heb lwyddo i gwrdd â'r safonau ansawdd gofynnol. Mae'r protocol yn galluogi'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid i ymdrin â phroblemau gyda pherfformiad gwael mewn

ffordd amserol ac ystyrlon. Diwygiwyd y Protocol yn ystod 2014/2015 i alluogi'r Awdurdod i gynnal trafodaethau gyda darparwyr sy'n cael problemau cyn i'r problemau yma gynyddu ac achosi risgiau i'r unigolion sy'n derbyn gwasanaethau. Cafodd y cam ychwanegol yma ei ddefnyddio'n dda ar rai achlysuron, gan sicrhau bod sefyllfaoedd yn cael eu cywiro a bod llai o angen am weithredu'r Broses Pryderon Cynyddol.

76. Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi ymateb i Adroddiad Flynn, 'In Search of Accountability', a ddilynodd ganlyniad Operation Jasmine. Rydym wedi cyfrannu at ymateb rhanbarthol ac rydym yn gweithio ar hyn o bryd drwy Gynllun Gweithredu sy'n rhoi'r dasg i bartneriaid o weithio'n agos â'i gilydd i wella bywydau pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal. Er bod Operation Jasmine yn ymwneud â gofal mewn cartrefi gofal, mae'r gwersi'n berthnasol hefyd i asiantaethau gofal cartref a lleoliadau cymunedol. Ein prif ffocws yw diogelu ond byddwn yn defnyddio'r cyfle i ganolbwyntio hefyd ar ein dyletswydd i hybu gofal o safon dda. Mae hyn yn golygu gweithio ar y cyd i wella'r ffordd mae perfformiad yn cael ei fonitro a sicrhau gwaith monitro contractau cadarn, datblygu protocolau ar y cyd a chyfleoedd i rannu gwybodaeth.
77. Mae ymrwymiad gan y Cyngor o hyd i weithio ar y cyd lle mae hyn o fudd i'n trigolion ac yn helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n dda a'u bod yn gyson ac effeithlon. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn parhau i ddangos ymrwymiad ac arweiniad mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd y Brifysgol a Chyngor Caerdydd, a darparwyr gofal cymdeithasol preifat a thrydydd sector. Mae partneriaethau allweddol lle mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn chwarae rôl arweiniol yn cynnwys y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, y Bwrdd Iechyd a Lles y Cyhoedd, y Bwrdd Diogelu Oedolion rhanbarthol a'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant.
78. Mae rhaglen Gwasanaethau Cydweithredol gynhwysfawr, gyda chynrychiolaeth gan arweinwyr gwleidyddol a chydweithwyr corfforaethol, ac mae'r Bwrdd Rhaglen yn cwrdd bob mis. Mae'r Prif Arolygydd yn adrodd bod ein gwaith partneriaeth yn gryf ac effeithiol, fel y gwelwn yn y costau a'r swyddi rheoli a rennir, y gwasanaethau integredig, a gwasanaethau rhanbarthol/cenedlaethol megis mabwysiadu. Mae hyn yn cynrychioli gwell profiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Darparodd y Gwerthusiad Blynyddol gan AGGCC ardystiad positif iawn ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn wynebu'r heriau enfawr sydd o flaen y gwasanaethau cymdeithasol a'r Cyngor. Mae'r canfyddiadau'n dangos ein bod yn adeiladu ar sylfeini cadarn a bod gennym gynlluniau clir ar gyfer arloesi pellach. Mae'r ffaith fod gan uwch swyddogion o'r gwasanaethau cymdeithasol rôl flaenllaw mewn llywio mentrau cenedlaethol (mewn meysydd megis mabwysiadu, maethu, y Gronfa Byw'n Annibynnol, systemau gwybodaeth, eiriolaeth a gweithio integredig) yn helpu i dawelu meddwl rhanddeiliaid bod y Fro ar y blaen mewn datblygiadau newydd.
79. Mae cydweithrediad rhanbarthol yn parhau'n hanfodol i gynlluniau ar gyfer ailfodelu gwasanaethau. Gan weithio'n agos gyda phartneriaid statudol eraill a ragnodwyd i ni (Cyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro gan fwyaf), ynghyd â sefydliadau trydydd sector, rydym wedi gallu gwneud mwy drwy gronni ein harbenigedd, adnoddau a chynllunio. Mae cynlluniau i sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, fel sy'n ofynnol gan Adran 9 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn dod yn eu blaenau'n dda. Rydym wedi gweithredu fel prif sefydliad mewn perthynas â'r Grant Darparu Gweddnewidiad, a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu i reoli'r gwaith paratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf. Cwblhawyd yr holl ffrydiau gwaith yn brydlon ac o fewn y gyllideb y cytunwyd arni.

80. Roeddem yn gweithio yn y trefniadau partneriaeth rhanbarthol i gomisiynu adolygiad allanol o wasanaethau iechyd cymunedol ac awdurdod lleol i bobl hŷn. Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r adolygiad, cytunwyd y byddai'r bartneriaeth yn rhedeg rhaglen integreiddiol pellgyrhaeddol ar garlam a fydd yn canolbwyntio i ddechrau ar ddod â gwasanaethau at ei gilydd i bobl hŷn i barhau eu hannibyniaeth yn eu cartrefi eu hunain a darparu gofal cynaliadwy o fewn y gymuned. Ym Mro Morgannwg, mae staff o'r Cyngor yma (yn cynnwys y Gwasanaethau Tai) ac ardal Bwrdd Iechyd y Brifysgol yn gweithredu'n barod nifer o'r newidiadau sy'n ofynnol gan y rhaglen newydd. Mae staff wedi ymateb yn eithriadol o dda i'r cyfleoedd a'r heriau newydd sy'n gysylltiedig ag ailsiapio gwasanaethau ar draws ystod eang o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth.
81. Penodwyd Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Integreiddiad ar draws y rhanbarth, sy'n rhannu'r gwaith o reoli'r swydd gyda Chyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r fro a Chyngor Bro Morgannwg. Cychwynnodd yr unigolyn a benodwyd yn y rôl yma ym mis Chwefror. Bydd hithau'n cefnogi gweithrediad y Ddeddf drwy gydlynid yr Aseiad o Anghenion y Boblogaeth, mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, a datblygiad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Hefyd mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros Integreiddiad yn goruchwyllo'r Gronfa Gofal Canolraddol a datblygiad y trefniadau cyllideb gronnu/ comisiynu ar y cyd sydd wedi eu hamlinellu yn Adran 9 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae hyn yn golygu bod gennym bedair swydd uwch erbyn hyn sy'n benodiadau ar y cyd gyda naill ai Awdurdod Lleol Caerdydd neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Yn ogystal, mae gan y mwyafrif o reolwyr y Fro ym maes gofal cymdeithasol oedolion gyfrifoldebau deuol ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ardal.
82. Mae'r cydweithio yma wedi derbyn cefnogaeth gref yn 2015/16 trwy ddefnyddio'r Gronfa Gydweithredu Rhanbarthol (RCF) a'r Gronfa Gofal Canolraddol (ICF).
- i) 2015/16 oedd y drydedd flwyddyn, a blwyddyn olaf y Gronfa Gydweithredu Rhanbarthol. Gyda'r cyllid is oedd ar gael (aeth i lawr o £785,000 i £533,000), cafodd y prosiectau eu hailalinio. Canolbwyntiodd y rhaglen ar ddau brosiect.
- Roedd y prosiect Gwasanaethau Gwell i Bobl gydag Anableddau Dysgu'n caniatáu i ni wneud adolygiadau amserol o becynnau gofal a chefnogaeth i bawb sydd ag anableddau dysgu. Gyda'r darparwyr tai, datblygwyd modelau gweithio newydd i greu darpariaeth byw gyda chymorth yn y gymuned. Rhoddwyd y cyfle i bobl oedd mewn darpariaeth breswyl y tu allan i'r ardal symud yn agosach at adref a byw mewn eiddo oedd wedi eu haddasu. Rhoddwyd y Gyd-Strategaeth Cyfleoedd Dydd ar waith.
 - Cafodd y Gwasanaethau Ailalluogi eu diwygio drwy ddarparu cyd-hyfforddiant i'r staff, ynghyd â rheolaeth unigol, offer newydd ac un lleoliad sylfaenol. Rydym wedi defnyddio ariannu RCF i 16 i wella'r gwasanaeth drwy amseroedd agor estynedig a chynnydd mewn staffio; adolygu'r gydran therapi mewn pecynnau cymhleth o ofal, i sicrhau dull mwy unedig a fydd hefyd yn gostwng y costau gofal yn gyffredinol; cynyddu'r gallu i sgrinio a dyrannu adnoddau'n effeithiol, i helpu i ostwng yr amseroedd ymateb i'r Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol ac i hybu aseiad a rhyddhau amserol o'r gwasanaethau cymorth; a pharhau i gyllido partneriaid trydydd sector, Age Connects a'r Groes Goch Brydeinig, i ddarparu adnoddau ychwanegol i gyflymu'r broses o ailalluogi defnyddwyr y gwasanaeth, gan ddefnyddio agwedd ataliol.

- ii) Defnyddiwyd y Gronfa Gofal Canolraddol i roi nifer o gynlluniau rhanbarthol ar waith ond hefyd rai sy'n benodol i'r Fro ac sy'n cael canlyniadau positif iawn i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Gweddnewid y trefniadau mynediad at wasanaethau, gan sicrhau fod pobl yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen pan fyddent yn cysylltu;
 - gweithio'n well gyda'r gwasanaethau tai i gefnogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain ac i ddychwelyd yno yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty, yn cynnwys defnyddio fflat seibiant yn rhan o'r Gofal Ychwanegol.
83. Roedd y newidiadau yn y gwasanaethau a ddigwyddodd oherwydd y defnydd a wnaed o Lywodraeth Cymru wedi helpu i sicrhau gwell perfformiad mewn perthynas ag Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DToC). Gall y Cyngor a Bwrdd Iechyd y Brifysgol ddangos cynnydd sylweddol yn y maes yma dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn neufis cyntaf 2015 gwelwyd cynnydd amlwg yn y niferoedd yr adroddwyd amdanynt drwy Gaerdydd a'r Fro i gyd ond dilynwyd hyn gan ostyngiad sylweddol a pharhaus ers Chwefror 2015, gan gyrraedd y gyfradd darged o 25% o ostyngiad ar gyfer y flwyddyn. Roedd y Dirprwy Weinidog Iechyd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda ffigurau allweddol o'n cymuned iechyd a gofal cymdeithasol i dderbyn adroddiadau monitro ar gyfer cyd-gynllun darparu'r gwasanaeth Oedi wrth Drosglwyddo Gofal ac i adolygu perfformiad. Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo i fapio a newid prosesau gweithredol sy'n atal rhyddhau amserol o'r ysbyty.
84. Mae ffrydiau cyllido allanol eraill megis Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf wedi ein helpu i symud ymlaen gyda gwelliannau i'n gwasanaethau plant a chymorth i deuluoedd. Mae Pennaeth Gwelliant a Chynhwysiad Ysgolion yn mynychu'r Bwrdd Rheoli Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, sy'n darparu strwythur llywodraethu amlasiantaeth effeithiol ar gyfer y rhaglenni hyn. Mae cynrychiolwyr o Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf wedi ymgysylltu â'r Tîm Partneriaeth a Chymunedau yn Gyntaf i alinio strategaethau gwrth-dlodi sy'n cynnwys gwaith ar y cyd mewn perthynas â phobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETS) a babanod oedd o dan bwysau pan gawsent eu geni. Mae cydweithrediad agos rhwng y ddwy gyfarwyddiaeth wrth gynllunio sut i ddatblygu gweithio amlddisgyblaethol yn Ysgol y Deri, y cyfleuster addysgol newydd i blant gydag anabledau.
85. Yn rhanbarthol, mae'r gwasanaeth Cymorth Dwys i Deuluoedd wedi ei sefydlu'n dda. Hefyd, mae gennym swydd rheolwr rhaglen a rannwn ac rydym yn dechrau gweld cynnydd yn y gwasanaethau i blant gyda phroblemau iechyd meddwl ac emosiynol a phant gydag anghenion cymhleth oherwydd anabledau. Bydd y cynlluniau yma'n cael eu cymryd yn eu blaenau gan ddefnyddio adnoddau newydd o'r Gronfa Gofal Canolraddol. Rydym wedi dod yn awdurdod cynnal i wasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd, gan gynyddu argaeledd y mabwysiadwyr a gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd sy'n mabwysiadu.
86. Mae'r Fro wedi sefydlu enw gwych am fentrau arloesol, y mae llawer ohonynt yn cynnwys partneriaid allweddol, a darperir nifer gynyddol o wasanaethau fel mentrau ar y cyd. Mae hyn wedi ei seilio mewn perthnasoedd da gyda'r ystod eang o ddarparwyr eraill yn y sector masnachol a'r trydydd sector, er gwaethaf gwahanol safbwyntiau am raddfa'r gefnogaeth ariannol y gall y Cyngor ei darparu. Rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd mewn hyrwyddo defnydd cynyddol o fentrau cymdeithasol a chydweithfeydd yn y maes cyfleoedd dydd i bobl gydag anabledau dysgu; bydd angen i hyn ddod yn fwy canolog i'r rhaglen gydweithredol.

87. Rydym yn dal i fod yn aelod gweithredol o Gydweithfa Wella De Ddwyrain Cymru (SEWIC) i'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae SEWIC yn dod â chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol at ei gilydd o ddeg awdurdod lleol yn yr ardal i adolygu a datblygu gwasanaethau newydd sy'n gofyn cydweithredu ar draws y rhanbarth. Mae gan y gydweithfa yn awr raglen eang sy'n cynnwys Consortiwm Comisiynu Plant Cymru, sy'n ein helpu i ganfod lleoliadau allanol o ansawdd da i blant sy'n derbyn gofal, prosiect mewnol i ddatblygu maethu, gwasanaethau mabwysiadu rhanbarthol, broceriaeth ranbarthol a chanolfan gaffael ar gyfer lleoliadau cost uchel i oedolion. Mae'r gwaith o 2014/16 wedi parhau i mewn i 2015/16 i gynnwys gweithio gyda'r maes lechyd ar leoliadau iechyd meddwl cost uchel, sy'n cael eu gweithredu fel prosiect Cymru Gyfan (CCAPS). Mae'r rhaglen yma wedi ei thanategu gan fodolau newydd o ddarpariaeth gwasanaethau, yn gwella argaeledd lleoliadau priodol i ddefnyddwyr gwasanaeth bregus iawn ac yn helpu i reoli costau.
88. Dyma ein blaenoriaethau gwella ar gyfer 2016-17.

Byddwn yn:

- adolygu opsiynau 'llety gyda gofal' i bobl hŷn ac yn datblygu ein strategaeth gomisiynu ar gyfer blynyddoedd i ddod.
- sicrhau, drwy gwblhau'r asesiad o anghenion y boblogaeth, bod y Bartneriaeth yn canfod bylchau mewn gwasanaethau ac yn ystyried ffyrdd o lenwi'r bylchau yma drwy gomisiynu, cyd-gynhyrchu a hybu mentrau cymdeithasol.
- gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddarparu'r rhaglen o brosiectau a sefydlwyd o dan y Gronfa Gofal Canolraddol a rhannau perthnasol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- cydweithredu gyda'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros Integreiddiad i ganfod cyfleoedd i gronni cyllidebau neu ddatblygu'r bwriadau comisiynu ar y cyd yn unol â dyletswyddau Adran 9 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

89. Mae gennym systemau da ar waith i ganfod barn pobl am fylchau mewn gwasanaethau ac effeithiolrwydd y gefnogaeth, gan gynnwys rhaglen ymgynghori flynyddol a gynlluniwyd, asesiadau unigol, arolygon o leoliadau gwasanaethau unigol a phrosesau cwyno. Defnyddir y rhain yn briodol wrth lunio a chynllunio gwasanaethau. Rydym wedi gwneud yr ystod ganlynol o ymgynghoriadau dros y 12 mis diwethaf.
90. Yn y gwasanaeth C1V:
- Roedd 97% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch a bod pobl wedi gwrandao arnynt.
 - Gwelsom fod angen i rywfaint o'r wybodaeth fod yn fwy amserol. Er gwaethaf hynny, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y byddent yn defnyddio'r gwasanaeth eto. Roedd pob ymatebwr bron iawn yn bositif am agwedd/ymerweddiad y Cynrychiolwyr Gwasanaeth y Cwsmer a'u gallu i helpu gyda'u hymholiadau.
91. Hefyd rydym wedi gofyn am farn pobl ar eiriolaeth a gallwn adrodd bod:
- 80% o ymatebwyr yn teimlo bod eu Gweithiwr Cymdeithasol yn hawdd cysylltu ag o/â hi a bod 60% yn teimlo bod eu Gweithiwr Cymdeithasol yn gwrandao arnynt ac roedd yr un gyfran yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal.
 - Dywedodd fwy na hanner (57%) yr ymatebwyr y byddai'n well ganddynt gael un gweithiwr cymdeithasol yn ystod eu cysylltiad gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Pennwyd rhai gwelliannau mewn perthynas â'r broses gyflwyniadau pan mae pobl ifanc yn cwrdd â'u Gweithiwr Cymdeithasol newydd.
92. Yn ein gwasanaethau mabwysiadu:
- Roedd 100% o'r ymatebwyr yn teimlo bod yr hyfforddiant a gawsent wedi eu paratoi ar gyfer y broses fabwysiadu. Roedd 100% yn teimlo'n fodlon/yn fodlon iawn gyda'r gefnogaeth a gawsent gan Weithiwr Cymdeithasol yn ystod y broses fabwysiadu a'r wybodaeth a gawsent am yr asesiad.
 - Dywedodd 100% eu bod wedi cael eu cynrychioli'n deg, yn eu barn hwy, ar y Panel Mabwysiadu a bod pobl wedi gwrando arnynt.
 - Roedd 100% yn fodlon iawn/yn fodlon gyda'r cyfathrebu a'r wybodaeth a gawsent.
 - Roedd 100% yn fodlon iawn/yn fodlon gyda'r gefnogaeth a roddwyd i'r teulu cyfan a'r ddealltwriaeth o anghenion y cleient.
93. Wrth ddarparu gwasanaeth i ymdrin â phryderon yn ymwneud â diogelu oedolion bregus:
- Doedd 80% o'r oedolion bregus yn y sampl ddim yn gwybod gyda phwy y dylent siarad i ddechrau pan oedd ganddynt bryder ac nid oeddent yn fodlon gyda'r wybodaeth oedd ar gael.
 - Dywedodd 40% eu bod yn teimlo wedi eu cefnogi yn ystod y broses.
 - Dywedodd 80% o'r gofalwyr eu bod yn ymwybodol o bwy i siarad â nhw am unrhyw bryderon a dywedodd 60% eu bod yn hapus gyda'r wybodaeth a gawsent yn ystod y broses. Cafodd 80% o'r perthnasau bod yr wybodaeth yn ddefnyddiol ond dim ond 40% o'r perthnasau oedd yn teimlo bod yr wybodaeth yn glir a pherthnasol. Er hynny, roedd 80% o ofalwyr yn teimlo bod yr oedolyn bregus yn fwy diogel oherwydd y broses POVA.
94. Mae'r ymgynghoriadau'n dangos bod profiad y cwsmer mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn weddol bositif ar y cyfan gyda lefelau uchel o foddhad mewn perthynas â darpariaeth y gwasanaeth, disgwyliadau a chanlyniadau. Lle gwelwyd meysydd o welliant, mae'r rhain yn derbyn sylw mewn cynlluniau gweithredu priodol. Mae'r fframwaith ymgynghori ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn llwyddiannus ac mae'n adlewyrchu blaenoriaethau'r gwasanaeth yn gywir. Mae pob ymarfer ymgynghori'n ystyried y dull mwyaf priodol o ymgynghori ar gyfer y grŵp hwnnw o ddefnyddwyr gwasanaeth, gyda'r hyblygrwydd i addasu dulliau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth unigol fel y bo'n ofynnol. Mae adroddiadau a chofnodion materion yn cael eu paratoi a'u rhannu gyda meysydd y gwasanaethau i ganfod argymhellion ac arferion da cyfredol i hysbysu gwelliannau i'r gwasanaeth. Mae ymarferion ymgynghori'n cael eu hamseru erbyn hyn i gefnogi unrhyw waith ailgyflunio gwasanaethau sy'n cael ei wneud. Mae asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cwblhau i ganfod yn eglur beth yw'r effeithiau ar unigolion sydd â nodweddion wedi'u hamddiffyn a gwneir darpariaeth i leihau effeithiau anffafriol.
95. Mae gan y Gyfarwyddiaeth systemau cadarn ar gyfer rheoli cwynion, drwy gymryd agwedd ragweithiol a thrwy 'wrando a dysgu'. Mae system o gwynion a chanmoliaeth sy'n cael ei rheoli'n effeithiol ac yn gywir yn chwarae rôl allweddol mewn sicrhau bod defnyddwyr yn derbyn y gwasanaethau y mae ganddynt hawl i'w derbyn. Mae'n galluogi'r Gyfarwyddiaeth i:
- gydnabod yn gyflym pan fydd camgymeriadau wedi digwydd;
 - eu cywiro yn effeithiol ac ymddiheuro, lle bo'n briodol; a
 - sicrhau ein bod yn dysgu gwarsi o gwynion ac yn defnyddio'r gwarsi hyn i wella gwasanaethau a pherfformiad.

96. Mae'r Adroddiad Blynyddol am Gwynion a Chynrychiolaeth Flynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2015/16 yn dangos bod y Gyfarwyddiaeth wedi derbyn 87 o gwynion neu byrderon yn ystod y flwyddyn. Isod mae'r manylion ar draws y gwasanaeth.

	Ymholiadau*	Cwynion
Gwasanaethau Oedolion	18	26
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	20	23
Rheolaeth Busnes ac Arloesi	0	0
Cyfanswm	38	49

*Mae ymholiad yn fater sy'n achosi pryder i'r defnyddiwr gwasanaeth yr ymdriniwyd ag o gan y tîm, heb iddo droi i fod yn gŵyn.

97. Mae'r wybodaeth yn dangos cynnydd yn y nifer o ymholiadau (34 yn 2014/15), ond gostyngiad yn nifer y cwynion (55 yn 2014/15). Mae'r cynnydd yn ymwybyddiaeth y staff am eu cyfrifoldebau o dan y Weithdrefn Gwyno a'u hymrwymiad i ddatrys pryderon ar y cyfle cynharaf yn cael eu hystyried yn ffactorau allweddol mewn gostwng nifer y cwynion. Mae'r staff i gyd wedi derbyn hyfforddiant diweddar am y Weithdrefn newydd ac mae'r Swyddog Cwynion yn eu cefnogi i ddarparu cydymffuriad drwy gydol y flwyddyn.
98. I ddeall maint y cwynion o'i gymharu â nifer y defnyddwyr gwasanaeth, y ffigur oedd oddeutu 0.55% yn y gwasanaethau oedolion (4668 o bobl yn derbyn gwasanaethau cymdeithasol neu a atgyfeiriwyd yn ystod y flwyddyn a 26 o gwynion). Mae hyn yn dangos cynnydd bychan yn y canran o'i gymharu â 2014-15, sef 0.49%. Y ffigur i'r Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc oedd 1.27% (1809 o ddefnyddwyr gwasanaeth a 23 o gwynion), gostyngiad bychan o'i gymharu â 2014/15. Mae'r Weithdrefn Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys amseriadau i ddynodi o fewn faint o amser y dylai cwynwyr fod wedi derbyn ymateb i'w cwyn. Yn ystod 2015/2016 cafwyd gostyngiad mewn perfformiad, gyda 24% o gwynion heb eu cyflawni o fewn yr amser. Mae hyn yn gynydd sylweddol ar y 6% yn 2014/15. Mae nifer o faterion yn cyfrannu at y ffigur yma, gan gynnwys cymhlethdod y cwynion a newid yn y ffordd mae'r ffigurau'n cael eu coladu.
99. Roeddem wedi cynllunio a darparu ystod newydd o ddigwyddiadau i ddathlu Wythnos y Gofalwyr yn 2015. Trefnwyd dau ddigwyddiad yn Stadiwm Dinas Caerdydd mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg. Rhannwyd y digwyddiadau'n ddwy thema – Cadw'n Ddiogel a Chadw'n Iach. Mae ystod o wasanaethau i ofalwyr, wedi'u cyllido gan y Gyllideb Gwasanaethau'r Gofalwyr, sydd ar gael i ofalwyr pobl gyda dementia nad ydynt angen asesiad naill ai i'r gofalwr na'r unigolyn y maent yn gofalu amdano/amdani: Croesffyrdd Bro Morgannwg (seibiant), Age Connects (Gwasanaeth Rhyddhau o'r Ysbyty i Ofalwyr/seibiant); Eiriolaeth i Ofalwyr, Tasgmon y Gofalwyr, Hyfforddiant, Cerdyn Argyfwng y Gofalwr.
100. Rydym wedi sicrhau bod capasiti'r Swyddogion Cymorth i Ofalwyr newydd wedi cael ei ddefnyddio ar draws y gwasanaethau, gydag effaith ddramatig mewn meysydd oedd heb gyfleuster ymroddedig gynt. Mae gofalwyr ifanc ymysg y grwpiau sydd wedi elwa. Bydd swyddog llawn amser yn cefnogi'r rhiant a'r gofalwr ifanc mewn perthynas â'u hanghenion asesu a gwybodaeth. Mae gwaith yn digwydd yn barhaus i sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael eu pennu a'u hatgyfeirio'n briodol at y gefnogaeth wedi'i thargedu sydd gan y Cyngor

a'i bartneriaid ar waith. Mae Bro Morgannwg yn comisiynu prosiect yn allanol a ddarperir drwy YMCA Caerdydd. Dan y teitl 'Amser i mi', mae'r gwasanaeth yma'n rhoi cyfleoedd i ofalwyr ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, digwyddiadau ag egwyliau byr y tu allan i'r ysgol ac amgylchedd y cartref. Yn cychwyn yn hwyr yn 2014, mae'r gwasanaeth yn cael ei ariannu ar y cyd gan y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (drwy Gyllido Teuluoedd yn Gyntaf) a gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n adeiladu ar y model darparu blaenorol drwy gyflwyno mwy o waith achos unigol i gefnogi gofalwyr ifanc i wella eu cyrhaeddiad a'u presenoldeb addysgol. Ers mis Ebrill 2015, mae hanner cant o Ofalwyr Ifanc wedi bod yn defnyddio'r Prosiect ac rydym wedi derbyn adborth positif 100% gan gyfranogwyr.

101. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhoi pwyslais cryf ar ymgysylltu defnyddwyr a'r cyhoedd. Rydym yn gweithio ar ddatblygu Panel Dinasyddion sy'n adeiladu ar y strwythur llwyddiannus ar gyfer ymgysylltu sydd ar waith yn barod ym Mro Morgannwg. Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn am ymarfer blynyddol sylweddol i gael gafael ar ddata 'ansoddol', amrediad o wybodaeth ynglŷn â sut yr ydym yn darparu ein gwasanaethau a sut yr ydym yn cyflawni amcanion a chanlyniadau llesiant unigolyn. Yn ystod y flwyddyn sy'n dod, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar roi data gwaelodlin yn ei le a datblygu offer i sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiolon gyda phobl ac yn gwybod sut yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth yma i'w cefnogi nhw'n well yn y dyfodol.
102. Un newid allweddol y mae'r Ddeddf yn ei gyflwyno yw'r angen cymwys, yn hytrach na'r unigolyn cymwys. Mae hwn yn newid allweddol yn y ffordd a weithiwn a byddwn yn canolbwyntio hyfforddiant i'n staff ar sicrhau 'Sgyrsiau Gwell' gyda phobl ar y cyfle cynharaf, gan atal dyblygiad a chyfeirio pobl yn briodol at wasanaethau ataliol sydd wedi eu seilio o fewn eu cymunedau a'u rhwydweithiau eu hunain. Yn y dyfodol, ni fydd yr un gwahaniaethu rhwng defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr wrth asesu angen. Byddwn yn eu hystyried yn unigolion wrth eu teilyngdod eu hunain, yn gwneud asesiadau a chynllunio gofal drwy 'gydgynhyrchu' (sy'n ffurf llawer gwell o ymgynghori).
103. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn wasanaeth gwybodaeth un alwad i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc 0-20 oed ym Mro Morgannwg, yn ogystal ag i bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd. Mae'n darparu gwybodaeth am ddim ar ystod eang o opsiynau gofal plant a gweithgareddau i blant, eu teuluoedd a gofalwyr. Mae'r FIS yn cynnal cronfa ddata o fwy na 1,000 o wasanaethau. Gall pobl broffesiynol a theuluoedd gysylltu â'r gwasanaeth yn uniongyrchol ac mae'r wybodaeth ar gael ar-lein hefyd drwy gyfleusterau chwilio. Mae'r wybodaeth yn cael ei diweddarau bob blwyddyn o leiaf. Yn ystod 2015/16, cynyddodd y FIS ei ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i hybu'r gwasanaeth ac i gyrraedd rhieni a phobl broffesiynol yn yr oes ddigidol. Defnyddir Facebook a Twitter yn rheolaidd i amlygu ymgyrchoedd ac i hysbysebu digwyddiadau a gweithgareddau. Mae'r FIS yn parhau i fod yn wasanaeth a werthfawrogir yn fawr gydag ymateb positif iawn pan ofynnir i ddefnyddwyr am lefelau boddhad. Mae hefyd yn gweinyddu'r Indecs Anabledd sy'n gyfeiriadur o blant a phobl ifanc yn y Fro sydd â namau penodol. Mae bron i 400 o blant wedi eu cofrestru ar yr Indecs erbyn hyn ac mae eu teuluoedd yn derbyn gwybodaeth reolaidd; mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 18% yn y deuddeg mis diwethaf.
104. Mae'r Fforwm Pobl Hŷn yn y Fro'n parhau i fod yn weithgar iawn ac yn hyrwyddo a darparu llais pwysig mewn materion datblygu gwasanaethau. Mae gan y Cyngor hefyd Banel Rhianta Corfforaethol i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc y mae'n gofalu amdanynt yn derbyn y gefnogaeth, y gofal a'r amddiffyniad y maent yn eu haeddu.

105. I fod yn barod i weithredu'r Ddeddf, datblygwyd porth gwybodaeth o'r enw DEWIS Cymru. Yn rhanbarthol, rydym wedi gweithio'n galed i lwytho gwybodaeth am ein gwasanaethau i gyd a'r gwasanaethau wedi'u comisiynu ar y porth yma. Rhoddwyd cymorth i'r trydydd sector sy'n cymryd rhan yn yr ymarfer yma i gyflawni hyn ac rydym yn cefnogi'r gwasanaethau iechyd i'w ddefnyddio i gael yr effaith fwyaf. Mae'r porth yn gonglfaen allweddol ar gyfer datblygu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) fel sydd wedi ei nodi yn y Ddeddf, i gefnogi pobl i gael gafael ar wybodaeth ar gam cynnar a chadw'n annibynnol heb fod angen cefnogaeth gwasanaethau statudol ffurfiol.
106. Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan integrol o'n gwaith cynllunio gwasanaethau. Mae gan y Cyngor ystod o bolisïau ar waith i sicrhau ein bod yn ateb ein goblygiadau mewn meysydd megis yr Iaith Gymraeg. Mae'r ganolfan gorfforaethol yn monitro effeithiolrwydd y gwaith a wnaed gan y Gyfarwyddiaeth i gydymffurfio â'r polisïau yma. Rydym yn parhau i weithio ar yr agenda 'Mwy na dim ond geiriau', polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym wedi cefnogi cydweithwyr corfforaethol i baratoi ar gyfer mwy o gydymffurfiaid â'r Safonau Iaith Gymraeg diwygiedig a fydd yn weithredol o fis Ebrill 2016. Rydym yn parhau i annog siaradwyr Cymraeg i wneud cyrsiau diweddarau a dod yn fwy hyderus yn eu gallu i ddefnyddio'r iaith yn eu hamgylchedd gwaith. Mae cynlluniau gwasanaethau'n cael eu datblygu i sicrhau bod gan bob ardal well adnoddau i ymateb i anghenion siaradwyr Cymraeg.
107. Yn ogystal â dosbarthu gwybodaeth drwy'r gymuned gyfan, rydym yn parhau i sicrhau bod ystod o daflenni ar gael drwy'r ganolfan cyswllt corfforaethol sy'n rhoi cyfres o wybodaeth wedi'i theilwra'n arbennig i'r ymholwr ac i'r rheiny a atgyfeiriwyd i'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae Cyfeiriadur Gofal Bro Morgannwg, sydd ar gael mewn amrywiaeth o allfeydd, yn cynnig cyngor ac yn cyfeirio at bobl sydd eisïau ymdrin â'u hanghenion gofal cymdeithasol yn annibynnol. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn parhau i weithio gyda'i phartneriaid i gynhyrchu gwybodaeth a chyfeirio ar y cyd lle bo'n ymarferol. Mae Ailstrwythuro'r Adran Gwasanaethau Oedolion wedi ein galluogi i ddarparu gwasanaethau gwell i bobl ar eu pwynt cysylltu cyntaf, ac mae wedi dod â newid sylweddol yn barod ym mhatrwm y galw am wasanaethau oedolion.
108. Mae'r holl newidiadau i'r gwasanaethau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi derbyn sylw mewn Aseiad o Effaith Cydraddoldeb ac mae'r rhain wedi eu cynnwys erbyn hyn, fel y bo'n briodol, mewn Adroddiadau Cabinet, i helpu'r Weithrediaeth wneud penderfyniadau deallus.
109. Dyma ein blaenoriaethau ar gyfer gwella yn 2016-17.

Byddwn yn:

- parhau i ddatblygu'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth drwy ddefnyddio porth DEWIS Cymru.
- rhoi Panel Dinasyddion ar waith sy'n adeiladu ar y strwythur llwyddiannus ar gyfer ymgysylltu sydd ar waith yn barod ym Mro Morgannwg.

4b) Trefnu

Y Gweithlu

110. Dyma oedd ein blaenoriaethau gwella ar gyfer 2015/1216 a'r cynnydd a wnaed.
- Rydym wedi cefnogi'r holl staff rheng flaen i gael eu hyfforddi'n barod ar gyfer dyddiad gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn wedi cynnwys gwaith i helpu i gomisiynu rhaglen genedlaethol ac yna ei haddasu ar gyfer y cyd-destun lleol. Roedd y staff yn derbyn diweddariadau rheolaidd drwy StaffNet a Core Brief. Hefyd aethom ati i ymgysylltu â 'hyrwyddwyr newid' i gefnogi staff ar lefel yr ymarferydd.
 - Gwnaethom yn siŵr fod staff o bob rhan o'r sector gofal cymdeithasol yn gallu cael gafael ar gyfleoedd e-ddysgu.
 - Rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid, yn enwedig Cyngor Caerdydd, i gynllunio a darparu hyfforddiant ar y cyd, i gwrdd â gofynion Grant Datblygiad y Gweithlu a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.
 - Mae grŵp gweithredol wedi bod yn cynllunio sut i sefydlu Cyd-Bartneriaeth y Gweithlu ar gyfer Bro Morgannwg a Chaerdydd ac rydym yn bwriadu ymgynghori ar gynnig yn hydref 2016.
111. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn dal i ganolbwyntio ar gyfraddau da o ran cadw staff, penodi llwyddiannus a staff effeithiol, er gwaethaf y pwysau o'r gostyngiad yn y gyllideb a'r staffio. Mae gennym yn eu lle ac ar waith gynlluniau gweithlu sector cyfan sy'n dangos bod gweithlu digonol ar gael i gwrdd â'r anghenion a aseswyd a'u bod yn fedrus, diogel a chanddynt ffocws. Mae'r cynlluniau yma'n ymdrin â phroblemau penodi a chadw, fetio cymwysterau, cofrestru, galluoedd, cymysgedd sgiliau, anghenion hyfforddi a gofynion o ran cefnogaeth.
112. Diwygiwyd y System Ddatblygu ac Adolygu Perfformiad (PDRS) yn ystod 2014/15 ac mae gofyniad ar y staff o bob rhan o'r gwasanaethau i gael PDRS flynyddol; cyflawnwyd hyn ar gyfer mwy na 90% o staff y Gyfarwyddiaeth. Cwblheir archwiliad blynyddol o anghenion hyfforddi a chymwysterau i bob darparwydd sector gofal cymdeithasol a gomisiynwyd. Mae dadansoddiad o'r deunydd archwilio a'r data PDRS yn golygu bod modd cynllunio hyfforddiant ar sail anghenion y sector gofal cymdeithasol cyfan yn y Fro. Mae'r broses yn ein helpu i fonitro cymwysterau staff yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol sydd wedi eu rheoleiddio a darparu hyfforddiant iddynt i sicrhau bod targedau'n cael eu cyflawni. Gallwn ddangos bod mwy na 30% o'r holl hyfforddiant a ddarparwyd yn ystod 2015/2016 wedi ei roi i'r sector gwirfoddol/annibynnol. Roedd hyn yn uwch na'r targed ond mae'r gyfran o staff sy'n derbyn hyfforddiant yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol, efallai o ganlyniad i'r gofyniad i ganolbwyntio ar y modiwlau gweithredu cenedlaethol ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Darparwyd sesiynau ymwybyddiaeth am y Ddeddf i'n holl bartneriaid annibynnol a thrydydd sector.
113. Mae'r rhaglen hyfforddiant blynyddol yn ymatebol i ofynion datblygiadol y gweithlu gofal cymdeithasol. Yn y bon, mae'r staff yn darparu gwerthusiadau positif o'r cyfleoedd hyfforddi a ddarparwyd ar eu cyfer. Mae adborth gan Lywodraeth Cymru am y ffordd y mae'r Fro'n defnyddio grantiau datblygu'r gweithlu y llywodraeth ganolog yn dangos bod gwaith yn y Fro yn parhau i symud yn y cyfeiriad cywir. Mae angen rhagor o waith i werthuso effeithiau tymor hir ar arferion.
114. Defnyddir adnoddau i gefnogi staff sydd wedi cwrdd â thargedau cymwysterau Llywodraeth Cymru ac mae'r canran o staff cymwys yn y grwpiau allweddol yn dal i fod yn

sefydlog. Mae rheolwyr a staff yn ystyrlon iawn o'r angen i hybu diwylliant o ddysgu parhaus ac ymarfer wedi'i seilio ar dystiolaeth ar bob lefel ac i addasu arferion gwaith cymdeithasol yng nghyd-destun gwaith ymchwil perthnasol. Rydym wedi parhau i weithio gyda Hyfforddiant Corfforaethol a TGCh i hybu ac annog mwy o ddefnydd o e-ddysgu drwy hysbysebu, cyflwyniadau, cefnogi uniongyrchol ac adrodd. Rydym hefyd wedi cynyddu'r lefel mynediad at y Gronfa Ddysgu i gefnogi'r fenter hon. Mae hwn yn ddull effeithlon o ran amser a chost-effeithiol o ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol a rhai cyrsiau mwy dwys.

115. Ar gyfer cyrsiau nad ydynt yn hyfyw pan gânt eu rhedeg gan un awdurdod lleol yn unig, mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill a/neu gyrrff proffesiynol ar lefelau rhanbarthol neu genedlaethol. Mae gennym grŵp datblygiad a hyfforddiant Datblygu'r Gweithlu sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r trydydd sector, darparwyr preifat, y coleg addysg bellach a'r Cyngor ehangach. Mae'r Fro wedi parhau i fod â chynrychiolaeth weithredol ar y Panelau Asesu Ymarferion a Phwyllgorau Rheoli Rhaglen ein partneriaid (h.y. Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Fetropolitanadd Caerdydd a'r Brifysgol Agored) ac mae'n cyfrannu at Grŵp Addysg a Hyfforddiant De Ddwyrain Cymru. Mae'r trefniadau yma'n ein helpu i sicrhau cyflenwad digonol o weithwyr cymdeithasol cymwysedig ac ymarfer cyfleoedd dysgu. Rydym wedi gweithio i sicrhau bod y Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus (CPEL) i Weithwyr Cymdeithasol yn cael ei weithredu'n effeithiol.
116. Mae mentrau cydweithredol eraill yn helpu i ddarparu cysondeb, atal dyblygiad a sicrhau gwerth am arian. Mae tîm hyfforddi'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio gyda chydweithwyr o'r GIG, Cyngor Gofal Cymru ac Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA) i ddatblygu rhaglenni hyfforddiant i nifer o fentrau allweddol Llywodraeth Cymru. Yn rhan o'i brosesau sicrhau ansawdd, mae'r tîm yn cydweithio â chydweithwyr corfforaethol a chydaddoldeb i sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau'r Fro, yn ogystal â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol, wedi eu cynnwys yn yr holl hyfforddiant a ddarperir.
117. Mae gan y Cyngor ystod o bolisiau sy'n darparu cefnogaeth i staff, yn cynnwys amser gweithio hyblyg, cynllun arbennig i ymadawyr, cynllun seibiant o yrfa a rhannu swydd. Mae'r rhain oll yn cyfrannu at greu gweithlu cynhyrchiol a sefydlog. Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi gweld lefel uwch o absenoldebau oherwydd salwch yn ystod 2015/2016 nag yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Cododd o gyfartaledd o 12.65 o ddiwrnodau a gollwyd i bob gweithiwr Cyfatebol ag Amser Llawn yn 2014/15 i 13.57 yn 2015/16. Nodwyd absenoldeb oherwydd straen fel 33.4% o'r absenoldebau a gofnodwyd. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cynlluniau newydd i wella'r rheolaeth ar absenoldebau ac roedd y rhain yn dechrau cael effaith yn chwarter olaf y flwyddyn.
118. Mae'r Cyngor wedi sefydlu grŵp diogelu corfforaethol i sicrhau bod ei bolisiau personél yn adlewyrchu'r gofynion am weithlu diogel ac i roi ystyriaeth lawn i'r gofynion sy'n llifo os cyflogir gweithlu sy'n cael ei reoleiddio ac unigolion cofrestredig. Cynhyrchodd y grŵp gynllun gweithredu a chytunodd y Cabinet ar Bolisi Recriwtiad Mwy Diogel ar gyfer y Cyngor ac Ysgolion ym mis Ionawr 2013. Mae hyn yn parhau i gael ei fonitro a'i adrodd. Cafwyd gwelliant yn y lefel o gydymffurfiaid â'r polisi recriwtiad mwy diogel; ni adroddwyd am unrhyw achos o dorri'r polisi yn ystod y deuddeg mis diwethaf. I gefnogi'r broses a sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael i bob cyflogai, mae tudalen benodedig wedi ei datblygu ar dudalen StaffNet y Cyngor a thudalen ysgolion StaffNet; mae hyn yn sicrhau mynediad hawdd at y polisi recriwtiad mwy diogel, y canllawiau cefnogol a'r ffurflen asesiad risg.

119. Mae'r Cynllun y Gweithlu ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol 2015/19 wedi ein helpu i bennu ein themâu datblygiadol allweddol. Mae staff wedi ymateb yn dda i fentrau mawrion megis Prosiect y Gofod a'r defnydd cynyddol o TGCh i gefnogi gweithio ystwyth a gwella darpariaeth y gwasanaethau i'r bobl y maent yn eu cefnogi. Drwy weithredu Rhaglen Datblygu Rheolwr y Tîm, rydym yn helpu i sicrhau bod gan y rheolwyr cyfredol a rheolwyr y dyfodol y sgiliau sy'n ofynnol i reoli gwasanaethau cymdeithasol wedi'u moderneiddio. Mae ein defnydd o staff asiantaeth yn dal i ostwng ac mae gwaith ailstrwythuro mawr yn y gwasanaethau oedolion wedi cynyddu gwydnwch o fewn y timau a lefel y gweithio integredig o fewn y GIG.
120. Ymysg y themâu datblygiadol eraill ar gyfer y gwasanaeth wrth iddo symud yn ei flaen mae sicrhau bod staff yn gallu symud yn haws o fewn ac ar draws y timau drwy gael diwylliant sy'n eu cefnogi i fod yn fwy hyblyg. Byddwn yn ceisio cynyddu gwydnwch hefyd o fewn y timau drwy wneud newidiadau i'r cymysgedd sgiliau sy'n ein galluogi i ddefnyddio ein gweithlu amrywiol yn briodol a gweithredu gwasanaethau ar y raddfa briodol drwy gydweithrediad â phartneriaid. Bydd hyn yn cynnwys gostwng faint o waith arferol a wneir gan ein staff gyda'r cymwysterau mwyaf proffesiynol a manteisio ar fwy o lefelau cymhwyster ar raddau is. I gael mwy o integreiddiad rhwng y gwasanaethau ar draws y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, bydd angen i grwpiau staff weithio mewn gwahanol ffyrdd ac ar draws ffiniau sefydliadol. Bydd hyn yn golygu nid yn unig ddatblygu strwythurau rheoli a systemau busnes ond hefyd newidiadau mewn arferion.
121. Dyma ein blaenoriaethau gwelliant ar gyfer 2016/17:

Byddwn yn:

- adolygu'r cynlluniau olyniant staff sydd ar waith, am fod gennym weithlu sy'n heneiddio mewn rhai meysydd allweddol megis yr haenau Rheolwyr Tîm.
- helpu staff i gynyddu eu dealltwriaeth o'r newidiadau deddfwriaethol mawr a'u goblygiadau.
- dod â chynnig yn ei flaen i uno'r unedau hyfforddi yn y gwasanaethau cymdeithasol ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg.

Rheoli Perfformiad

122. Mae'r systemau gwybodaeth am berfformiad yn gweithio'n dda. Cafodd Cynllun gwasanaethau'r Gyfarwyddiaeth 2015-18 ei lunio i ganolbwyntio ar welliant yn y gwasanaeth yn gyffredinol a chyflawniad amcanion allweddol yn y Cynllun Corfforaethol 2013-17, y Cytundeb Canlyniadau 2013-16 a'r Cynllun Gwella Adran 1 2015-16. Mae hyn yn cynnwys y blaenoriaethau gwelliant sydd wedi eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ac mae'r rhain wedi cael eu monitro gan AGGCC, gyda chanlyniadau positif. Er enghraifft, mae perfformiad yr Oedi wrth Drosglwyddo Gofal wedi gwella'n sylweddol. Mae'r trefniadau mynediad cydgysylltiedig, y gwasanaethau rhyddhau ac ailalluogi oll wedi helpu i gefnogi gwelliant yn y maes yma.
123. Mae ein hadroddiadau perfformiad chwarterol wedi cael eu datblygu i adlewyrchu'r Cynllun Gwasanaethau. Yn gyffredinol, mae'r gyfarwyddiaeth wedi cyflawni'r mwyafrif o flaenoriaethau ei chynllun gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn. Mae 84% o'r camau gweithredu a bennwyd yn y Cynllun Gwasanaethau wedi cael eu cwblhau. Yn nhermau ein cyfraniad i'r Cynllun Corfforaethol, mae 88% o'r camau gweithredu wedi eu cwblhau. O'r 6 cham gweithredu sy'n ymwneud â'r Amcanion Gwella, mae'r 6 i gyd wedi cael eu cwblhau. O'r 80 o Ddangosyddion Perfformiad yr adroddwyd amdanynt ar ddiwedd y flwyddyn, mae

65% wedi cwrdd neu fynd y tu hwnt i'r targed, roedd 14% o fewn y 10% o'r targed ac mae 14% wedi methu'r targed o fwy na 10%.

124. Dyma oedd ein blaenoriaethau gwella ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd a wnaed. Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid statudol i adolygu'r gefnogaeth TGCh sy'n ofynnol ac i gynllunio ar gyfer gweithredu System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Mae hyn yn cael ei gynllunio i ganiatáu i wybodaeth gael ei rhannu rhwng gwahanol Fyrddau Iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol ar unwaith, gan helpu i ddarparu gwell gofal a chymorth i bobl ledled Cymru. Bydd y system newydd yn galluogi gwasanaethau cymdeithasol (oedolion a phlant) ac ystod o wasanaethau iechyd cymunedol (yn cynnwys iechyd meddwl, therapi a nyrsio cymunedol) i gynllunio, cydlynu a darparu gwasanaethau a chefnogaeth yn effeithiol i unigolion, teuluoedd a chymunedau. Bydd yn cefnogi gofynion rhannu gwybodaeth, rheoli achosion a llif gwaith i sefydliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ledled Cymru. Bydd yn dangos lle mae cleifion o fewn eu triniaeth ac yn rhybuddio pobl broffesiynol ym maes iechyd am ddata allweddol, a fydd yn cefnogi darpariaeth triniaeth effeithiol.
125. Yn dilyn proses gaffael ar y cyd rhwng yr Awdurdodau Lleol a GIG Cymru a ddechreuodd ym mis Mawrth 2013, pennwyd CareWorks fel cyflenwyr dewisedig WCCIS. Mae ei system Cyfarwyddwyr Gofal yn cael ei datblygu ar hyn o bryd er mwyn ateb holl ofynion y WCCIS. Canlyniad y broses gaffael yw bod yr holl Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yng Nghymru'n gallu caffael WCCIS ac fel bod ganddo'r potensial i ddod yn system Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymunedol Cenedlaethol i Gymru.
126. Goruchwylir gweithrediad rhanbarthol Caerdydd a'r Fro gan y Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig sydd wedi cytuno i benodi rheolwr prosiect rhanbarthol ac ariannu arweinydd 'technegol' rhanbarthol. Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi atgyfnerthu'r ffaith mai amcan allweddol gweithrediad y WCCIS yw cefnogi integreiddiad iechyd a gofal cymdeithasol. Hyd nes bydd y WCISS wedi dod yn weithredol yn ein rhanbarth, sydd wedi'i gynllunio ar hyn o bryd i ddigwydd ym mis Hydref 2017, bydd gwasanaethau'n parhau i ddefnyddio systemau cofnodion cleientiaid/cleifion electronig cyfredol (e.e. PARIS, Swift, Care First). Rydym yn parhau'n rhan o'r Consortiwm SWIFT, sef grŵp o awdurdodau lleol sy'n defnyddio yr un system wybodaeth i reolwyr ac yn gweithio ynghyd i sicrhau ei fod yn gallu cofnodi'r holl weithgaredd o fewn y gwasanaeth ac adrodd ar y gweithgareddau hyn mewn ffordd amserol. Er nad oeddem ni'n un o'r Awdurdodau Lleol oedd yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r broses gaffael oherwydd ein contract cyfredol, roeddem yn cymryd rhan yn y broses werthuso am fod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar y bwrdd llywodraethu gweithrediad ar lefel genedlaethol.
127. Mae rheolwyr o fewn y Gyfarwyddiaeth wedi cynnal systemau effeithiol i reoli perfformiad, monitro canlyniadau, cyflawniadau a gwendidau, a chymryd camau cywiro fel y bo'n ofynnol. Hysbysir y Pwyllgor Craffu am adroddiadau archwiliadau, arolygon ac adroddiadau allanol eraill ar berfformiad. Mewn ymateb i'w canfyddiadau, cynhyrchir cynlluniau gweithredu a chânt eu monitro a'u hadrodd i'r rheolwyr corfforaethol, y Weithrediaeth a'r Pwyllgor Craffu. Mae perfformiad yn eitem reolaidd ar agenda'r cyfarfodydd rhwng y Cyfarwyddwr a Phenaeithiaid Gwasanaethau ac i Dimau Rheoli Rhanbarthol. Mae'r adroddiadau gwybodaeth i reolwyr yn cael eu cynhyrchu'n fisol ac yn cael eu dosbarthu'n eang o fewn y Gyfarwyddiaeth. Rydym yn parhau i adrodd am berfformiad i'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol bob chwarter.
128. Dyma ein blaenoriaethau gwella ar gyfer 2016-17.

Byddwn yn:

- parhau i weithio gyda'n partneriaid statudol i baratoi ar gyfer gweithredu'r system TG lechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithasol Cymru Gyfan (WCCIS).
- cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn cael ei hadrodd yn unol â gofynion newydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ystod y flwyddyn yma o drawsnewidiad.

4c) Darparu Cyfarwyddyd

Cefnogaeth a Goruchwyliaeth Gorfforaethol a Gwleidyddol, Diwylliant ac Arweinyddiaeth y Gyfarwyddiaeth

129. Rydym yn parhau i elwa o gefnogaeth wleidyddol effeithiol a sefydlog wrth gyflawni ein cyfrifoldebau ar draws yr ystod o gyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) wedi canmol yn gyson y ffordd y mae'r Gyfarwyddiaeth yn cyfrannu at drefniadau llywodraethu corfforaethol effeithiol iawn. Mae rheolwyr yn gweithio'n galed i sicrhau bod y Weithrediaeth, y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Craffu yn derbyn y cyngor a'r wybodaeth broffesiynol orau bosib am holl faterion y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn wedi cynnwys cytuno ar y rhaglen gyllideb ar gyfer 2015/2016 oedd yn gofyn bod y gwasanaeth yn gostwng gwariant o £1.5m. Cafwyd cyfarfodydd misol o Fwrdd Rhaglen y Gyllideb a gwahoddiwyd aelodau'r Cabinet ac uwch swyddogion i fynychu. Mae swyddogion wedi gwneud Aelodau'n ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol oherwydd cyflwyno'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol i bobl dros 25 oed a heriau cydweithredu eraill.
130. Mae darparu adroddiadau o ansawdd da i Bwyllgorau Craffu a'r Cabinet yn nodwedd bwysig o'n hatebolrwydd, ac yn cefnogi cyfrifoldebau Aelodau Etholedig i graffu ein perfformiad. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cadarnhau bod y Pwyllgor Craffu'n gweithredu'n dda. Rydym hefyd wedi sicrhau bod uwch swyddogion ac Aelodau Etholedig wedi derbyn briff rheolaidd yng nghyfarfodydd Pwyllgor Craffu'r Cabinet a chyfarfodydd y Tîm Rheolaeth Gorfforaethol am y cynlluniau i weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a sut y bydd y newidiadau yma'n effeithio ar ddarparwyr a thrigolion y Fro.
131. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd ar lefel yr uwch swyddogion ar draws yr Awdurdod i sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau priodol o bob maes yn cael eu defnyddio i gefnogi a dylanwadu ar newid o fewn y gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys pennu blaenoriaethau, heriau a risgiau. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn parhau i gyfrannu at waith corfforaethol y Cyngor drwy gymryd rhan mewn nifer o'r ffrydiau gwaith allweddol. Er enghraifft, yn ystod 2015/2016 rydym wedi cefnogi'r canlynol yn gryf drwy ymgysylltiad staff eang:
- y Rhaglen Ailsiapio Gwasanaethau
 - cynhyrchu'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2016/20
 - paratoi ar gyfer yr Aseiad Corfforaethol
 - gweithredu'r Safonau iaith Gymraeg
 - y gwaith a wnaed gan y Grŵp Diogelu Corfforaethol
 - cyd-gynhyrchu cynllun datblygu'r gweithlu (yn gorfforaethol ac ar lefel y Gyfarwyddiaeth) a Siarter y Staff, a fydd yn cael eu lansio yn fuan yn y flwyddyn ariannol nesaf.

132. Mae agenda Ailsiapio Gwasanaethau'r Cyngor, a ddechreuodd ddod yn weithredol yn 2015, wedi dangos bod y Cyngor yn cydnabod bod angen gweithredu'n wahanol os ydyw'n mynd i gwrdd â'r sialensiau deul: cynnydd mewn galw a gostyngiad mewn adnoddau. Mae'r rhaglen yn hynod uchelgeisiol ac wedi'i rheoli'n dynn. Mae modelau darparu gwasanaethau amrywiol wedi'u mabwysiadu, yn unol â'r cyd-destun. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd priodol o ddarpariaeth fewnol, y trydydd sector a mentrau masnachol. Mae gwybodaeth a phapurau'n cael eu rhannu gyda'r staff ar StaffNet ac mewn dogfennau Core Brief.
133. Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli'r rhaglen eang o waith cydweithredol gyda'r GIG, Cyngor Caerdydd a'r Trydydd Sector wedi gweithio'n dda yn ystod y flwyddyn. Rydym yn parhau i sicrhau agwedd gydlynol tuag at y rhaglen amrywiol iawn yma drwy Fwrdd Rhaglen Gwaith Cydweithredol y Gyfarwyddiaeth, sy'n cwrdd yn fisol i oruchwylio'r prif raglenni diwygio partneriaeth. Mae'r Arweinydd, aelodau'r Cabinet, y Rheolwr-gyfarwyddwr a swyddogion eraill ledled y Cyngor yn cymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd. Gwnaethpwyd rhai newidiadau, i gynyddu maint a chyflymder ein hagenda ailfodelu gwasanaethau. Daeth Arweinydd y Cyngor yn gadeirydd y Bwrdd Llywodraethu diwygiedig ar gyfer y Bwrdd Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig rhanbarthol a ffurfiodd prif weithredwyr y pum sefydliad cyfansoddol Dîm Arweiniad Strategol. Rhoddodd hyn berchnogaeth ac ymgysylltiad corfforaethol a gwleidyddol cryf i'n gwaith.
134. O ganlyniad i'n trefniadau corfforaethol a strategol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol, rydym yn hyderus fod y Cyngor yn gallu gweithredu mewn ffordd unedig i ddarparu amcanion gwasanaethau cymdeithasol. Mae ein gwaith partneriaeth yn arbennig o gryf gyda'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau (mewn meysydd megis Cynlluniau Addysg Personol i blant sy'n derbyn gofal, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf) a gyda'r Gwasanaethau Tai (mewn meysydd megis Grantiau Adnoddau Anabledd ac ailfodelu gwasanaethau pobl hŷn).
135. Mae diwylliant proffesiynol cryf o fewn y Tîm Rheoli Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae ein gwaith gydag arweinwyr proffesiynol a pholisi Llywodraeth Cymru, rheolwyr y gwasanaeth a'r gweithlu, cyrff archwilio ac arolygu oll yn dangos nodweddion o barch cyfartal a pharodrwydd i gydweithredu mewn gweithgareddau gwella. Rydym wedi gweithio'n galed i ostwng costau, ailsiapio gwasanaethau i ailgyfeirio'r galw, rhanbartholi rhai gwasanaethau ac integreiddio gwasanaethau gyda'r GIG a Chyngor Caerdydd. Gwnaethpwyd penderfyniadau anodd a chawsent eu gweithredu hyd eu cwblhau. Mae Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion wedi bod yn Gadeirydd ar Benaethiaid Cymru Gyfan y Gwasanaethau Oedolion. Mae Pennaeth y Gwasanaethau Plant yn ben ar y Gydweithrediaeth Fabwysiadu Ranbarthol ac mae'r Pennaeth Rheoli Busnes ac Arloesi Interim yn bennaeth rhanbarthol ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
136. Trwy gynlluniau strategol allweddol, rydym yn ymdrechu i sicrhau bod gweledigaeth a chyfeiriad clir i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yn rhannol er mwyn cael ymrwymiad gan y staff i safonau uchel a gwelliant parhaus i'r Gyfarwyddiaeth. Mae Cynllun Gwasanaethau unedig y Gyfarwyddiaeth yn darparu trosolwg pedair blynedd ac yn nodi ein cyfraniad tuag at gyflawni amcanion a chanlyniadau allweddol y Cyngor. Mae'r Cynllun Gwasanaethau'n alinio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau gyda dogfennau cynllunio allweddol eraill - Rhaglen Gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol, Adroddiad Blynyddol y Gyfarwyddiaeth 2014/15, Adroddiadau Blynyddol y Penaethiaid Gwasanaeth a'r argymhellion o Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad Perfformiad AGGCC. Cytunwyd ar Gynllun Corfforaethol

newydd i osod amcanion a chanlyniadau llesiant 2016-2020 i'r Cyngor. Rydym wedi pennu ein cyfraniad tuag at gyflawni'r targedau yma'n llwyddiannus. Bydd y cynlluniau Rhanbarthol a'r cynlluniau Tîm ar gyfer 2016-17 yn disgrifio sut yr ydym yn rhoi'r 'edau euraid' sy'n rhedeg drwy ein holl gynlluniau ar waith. Adroddir am weithredoedd o fewn Cynllun Gwasanaethau'r Gyfarwyddiaeth drwy'r broses wleidyddol bob chwarter a'r Rhaglen Gyllideb bob mis.

137. Cyhoeddodd AGGCC ei Adolygiad Blynyddol a'r Gwerthusiad o Berfformiad ar gyfer y Cyngor hwn ym mis Hydref 2015. Dywedodd yr Arolygwyr bod y Cyngor yn parhau i fod yn gryf yn y ffordd y mae'n arwain ar bartneriaethau sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae cyfeiriad at yr ymarfer ailgyflunio mewn perthynas â gwasanaethau ardal o fewn yr Adran Gwasanaethau Oedolion, sy'n helpu i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol yn cael eu darparu'n esmwyth ar draws y ffiniau proffesiynol a sefydliadol. Yr effaith a gafodd hyn yw dod â gwasanaethau, staff a rheolwyr at ei gilydd o dan un model o ofal wedi'i seilio yn y gymuned. Canfu'r Arolygiaeth fod strategaethau ataliaeth ac ymyrraeth gynnar yn y gwasanaethau oedolion a phlant wedi parhau'n flaenoriaeth, gyda thystiolaeth dda o gynnydd yn y meysydd yma. Rhoddodd hyn y Gyfarwyddiaeth mewn sefyllfa dda i ymateb i ofynion newydd sydd wedi eu hamlinellu yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Rydym yn parhau i gael perthynas dda gyda'r darparwyr gofal annibynnol (trydydd sector a masnachol) sy'n gadael i ni fod yn arloesol ac yn ymatebol i angen.
138. Mae'r staff yn y Gyfarwyddiaeth yn barod i dderbyn y cyfrifoldeb am eu harferion a'u dysgu eu hunain. Cânt eu hannog i ystyried y Fro fel ardal lle anogir a gwerthfawrogir arferion a sgiliau proffesiynol wrth ddarparu gwasanaethau sydd â'r dinesydd yn ganolog iddynt trwy bartneriaeth. Mae'r strwythurau o fewn y Gyfarwyddiaeth yn gweithio'n dda, gyda darluniad clir o gyfrifoldebau ond hefyd gynnabyddiaeth bod angen mabwysiadu dull sy'n ymwneud â'r teulu ac ymdrin yn effeithiol gyda phroblemau pontio lle mae staff yn rhannu'r cyfrifoldebau am weithio'n dda gydag unigolion y mae eu hanghenion yn croesi ffiniau sefydliadol. Er enghraifft, gwelir hyn yn y canlyniadau da a gafwyd o fewn y trefniadau trosglwyddo i bobl ifanc gydag anabledau wrth iddynt symud o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion. Mae'r diwylliant yma wedi rhoi sgiliau da i ni ar gyfer y ffyrdd newydd o weithio sydd eu hangen i gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol diwygiedig o fis Ebrill 2016.
139. Mae ein hanes yn dangos bod y Gyfarwyddiaeth yn gallu cyflawni newid sylweddol a chynaliadwy mewn gwasanaethau. Mae rheolaeth gref ar brosiectau'n golygu bod diwygiadau a gynlluniwyd yn cael eu darparu, heblaw nod newidiadau mewn cyd-destun yn gofyn i ni ail ystyried ein dulliau neu bod ffactorau allanol yn mynd ar ein ffordd. Mae cydnabyddiaeth gorfforaethol o'r angen am gefnogaeth ychwanegol i staff a rhoi mwy o werth ar eu cyfraniad wedi cynhyrchu rhaglen sylweddol o ymgysylltu staff. Yn ei dro, mae hyn wedi arwain at gynhyrchu siarter staff a fydd yn cael ei lansio'n fuan yn y flwyddyn ariannol newydd. Rydym wedi sicrhau bod cyfathrebiad gyda'r staff yn amserol ac effeithiol o ran y newidiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer gwasanaethau. Mae ymgysylltiad manwl wedi digwydd gyda staff mewn digwyddiadau corfforaethol ac yn y Gyfarwyddiaeth i esbonio'r rhesymeg ar gyfer y Rhaglen Ailsiapia Gwasanaethau ac i gael sylwadau a syniadau i gefnogi gweithrediad y newid.
140. Dyma ein blaenoriaethau ar gyfer gwella yn 2016-17.

Byddwn yn:

- Chwilio am ragor o ffyrdd o sicrhau, drwy'r rhaglen Ailsiapio Gwasanaethau, bod gan y staff y sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol i'w helpu i addasu i'r newidiadau yn y ffordd mae'r gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu;
- Gwneud newidiadau i strwythur y Gyfarwyddiaeth fel ei bod yn addas i'w phwrpas, sef ateb gofynion statudol newydd a'r heriau sylweddol sy'n wynebu gofal cymdeithasol.

ATODIAD 1

Y CYNNYDD O RAN EIN HYMATEB I OFYNION Y DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT

Dyma oedd ein blaenoriaethau gwelliant ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd a wnaed.

- Yn ystod 2015/2016, aethom ati i gyflawni maint sylweddol o waith paratoi yn barod ar gyfer lansio'r Ddeddf newydd. Mae'r Grant Darparu Gweddnewidiad wedi ein galluogi i greu tîm ymroddedig sydd â chyfrifoldeb am helpu i reoli'r rhaglen o newid.
 - Gweithredodd swyddogion uwch fel arweinwyr i bob un o'r naw ffrwd gwaith. Mae pob un wedi cadeirio maes allweddol sydd â blaenoriaeth a datblygwyd y gwaith ar sail ranbarthol.
 - Roedd ein cydlynnydd rhanbarthol wedi ymgysylltu'n llawn â'r rhaglen waith genedlaethol, gan ddod â manteision ei gwybodaeth a'i harbenigedd i'r rhanbarth.
 - Rhoddwyd blaenoriaeth i'r staff rheng flaen o ran derbyn yr hyfforddiant cenedlaethol. Penodwyd hyrwyddwyr newid a chwaraeodd y rhain ran flaenllaw iawn yn y broses o gefnogi staff i edrych eto ar eu harferion, troi canllawiau cenedlaethol yn ddeunydd wedi'i lunio'n benodol i'r cyd-destun lleol a helpu i gynhyrchu'r newidiadau gofynnol mewn diwylliant sefydliadol.
 - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg yw'r prif gyfarwyddwr i weithredu'r Ddeddf ar draws y rhanbarth. Mae'r Pennaeth Rheoli Busnes ac Arloesi wedi arwain y gwaith o gynllunio'r rhaglen.
 - Rhoddwyd diweddariadau misol i aelodau etholedig, swyddogion corfforaethol a rhanddeiliaid allweddol am gynnydd y gwaith o weithredu'r Ddeddf.
1. Mae angen i'r gwasanaethau cyhoeddus barhau'n ymatebol i anghenion newidiol y dinasyddion y maent yn eu gwasanaethu. Mae'r cyd-destun demograffig, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru'n newid: mae pobl yn byw'n hirach; mae'r galw am ofal cymdeithasol yn cynyddu; mae pwysau economaidd ar gyllidebau teulu ac ar y sefydliadau hynny sy'n cefnogi pobl mewn angen. Nid ydym wedi gallu rhoi ystod ddigonol o wasanaethau cymunedol ac ataliol yn eu lle i helpu pobl yn ddigon cynnar neu i atal problemau rhag codi. Mae hyn yn golygu, pan fydd pobl yn derbyn eu gofal o'r diwedd, mae'n fwy dwys a chostus. Mae asesiad gor-gymhleth yn gofyn gormod o amser, sgiliau ac adnoddau ac nid yw'n helpu pobl gyda'r pethau y maent yn pryderu amdanynt nac yn eu helpu i gyflawni'r canlyniadau y maent eu heisiau iddynt eu hunain. Lluniwyd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ymdrin â'r pryderon yma. Dyma'r darn mwyaf sylweddol o ddeddfwriaeth sylfaenol a weithredwyd gan y Cynulliad a bydd yn cael effaith enfawr ar y ddarpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru.
 2. Mae'r Ddeddf yn estynedig iawn, ac yn cydgrynhoi mewn un lle lawer o'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n diddymu nifer o ddeddfau a chanllawiau blaenorol sy'n ymwneud â gofal a chefnogaeth ac yn eu disodli o fewn y Ddeddf yma. Mae'r ddeddf newydd yn adeiladu ar y Papur Gwyn, Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith i Weithredu, oedd yn galw am foderneiddio'r gyfraith ynglŷn â gofal a chefnogaeth mewn ffyrdd oedd yn adlewyrchu cryfderau strwythurau, systemau a pholisi yng Nghymru. Mae wedi ei fwriadu i weddnewid y ffordd y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu yng Nghymru ac yn ymdrin ag oedolion, plant a gofalwyr. Mae'r Ddeddf yn dod â dyletswyddau newydd i mewn i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a chyrrff cyhoeddus eraill.
 3. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith statudol newydd i'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a fydd yn gweithredu yn ei gyfanrwydd o Ebrill 6 2016. Mae'n cynnwys tair prif

elfen – y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a chodau ymarfer a chanllawiau statudol sy'n eu cefnogi. Yn nhermau bwriad, mae congflaen y Ddeddf yn rhoi unigolion a'r canlyniadau llesiant y maent eisiau eu cyflawni wrth graidd eu gofal. Mae hyn yn golygu rhoi llais sylweddol iddynt o fewn, a rheolaeth dros, y ffordd y gellir cyflawni'r canlyniadau llesiant yma. Mae awdurdodau lleol o dan ddyletswydd gyffredinol (dan adran 5) i hybu llesiant pobl 'mewn angen' a gofalwyr. Mae llesiant wedi ei ddiffinio'n eang yn adran 2. Mae'r egwyddorion arweiniol yn ymwneud â chydweithredu a phartneriaeth, atal ac ymyrraeth gynnar, cefnogi pobl i gynnal lefel briodol o annibyniaeth a rheolaeth. Dylai'r agwedd cydgynhyrchiol yma, yn ei dro, arwain at sefyllfa lle mae mwy o bobl yn cael eu cefnogi heb fod angen gwneud asesiadau o gymhwysedd a chefnogaeth gofal cymdeithasol lle mae'r achos yn cael ei reoli. Ystyrir hyn fel elfen hynod o bwysig i gynnal gwasanaethau cymdeithasol effeithiol mewn oes o adnoddau cyfyngedig.

4. Mae modd crynhoi'r egwyddorion allweddol a ddisgrifir yn y Ddeddf fel a ganlyn.
 - Mae'n rhaid i ni gefnogi pobl sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth i sicrhau llesiant.
 - Rhaid rhoi pobl wrth galon y system newydd drwy roi llais cyfartal iddynt yn y gefnogaeth a dderbyniant.
 - Rhaid i bartneriaeth a chydlyniad yrru darpariaeth y gwasanaethau.
 - Bydd y gwasanaethau'n hyrwyddo'r broses o atal cynnydd mewn anghenion ac yn sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr amser cywir.
5. Mae llawer iawn o waith paratoi wedi'i wneud yn y Cyngor yma ac mewn cydweithrediad â phartneriaid rhanbarthol, yn enwedig Cyngor Caerdydd. Parhaodd hyn hyd Ebrill 6 a thu hwnt. Mae'r rhaglen o newid yn cynnwys naw ffrwd waith. Mae'n cael ei reoli drwy grwpiau tasg a gorffen, a phob un ohonynt wedi'i arwain ar y cyd gan y penaethiaid gwasanaeth perthnasol o'r ddau gyngor. Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ym Mro Morgannwg yw'r cyfarwyddwr arweiniol rhanbarthol ar gyfer y rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu Grant Darparu Gweddnewidiad (DTG), ers 2014/15, i gefnogi cynlluniau gan awdurdodau lleol ar gyfer gwneud y trosglwyddiad i'r trefniadau newydd. Fel sy'n ofynnol gan y grant yma, mae trefniadau llywodraethu rhanbarthol yn eu lle i fonitro a goruchwyllo cynnydd.
6. Mae gwasanaethau newydd yn cael eu datblygu. Mae hyn yn cynnwys symudiadau tuag at ddarparu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Diben llunio'r gwasanaeth hwn yw sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y cymorth cywir ar yr amser cywir i gyfateb â'u sefyllfa unigol. Mae datblygiad y gwasanaeth yma'n dal ar ei ganol wrth i ni gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n ofynnol a beth sy'n bodoli ar hyn o bryd. Rhan bwysig o'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth fydd pwyntiau mynediad unigol ar gyfer y gwasanaethau gofal cymdeithasol y gall oedolion, plant a gofalwyr eu defnyddio'n hawdd. Mae cyfeiriadur adnoddau cenedlaethol yn cael ei ddatblygu a bydd hwn yn helpu pobl i gael yr wybodaeth gywir ddiweddaraf unrhyw bryd, naill ai adref ar y we neu drwy gysylltu â rhif ffôn unigol neu gyfeiriad ebost. Bydd y cyfeiriadur adnoddau yma ar gael ledled Cymru ac, i sicrhau ei lwyddiant, bydd raid i awdurdodau lleol, byrddau iechyd, y trydydd sector a'r sector annibynnol roi manylion yr adnoddau y maent yn eu darparu ar y we i bobl sy'n chwilio am ofal a chefnogaeth. Enw'r porth gwybodaeth cenedlaethol yma i Gymru yw Dewis Cymru. Mae'r gwaith i sefydlu'r cynnwys rhanbarthol i Gaerdydd a'r Fro yn dod yn ei flaen yn dda.
7. Mae Cynllunio a Hybu Gwasanaethau Ataliol yn ofyniad hanfodol o fewn y Ddeddf. Y nod yw ailgydbwyso ffocws y gofal a'r gefnogaeth ar ataliaeth ac ymyrraeth gynharach – cynyddu'r cymorth o fewn y gymuned i leihau'r cynnydd mewn anghenion i lefel gritigol. Mae'r canllawiau cyffredinol am y goblygiadau sydd gan awdurdodau lleol a'r Byrddau

Iechyd Lleol mewn perthynas â datblygu gwasanaethau ataliol i'w cael yn y Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol). Y ddyletswydd newydd yma i awdurdodau lleol yw sicrhau ystod a lefel briodol o wasanaethau ataliol sydd yn:

- helpu i atal, oedi a gostwng yr angen am ofal a chefnogaeth;
- hybu magwraeth plant gan eu teuluoedd;
- lleihau effaith anabledau pobl;
- arafu gwaethygiad y cyflwr mewn pobl sydd â chyflyrau sefydledig;
- helpu i atal camdriniaeth neu esgeulustra;
- galluogi pobl i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl;
- hybu ailalluogi ac adferiad; a
- gostwng yr angen am orchmynion goruchwyliaeth neu ofal, gweithdrefnau troseddol yn erbyn plant, neu gymryd plant i lety diogel neu ofal yr awdurdod lleol.

8. Mae ein partneriaid trydydd sector yn hanfodol i helpu gyda darparu gwasanaethau ataliol tra bo gwasanaethau cyngor eraill megis ysgolion, tai, cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd yn darparu gwasanaethau llesiant. Y bwriad yw y bydd rhestr lawn o wasanaethau ataliol yn datblygu wrth i'r cyfeirlyfr adnoddau cenedlaethol gael ei ddefnyddio a'i ddiweddarau'n ehangach. Bydd y ddyletswydd i wneud asesiadau o anghenion y boblogaeth erbyn Mawrth 2017 yn helpu awdurdodau i ganfod yr ystod o wasanaethau ataliol a llesiant sydd ar gael. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol:

- asesu ar y cyd i ba raddau y mae pobl yn yr ardal leol angen gofal a chefnogaeth a faint o ofalwyr sydd angen cefnogaeth;
- pennu'r ystod a'r lefel o wasanaeth sydd ei angen i gwrdd â'r anghenion hynny;
- asesu'r ystod a'r lefel gyfredol o wasanaethau ataliol ac a yw'r rhain yn ddigonol, gan gynnwys y gyfatebiaeth â phroffil y gymuned iaith Gymraeg;
- i bob cylch etholaethol llywodraeth leol, cyhoeddi adroddiad asesiad y boblogaeth sydd wedi'i hysbysu gan ymgysylltiad ag amrediad eang o ddinasyddion, rhanddeiliaid a darparwyr.

Bydd yr asesiad o anghenion y boblogaeth yn hysbysu'r gwaith o gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol ac yn pennu unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau. Bydd yn cael ei weithredu'n rhanbarthol gyda'r opsiwn o dorri gwybodaeth i lawr i lefel ardal.

9. Mae'r Ddeddf yn gofyn bod awdurdodau lleol yn gwneud newidiadau sylweddol i'r arferion Asesu a Chymhwysedd cyfredol, gan symud i ffwrdd oddi wrth 'bennu pa wasanaethau y mae unigolyn eu hangen' i bwyslais ar y gofal a'r gefnogaeth y maent eu hangen i gyflawni'r canlyniadau personol sy'n 'bwysig iddyn nhw'. Y nod yw symleiddio asesiadau drwy broses unigol i blant, oedolion a gofalwyr gan, ar yr un pryd, gydnabod eu gwahanol ofynion. Mae'r ddyletswydd i asesu'n orfodol os 'gallai'r person fod ag angen am ofal a/neu gefnogaeth (adrannau 19, 21 a 24). Unwaith mae asesiad wedi cychwyn, mae dyletswydd i ystyried a yw anghenion y person yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd, sy'n ystyried (ymysg pethau eraill) argaeledd y gofal a'r cymorth 'nad ydynt yn rhai awdurdod lleol'. Wrth wneud yr asesiad, mae'r Ddeddf a'r rheoliadau'n gofyn bod yr awdurdod lleol yn ystyried amrywiaeth eang o ffactorau. Cyhyd ag y bo'r rhain yn derbyn ystyriaeth, lle'r awdurdod lleol yw penderfynu pa mor llydan a pha mor ddwfn y bydd yr asesiad yn ymestyn (h.. beth sy'n 'gymesur dan yr amgylchiadau'). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r awdurdod lleol edrych ar yr angen am: gefnogaeth, gwasanaethau ataliol; gwybodaeth, cyngor neu gymorth; ac hefyd a yw'r unigolyn yn gweithio neu eisiau gweithio; p'un a ydynt eisiau cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu unrhyw weithgareddau hamdden ac ati. Mae'n rhaid i asesiadau ystyried: (a) amgylchiadau'r person; (b) canlyniadau personol y person; (c) y rhwystrau i gyflawni'r canlyniadau yma; (d) y risgiau os na chyflawnir y deilliannau yma; a (e) chryfderau a galluoedd y person (Rheoliad 4). Rhaid cynnig copïau

o'r asesiadau i'r person a aseswyd (Rheoliad 6) a rhaid gwneud adolygiadau pan gafwyd newid 'arwyddocaol' mewn amgylchiadau (Rheoliad 7).

10. Ar ôl cwblhau'r asesiad, os yw'r awdurdod yn fodlon bod gan y person anghenion am ofal a/neu gefnogaeth yna mae'n rhaid iddo/iddi benderfynu a yw unrhyw rai o'r anghenion yma'n cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd: yr angen am 'gefnogaeth' sy'n sbarduno'r mater, gan ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod gymryd yr asesiad i'r cam nesaf. Mae adran 32 yn nodi, lle mae awdurdod wedi gwneud asesiad sydd wedi datgelu bod gan yr unigolyn angen am ofal/cymorth, bod yn rhaid iddo benderfynu a yw'r anghenion yma'n cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd ac, os ydynt, yna mae'n rhaid iddo ateb yr anghenion hynny drwy ddarparu cymorth mewn amrywiaeth o ffyrdd (wedi eu rhestru yn adran 34).
20. Mae Rheoliadau Gofal a Chefnogaeth (Asesiad) (Cymru) 2015 yn gofyn bod rhaid cael person wedi ei enwi ar gyfer pob asesiad a bod ganddo ef/ganddi hi y sgiliau, yr wybodaeth a'r gallu i wneud yr asesiad a'i fod ef/ei bod hi wedi derbyn hyfforddiant mewn gwneud asesiadau. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi lefelau priodol y cymhwyster.
11. Nid yw cymhwysedd yn ymwneud â rhoi'r hawl i wasanaeth; mae'n ymwneud â mynediad at ofal a chefnogaeth i gwrdd â deilliannau personol. Mae gan yr unigolyn angen cymwys am ofal a chefnogaeth os bydd asesiad yn nodi na fyddai'n gallu gorchfygu rhwystrau a chyflawni deilliannau personol heblaw bod yr awdurdod lleol yn paratoi cynllun gofal a chefnogi (neu gynllun cefnogi i ofalwyr) ac yn sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu. 22. Mae'r Ddeddf nid yn unig yn atgyfnerthu'r tair Deddf Gofalwyr presennol, mae hefyd yn diddymu: (1) y gofyniad i ganfod a yw'r gofalwr yn darparu neu'n bwriadu darparu 'maint sylweddol o ofal yn rheolaidd'; a (2) y gofyniad bod gofalwyr yn 'gwneud cais' am asesiad. Bydd y goblygiad i asesu'n cael ei sbarduno pan fydd hi'n ymddangos bod angen yno. Mae'r ddyletswydd i asesu'n berthnasol beth bynnag fo barn yr awdurdod lleol am y lefel o gefnogaeth y mae'r gofalwr ei angen neu'r adnoddau ariannol sydd ganddo ef neu ganddi hi neu adnoddau ariannol y sawl sydd angen gofal. Rhaid rhoi ystyriaeth benodol i hyn:
- i ba raddau y gall y gofalwr, ac y bydd y gofalwr, yn parhau i allu darparu gofal, ac i ba raddau y mae'r gofalwr yn barod i, ac y bydd yn parhau i fod yn barod i wneud hynny;
 - a yw'r gofalwr yn gweithio neu eisiau gweithio; a
 - p'un a yw'r gofalwr yn cyfranogi mewn, neu'n dymuno cyfranogi mewn addysg, hyfforddiant neu unrhyw weithgaredd hamdden.
12. Mae'r broses asesu a chymhwysedd yn un o rannau pwysicaf y system gofal a chefnogaeth. Ni ddylid ei ystyried fel porth at ofal a chefnogaeth, yn hytrach, mae'n ymyrraeth gritigol yn ei rinwedd ei hun sy'n gallu helpu unigolion i ddeall eu sefyllfa a gorchfygu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyflawni eu deilliannau personol. Mae pob awdurdod lleol yn datblygu proses asesu angen a chymhwysedd newydd i sicrhau cydymffurfriad â'r Ddeddf. Gweir hyn drwy gyfres o weithdai sy'n cynnwys Hyrwyddwyr Newid a grwpiau bach o ymarferwyr eraill. Roedd yr hen ddeddfwriaeth yn cynnwys rhestrau trwyadl o wasanaethau allai gael eu darparu i oedolion mewn angen. Mae Deddf 2014 yn disodli'r statudau yma ac yn darparu rhestr ddangosol o 'ffyrdd y gall awdurdod lleol ateb gofynion' (i bobl mewn angen a/neu ofalwyr), sef:
- llety mewn cartref gofal, cartref plant neu mewn safle o ryw fath arall;
 - gofal a chefnogaeth gartref neu yn y gymuned;
 - gwasanaethau, nwyddau a chyfleusterau;
 - gwybodaeth a chyngor;
 - cwnsela ac eiriolaeth;
 - gwaith cymdeithasol;
 - taliadau (gan gynnwys taliadau uniongyrchol);
 - cymhorthion ac addasiadau;

- therapi galwedigaethol.

13. Mae'r Ddeddf (fel gyda'r ddeddfwriaeth flaenorol) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion cymwys oedolion. Fodd bynnag, mae'n cryfhau natur yr 'hawl' yma mewn perthynas â 'phlant mewn angen' ac i ofalwyr am ei fod yn trawsnewid yr hyn a oedd gynt yn 'bŵer' yn ddyletswydd i gael ateb i'w hanghenion cymwys. Yn ogystal, mae dyletswydd yn bodoli beth bynnag i ateb anghenion pobl sydd (er bod eu hangenion yn annigonol i bwrpasau'r 'meini prawf cymhwysedd') yn cael eu hystyried dan risg o gamdriniaeth neu esgeulustra. Mae adrannau ar wahân yn ymdrin â'r dyletswyddau mewn perthynas ag oedolion, plant anabl, gofalwyr oedolion a gofalwyr plant.
14. Yn rhannol oherwydd yr amser a gymerwyd i gymryd y fframwaith deddfwriaethol drwy'r Cynulliad, mae'r amseriadau ar gyfer gweithredu newidiadau o'r fath yn mynd i fod yn arbennig o heriol a bydd rhai'n cymryd yn hirach nag eraill i'w gweithredu. Bydd angen hefyd i sefydliadau gyflawni, mewn rhai ardaloedd, symudiad diwylliannol sy'n addasu'r rhyngweithiad rhwng ymarferwyr ac unigolion sydd angen gofal a chefnogaeth. Er enghraifft, bydd angen i bobl broffesiynol helpu pobl i ystyried 'pa fath o fywyd y byddwn yn ei hoffi, a beth sydd angen newid i wneud i hyn ddigwydd?'
15. Mae systemau TG yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r gofynion newydd ac mae hyfforddiant wedi'i gynllunio ym mis Mawrth i'r holl staff sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan y newidiadau. Bydd y gwaith yma hefyd yn ystyried y gofynion mesur perfformiad diwygiedig a newydd. Mae Adran 8 yn gofyn bod Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi 'datganiad o ganlyniadau'. Bwriedir i hwn fod yn erfyn cynllunio strategol a fydd yn cael ei ddefnyddio i asesu a yw bywydau pobl 'mewn angen' yng Nghymru'n cael eu gwella'n faterol gan y fframwaith deddfwriaethol newydd. Mae'r cod ymarfer sy'n berthnasol i fesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn nodi chwe safon ansawdd y mae'n 'rhaid' i awdurdodau lleol eu cyflawni ac y bydd eu perfformiad yn cael ei fesur arnynt.
16. Nod y Ddeddf yw cryfhau ac adeiladu ar arferion diogelu presennol yng Nghymru i sicrhau fod pobl yn gallu byw eu bywydau'n llawn. Mae dyletswyddau newydd ar holl bartneriaid perthnasol awdurdod lleol i roi gwybod am blentyn sydd dan risg neu oedolyn dan risg ac hefyd i awdurdod lleol wneud ymholiadau os oes ganddo achos rhesymol i ddrwgdybio bod rhywun o fewn ei ardal yn oedolyn dan risg neu wneud ymholiadau os cânt eu hysbysu y gallai plentyn fod dan risg (yn cysylltu ag adran 47 y Ddeddf Plant); a chymryd camau i sicrhau bod y plentyn yn ddiogel. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno gorchymnion amddiffyn a chefnogi oedolion (APSOs). Mae hyn yn swyddogaeth newydd sydd wedi'i llunio i alluogi awdurdod lleol i asesu'n gywir a yw person yn oedolyn dan risg ac, os felly, i wneud penderfyniad ynglŷn ag unrhyw gam y dylid ei gymryd. I roi gorchymyn, mae angen bod ag achos rhesymol i ddrwgdybio fod person yn oedolyn dan risg a bod angen y gorchymyn er mwyn gallu eu hasesu, ac na fydd defnyddio'r gorchymyn yn achosi iddynt fod dan fwy o risg o gamdriniaeth neu esgeulustra. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol lle mae ceisiadau eraill i siarad â'r oedolyn sydd efallai dan risg wedi methu y ceir defnyddio gorchymnion amddiffyn a chefnogi oedolion.
17. Mae'r Ddeddf yn sefydlu Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion rhanbarthol ac mae'r rhain yn eu lle'n barod i Gaerdydd a'r Fro, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gan y Byrddau yma ddau brif rôl - atal ac amddiffyn. Mae cynrychiolaeth ar y Byrddau o ystod o asiantaethau statudol, megis iechyd, profiannaeth a'r heddlu, nid awdurdodau lleol yn unig. Mae gan Fyrddau Diogelu Plant ac Oedolion gyfrifoldeb i adolygu arferion a lledaenu gwybodaeth am arferion gorau. Dylai'r Byrddau Diogelu sicrhau fod polisiau a gweithdrefnau cenedlaethol yn berthnasol ac yn addas i'r

pwrpas. Mae'n rhaid i fyrddau gyhoeddi cynllun bob blwyddyn ariannol yn nodi beth maen nhw'n bwriadu ei wneud, ac adroddiad am gynnydd a gwaith a gyflawnwyd ar ddiwedd y flwyddyn honno. Gallent hefyd ofyn am wybodaeth gan asiantaethau partner a gellir gofyn iddynt hwythau am yr wybodaeth yma hefyd.

18. Mae plant a phobl ifanc wedi eu diogelu gan bob rhan o'r Ddeddf ac mae dyletswyddau penodol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a llety, a'r rheiny sy'n gadael gofal. Mae'r Ddeddf yn cymryd lle'r rhan fwyaf o Adran III y Ddeddf Plant 1989 (Atodiad 1). Mae asesiad o blant mewn angen a'u teuluoedd, a darpariaeth unrhyw wasanaethau i gwrdd â'r anghenion hynny, yn cael eu rheoli drwy'r ffrwd waith Cymhwysedd ac Asesu Angen, gan geisio datblygu un broses asesu unigol sy'n broses symlach nag o'r blaen.
19. Mae nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi bod yn codi. Mae'r Ddeddf yn ceisio ymdrin â hyn ac yn amcannu i newid y ffordd mae anghenion plant a theuluoedd am ofal a chymorth yn cael eu cyflawni. Yn allweddol i'r Ddeddf i blant a phobl ifanc mae pwysigrwydd hybu eu magwraeth gan eu teulu. Mae hyn yn golygu ceisio arafu'r angen am ymyrraeth ffurfiol yn eu bywydau a chryfhau gallu teuluoedd i ofalu am eu plant lle bynnag mae'n ddiogel gwneud hynny. Lle bo'n angenrheidiol edrych ar ôl plentyn, mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau mwy o sefydlogrwydd i blant drwy gynyddu'r dewis o leoliadau yn lleol, gan gefnogi parhad perthnasau pwysig a bywyd ysgol, a chanfod yr ateb parhaus cywir yn gynharach. Mae creu'r Gwasanaeth Mabwysiadu cenedlaethol a threfniadau rhanbarthol i ddarparu'r gwasanaethau mabwysiadu yn rhan o'r agwedd yma. Bro Morgannwg yw'r awdurdod sy'n derbyn ar gyfer gwasanaeth y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd.
20. Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno dyletswyddau newydd, 'trefniadau byw ôl-18', sy'n helpu pobl ifanc mewn gofal maethu sydd eisiau parhau i fyw gyda'u rhieni maeth wedi iddynt droi'n 18 oed. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r cynllun "Pan Fydd i'n Barod" a fydd yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r dyletswyddau statudol i hwyluso bywyd ôl-18. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar weithredu'r cynllun yma'n lleol.
21. Un o egwyddorion allweddol y Ddeddf yw cydweithrediad, gan sicrhau gwaith partneriaeth cryf rhwng sefydliadau a chydgyhyrchiad gyda phobl sydd angen gofal a/neu gefnogaeth. Mae Adran 9 y Ddeddf yn canolbwyntio ar Gydweithrediad a Phartneriaeth sy'n nodi cyfrifoldebau penodol i Awdurdodau Lleol eu cyflawni, mewn partneriaeth â Byrddau Iechyd a phartneriaid trydydd sector, ac yn rhoi arweiniad clir ar yr oruchwyliaeth ar drefniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig.
22. Bydd gofyn i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i reoli a datblygu gwasanaethau, i sicrhau cynllunio strategol a gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ac i sicrhau fod gwasanaethau effeithiol, gofal a chefnogaeth yn eu lle i ddiwallu anghenion eu poblogaeth berthnasol yn y ffordd orau. Y pwrpas yw sicrhau fod Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol yn cydweithio i sicrhau'r dylanwad mwyaf ganddynt ar siapiau datblygiad y gwasanaethau yn y dyfodol. Mae Bwrdd Llywodraethu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro i gael ei droi'n Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r rheoliadau'n nodi pa wasanaethau fydd yn cael eu hintegreiddio ar sail wedi'i flaenoriaethu, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cyllidebau cyfun.
23. Un o'r darpariaethau amlycaf yn y Ddeddf yw'r gofyniad yn adran 16 bod awdurdodau lleol yn Hybu Mentrau Cymdeithasol, Cydweithfeydd a Sefydliadau Trydydd Sector i ddarparu gofal a chefnogaeth a gwasanaeth ataliol, yn cynnwys y rheiny sy'n rhoi lle i ddefnyddwyr

gwasanaeth gyfranogi yng nghynllun y gwasanaethau a'r ffordd y cânt eu rhedeg. Mae'r canllawiau perthynol yn pwysleisio pwysigrwydd ymwybyddiaeth yr awdurdod lleol am gyfleoedd caffael megis y rheiny sy'n eu galluogi i roi blaenoriaeth i sefydliadau 'di-elw' ar gyfer contractau penodol sy'n ymwneud â gwasanaethau diwylliannol, gofal iechyd, addysgol a chymdeithasol gweinyddol.

24. Mae Datblygiad y Gweithlu'n rhan hanfodol o'r rhaglen newid. Mae Swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'r Cyngor Gofal i Gymru, gan helpu i ddatblygu deunyddiau hyfforddi cenedlaethol i bedwar modiwl craidd. Aseiniwyd hyfforddwyr allanol drwy'r trefniadau yn ôl y galw cenedlaethol i ddarparu datblygiadau'r gweithlu ar sail wedi'i flaenoriaethu ym misoedd Chwefror a Mawrth. Datblygwyd cynllun hyfforddi i gynnwys y cyfnod cyn Ebrill 6ed 2016 a'r misoedd dilynol. Roedd adnoddau ychwanegol ar gael i helpu i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i Aelodau Etholedig ac i ddarparu cefnogaeth i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol newydd.
25. Wrth i'r dyddiad gweithredu ddynesu, cynyddodd y briffiau am y Ddeddf ar lefel y tîm, i gefnogi staff drwy'r cyfnod hwn o drosglwyddiad. Darparu dilyniant gwasanaethau a busnes oedd y flaenoriaeth uchaf o hyd ond roedd wedi'i gydbwysu gan waith i barhau i ddarparu newidiadau mewn gwasanaethau a pholisi'n gyflym dros y deuddeg mis nesaf a thu hwnt, yn unol â'r egwyddorion craidd sydd wedi'u hamlinellu yn y Ddeddf. Roedd hi'n bwysig rhoi'r awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sydd ei angen i reoli'r cydbwysedd yma orau ag y bo modd. Mae'r Cod Arweiniad Statudol newydd yn nodi dyletswyddau a chyfrifoldebau Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.
26. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu Grant Darparu Gweddnewidiad (DTG) ers 2014/15 i gefnogi trosglwyddiad yr Awdurdodau Lleol i'r trefniadau newydd. Bydd Caerdydd a Bro Morgannwg yn derbyn dyraniad o £425,220 ar gyfer 2016/17 ac, yn amodol ar benderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru, y bwriad yw y bydd y grant yma'n cael ei symud i'r RSG ar gyfer 2017-18 i gydnabod y newidiadau parhaus y mae'r Ddeddf i fod i'w gwthio. Rheolir y grant gan Fro Morgannwg.
27. Mae'r Ddeddf Gymdeithasol yn gosod ystod gyfan o heriau newydd a hawliau newydd i ddefnyddwyr gwasanaeth a fydd yn gorfod cael eu cyflawni mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol dwys i lywodraeth leol a'r gwasanaethau cymdeithasol. Dywedwyd yn glir na fydd unrhyw adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol i awdurdodau lleol i'r pwrpas yma, heblaw'r cyllid gweddnewid/trawsnewid. Mae awdurdodau lleol yn parhau'n ofalus iawn wrth ystyried a fydd digon o adnoddau ar gael i gyflawni'r disgwyliadau a'r ymrwymadau cynyddol yn wyneb y galw cynyddol am wasanaethau. Bydd angen i'r Cyngor ystyried y pwysau ar y gyllideb a fydd yn effeithio ar y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol o ganlyniad uniongyrchol i'r Ddeddf o gychwyn y flwyddyn ariannol nesaf.
28. Mae gan awdurdodau lleol y grym i (ond nid oes rheidrwydd iddynt) godi tâl am y gofal a'r cymorth y maent yn eu darparu/trefnu i gael eu darparu er mwyn ateb anghenion rhywun. Mae'n rhaid i'r tâl fod yn berthnasol i'r 'gost y mae'r awdurdod lleol yn mynd iddo i ateb yr anghenion y mae'r taliad yn ymwneud ag o' (adran 59(2)). Mae'r cyfyngiad yma wedi'i lunio i sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn codi tâl am y broses asesu ei hun - hyd yn oed os yw'r person mewn angen yn ei 'ariannu ei hun'. Mae'r Ddeddf yn gofyn hefyd nad yw'r ffi a godir yn fwy nag sy'n 'rhesymol ymarferol i'r person ei thalu'. Mae'r rheoliadau'n nodi mai'r uchafswm y gellir ei godi am ofal cartref a rhai mathau eraill o ofal cymunedol yw £60.00 yr

wythnos o hyd. Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer sy'n ymwneud ag Adrannau 4 a 5 y Ddeddf, sy'n cyflwyno'r fframwaith a ddiweddarwyd, yn cynnwys:

- gwahardd codi ffi am ofal a chefnogaeth i blant;
- un gyfres o drefniadau codi ffi ac asesiadau ariannol ar gyfer gofal a chefnogaeth breswyl ac am ofal a chefnogaeth nad yw'n breswyl, yn hytrach na'r trefniadau presennol lle mae trefn wahanol i bob un;
- cynnal yr uchafswm ffi wythnosol a'r "byffer" am ofal a chefnogaeth nad yw'n breswyl, yn ogystal â'r cyfyngiad cyfalaf cyfredol a ddefnyddir i benderfynu pwy sy'n talu cost lawn eu gofal preswyl eu hunain;
- cadw'r unigolion cyfredol fel y maent, a'r mathau o ofal a chefnogaeth na ellir codi ffi amdanynt a chyflwyno darpariaeth newydd o hyd at chwe wythnos o ailalluogi rhad ac am ddim i alluogi unigolion i gadw neu adennill eu gallu i fyw'n annibynnol er mwyn hybu ethos ataliad y Ddeddf;
- cyflwyno mwy o dryloywder drwy ymestyn y gofyniad i bawb sy'n derbyn ffi dderbyn datganiad sy'n rhoi manylion y ffi a'i gyfrifiad;
- cyflwyno proses adolygu gyffredinol a chyson i alluogi rhywun i ymholi ynglŷn â ffioedd a godwyd ac i gywiro gwallau;
- cytuno i daliadau gohiriedig mewn gofal preswyl er mwyn galluogi'r rheiny y bydd angen iddynt werthu eu heiddio i dalu am hyn, ohirio ei werthiant nes bydd yr amser yn fwy addas iddyn nhw, a thrwy gyflwyno gallu i awdurdod lleol godi cyfradd llog isel sefydlog ar y swm a ohiriwyd; a
- chaniatáu i awdurdodau adennill costau a chodi tâl dros dir lle ceir dyled.

29. Bydd y trefniadau codi tâl am ofal seibiant yn newid fel bod yr unigolyn yn cael ei asesu ac yn gorfod talu cost fel cleient gofal cartref, yn hytrach na ffi preswyl fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Y gost a ragwelir i'r awdurdod lleol fydd oddeutu £107,000. Mae rhai o fanylion y darpariaethau codi ffi newydd yn ddewisol ac mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn asesu effaith y newidiadau ar bolisiau cyfredol ar gyfer gofal preswyl, gofal nad yw'n breswyl, taliadau a ohiriwyd, taliadau uniongyrchol a chodi ffi am wasanaethau'r gofalwr. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r polisiau presennol nes byddwn wedi cwblhau asesiad llawn o'r newidiadau sy'n ofynnol, yn unol ag unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth Cymru.

30. Mae cyflwyniad y Ddeddf yn digwydd yng nghyd-destun y rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae wedi'i ganolbwyntio'n ganolog ar sicrhau bod anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth yng Nghymru yn cael eu diwallu yn y ffordd fwyaf effeithiol nid yn unig yn awr ond yn y dyfodol hefyd. Yn gyntaf bydd yn symud y pwyslais i ffwrdd oddi wrth ymateb i anghenion unigolyn pan maent yn mynd yn gritigol, i wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar i leihau'r risg y bydd y rheiny'n mynd yn gritigol yn y lle cynaf. Mae hefyd yn ein hannog i wneud defnydd gwell o adnoddau ac atebion sy'n bodoli'n barod o fewn y teulu neu'r gymuned ehangach, gan gynnwys y sector gwirfoddol. Nid yw'r Ddeddf yn diddymu nac yn lleihau cyfrifoldebau awdurdod lleol mewn unrhyw faes ond ei bwriad yw gostwng y ddibyniaeth ar wasanaethau wedi'u comisiynu sy'n fwy costus yn y tymor hir. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwyslais hefyd ar ragweld a dylanwadu ar yr angen yn y dyfodol drwy gynllunio gwasanaethau'n well ar sail asesiadau o anghenion y boblogaeth a wneir ar y cyd ar draws ôl-troed y bwrdd iechyd lleol. Y canlyniad fydd gwasanaethau wedi'u targedu sy'n ymdrin ag anghenion y boblogaeth yn rhagweithiol, gan felly ostwng y gofyniad am wasanaethau ymyrraeth gritigol a fyddai fel arall yn cynyddu mewn poblogaeth sy'n cynyddu ac yn heneiddio.

Ein blaenoriaethau ar gyfer gwella yn 2016-17

Byddwn yn:

- gweithredu'r fframwaith mesur perfformiad cenedlaethol newydd ac yn cyflwyno systemau tanategol, megis System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) a'r porth cenedlaethol i ddinasyddion (DEWIS).
- cefnogi datblygiad agwedd newydd tuag at arferion a phrosesau sy'n ofynnol gan y Ddeddf mewn meysydd megis eiriolaeth, asesiad, darparu gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ac ati.
- datblygu ymhellach ein modelau gwasanaeth i bwysleisio rôl y gwasanaethau ataliol ac arferion comisiynu sy'n hybu mentrau cymdeithasol a gwydnwch cymunedol.